

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgor 3 (Senedd)	Rachael Davies
Dyddiad: Dydd Llun, 11 Medi 2023	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Cofrestru cyn y cyfarfod (09:30 – 10:00)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(10.00)
- 2 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: Sesiwn dystiolaeth 8**
(10.00 – 10.45) (Tudalennau 1 – 19)
Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Richard Desir, Swyddog Nyrsio Profiad y Claf
Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl
Sue Tranker, Prif Swyddog Nyrsio
Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyfarwyddiaeth Galluogi,
Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
- 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar gyfer eitemau 4 a 7**
(10.45)
Egwyl (10.45 – 11.00)



- 4 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: y grŵp cynghori**
(11.00 – 12.30) (Tudalennau 20 – 32)
- Cinio (12:30 – 13:30)**
- 5 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth 9**
(13.30 – 14.30) (Tudalennau 33 – 46)
- Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Sian Jones, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Lloyd Hopkin, Pennaeth Diwygio'r Cwricwlwm
- 6 Papurau i'w nodi**
(14.30–14.35)
- 6.1 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid**
(Tudalennau 47 – 52)
- 6.2 Gohebiaeth â'r Arglwydd Bellamy, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid**
(Tudalennau 53 – 56)
- 6.3 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch therapyddion lleferydd ac iaith ym maes cyfiawnder ieuenctid**
(Tudalennau 57 – 59)
- 6.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch Amserlen y Gyllideb Ddrafft 2024–25**
(Tudalennau 60 – 62)
- 6.5 Gohebiaeth â Chwaraeon Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd**
(Tudalennau 63 – 65)

- 6.6 Gohebiaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 66 – 70)
- 6.7 Gohebiaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 71 – 74)
- 6.8 Gohebiaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 75 – 84)
- 6.9 Gohebiaeth â Phlisma yng Nghymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 85 – 102)
- 6.10 Gohebiaeth â Choleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 103 – 106)
- 6.11 Gohebiaeth â Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalennau 107 – 215)
- 6.12 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch dulliau Iechyd y Cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd
(Tudalen 216)
- 6.13 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Dyled ac effaith costau byw cynyddol
(Tudalennau 217 – 232)
- 6.14 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i Weinidog y Gymraeg a Addysg ynghylch canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref
(Tudalennau 233 – 265)
- 6.15 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
(Tudalen 266)

- 6.16 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog ynghylch Uwchgynhadledd y Cyngor Prydeinig–Gwyddelig yn Jersey
(Tudalen 267)
- 6.17 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i Weinidogion Llywodraeth Cymru ynghylch y gwasanaeth rhagnodi electronig ym maes gofal sylfaenol
(Tudalennau 268 – 269)
- 6.18 Gohebiaeth gan Dr Greg Davies ynglŷn â phleidleisio i garcharorion yng Nghymru
(Tudalennau 270 – 298)
[*Prisoner voting in Wales: devolved autonomy and human rights at the jagged edge*](#) (Papur ymchwil)
- 6.19 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch craffu ariannol yn ystod y flwyddyn 2023–24
(Tudalennau 299 – 310)
- 6.20 Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd
(Tudalennau 311 – 314)
- 6.21 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch y Strategaeth Ddrafft ar gyfer Tlodi Plant
(Tudalennau 315 – 318)
- 6.22 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion
(Tudalennau 319 – 321)
- 6.23 Gohebiaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch Cyflwyniad UKIM i Bwyllgor y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
(Tudalennau 322 – 324)
- 6.24 Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch cyfiawnder data
(Tudalennau 325 – 352)

6.25 Gohebiaeth â Phwyllgor Meddygon Teulu, BMA Cymru, ynghylch cyfiawnder data

(Tudalennau 353 – 357)

6.26 Gohebiaeth gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynghylch cyfiawnder data

(Tudalennau 358 – 362)

7 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod y dystiolaeth

(14.35 – 15.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

PAPUR TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER CYMDEITHASOL Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 17 Mehefin 2023

Rwy'n croesawu'r cyfle i ddarparu gwybodaeth i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor i *Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd*.

Rwyf wedi mynd i'r afael â phob un o feysydd diddordeb y Pwyllgor isod ac edrychaf ymlaen at drafod ymhellach â'r Pwyllgor ddydd Llun 18 Medi.

Y Strategaeth Genedlaethol

Mae'n ofyniad statudol o dan a3(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i Weinidogion Cymru, yn dilyn etholiad cyffredinol, baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

Y Strategaeth Genedlaethol yw'r cyfrwng ar gyfer cyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i:

- a) gryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref
- b) ehangu ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth 'Gofyn a Gweithredu' a 'Paid Cadw'n Dawel'
- c) sicrhau mai Cymru yw lle'r mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw

Paratowyd y Strategaeth ddiwygiedig drwy ymgynghori'n helaeth â gweithgor o sefydliadau partner allweddol a goroeswyr, yn ogystal â'r Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Amcanion y Strategaeth Genedlaethol

Amcan 1

Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.

Amcan 2

Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

Amcan 3

Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.

Amcan 4

Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.

Amcan 5

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Amcan 6

Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n cael eu harwain gan anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n ymatebol ledled Cymru.

Yn ganolog i'r Strategaeth mae dull iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Ymhlith yr egwyddorion y tu ôl i'n Strategaeth, mynegir yr ymrwymiad craidd canlynol;

“Mae egwyddorion iechyd y cyhoedd yn cynnig fframwaith defnyddiol ar gyfer deall ein dull a'r 'theori newid' y byddwn yn ei ddefnyddio i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae dull iechyd y cyhoedd yn deall achosion trais, cam-drin a rheolaeth, a'u heffeithiau. Mae'r dull yn seiliedig ar boblogaethau cyfan ac, fel y cyfryw, yn dibynnu ar ymdrech gydgysylltiedig sy'n cydnabod achosion problemau iechyd a chymdeithasol drwy ymatebion amlasiantaethol.

Mae dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gwella diogelwch pawb drwy fynd i'r afael â'r ffactorau risg sylfaenol sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dod yn oroeswr neu'n mynd yn gyflawnwr. Mae pedwar cam i ddull iechyd y cyhoedd llwyddiannus sy'n hanfodol i'r Strategaeth hon:

- Diffinio'r broblem drwy fynd ati'n systematig i gasglu gwybodaeth am raddfa, cwrpas, nodweddion a chanlyniadau trais
- Sefydlu pam y mae trais yn digwydd gan ddefnyddio ymchwil i bennu achosion a ffactorau cydberthynol trais, y ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau'r risg o drais, a'r ffactorau y gellid eu haddasu drwy ymyriadau
- Ymchwilio i'r hyn sy'n gweithio drwy ddylunio ymyriadau, eu rhoi ar waith a'u gwerthuso
- Rhoi ymyriadau effeithiol ac addawol ar waith mewn amrywiaeth eang o leoliadau, gan gynnwys monitro'r effeithiau ar ffactorau risg a chanlyniadau

Mae Cynghrair Atal Trais Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio 'fframwaith ecolegol' sy'n cynrychioli'r cydadwaith rhwng ffactorau'n ymwneud ag unigolyn, cydberthynas, cymuned a chymdeithas sy'n rhyngweithio i bennu'r risg o drais. Wrth gyflawni'r Strategaeth hon, rydym yn disgwyl i bob penderfyniad gael ei lywio gan ddealltwriaeth o'r model hwn ac ymdrechu i sicrhau bod ymyriadau unigol yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar y fframwaith.

Bydd atal yn rhan greiddiol o'r Strategaeth. Er bod cefnogaeth i oroeswyr a newid system er mwyn gwella canlyniadau i oroeswyr yn dal i fod yn arfau pwysig, rydym am symud y pwyslais oddi ar y symptomau a chanolbwyntio ar yr achos drwy ddull iechyd y cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu y bydd goroeswyr yn cael, nac y dylent ddisgwyl cael llai o'r dull gweithredu hwn. Mae hyn yn ymwneud ag ehangu effaith yr

hyn a wnawn er mwyn sicrhau y caiff goroeswyr eu cefnogi'n gyfannol fel unigolion, a bod effaith ehangach ar y gymdeithas sy'n lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y lle cyntaf. Yn y cyd-destun hwn, mae 'atal' yn derm mantell sy'n golygu bod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r niwed y mae'n ei achosi yn cael eu hatal dros y sbectrwm, gan gynnwys:

- atal cychwynnol: atal trais cyn iddo ddigwydd
- atal eilaidd: ymateb i drais i leihau niwed cymaint â phosibl, gwella gwasanaethau ac atal trais pellach
- atal trydyddol: atal atgwympo a chylchoedd trais sy'n pontio cenedlaethau

Bydd ein dulliau iechyd y cyhoedd yn codi ymwybyddiaeth rhan eang o'r boblogaeth o fesurau atal ac yn lleihau ac atal trais ar lefel y boblogaeth. Bydd hyn yn golygu y byddwn yn ceisio nodi unigolion a all ddod yn oroeswyr, neu fynd yn gyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn gynharach, ond byddwn hefyd yn defnyddio ymyriadau ar draws y boblogaeth gyfan i 'ddadnormaleiddio' trais, rheolaeth drwy orfodaeth ac aflonyddu. Mae'r Strategaeth hon yn mabwysiadu dull cwrs bywyd at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, sy'n cynnwys plant ac oedolion o bob oed, gan gynnwys pobl hŷn, gan adnabod arwyddion cam-drin drwy gydol camau bywyd unigolyn."

Mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni drwy ddull Glasbrint sy'n dwyn ynghyd sefydliadau sydd wedi'u datganoli ac eraill nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'r tîm trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn arwain y gwaith o gyflawni ar gyfer Llywodraeth Cymru ond, er mwyn llwyddo, mae'r Strategaeth yn gofyn am gydweithio ag adrannau eraill gan gynnwys addysg, iechyd, tai a throeddau. Mae mabwysiadu'r dull Glasbrint hwn wedi'i gwneud yn bosibl sefydlu strwythur llywodraethu newydd a rennir sy'n adlewyrchu'r gydberchnogaeth ar y flaenoriaeth gyffredin hon, sef mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd ar gyfer ein gwaith yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau pwysig. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio ein hymdrechion ar y cyd yw:

- herio agweddau'r cyhoedd
- cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant
- mwy o atebolrwydd gan y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin
- blaenoriaethu a chanolbwyntio ar atal
- gweithlu hyderus a gwybodus
- darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch sy'n ystyriol o drawma ac yn cael eu harwain gan anghenion

Mae'r gwaith yn cyfrannu at gyflawni bob un o'r nodau llesiant. Mae hefyd yn cyfrannu at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn enwedig: hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb; creu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell; helpu pobl i wneud y mwyaf o'u potensial; datblygu uchelgais ac annog dysgu am oes; creu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth; hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Bydd ffrydiau gwaith y Glasbrint yn bwrw ymlaen â gwaith ar gamau allweddol a amlinellir yn Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig

a Thrais Rhywiol 2022-2026, ac yn ei oruchwylio, yn ogystal â nodi blaenoriaethau eraill wrth dynnu ar dystiolaeth/gwersi ehangach a ddysgwyd sy'n berthnasol i'r agenda trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rhaid i hyn ddigwydd â chytundeb y Bwrdd Rhaglen Cenedlaethol. Gall y ffrydiau gwaith hyn newid dros amser wrth i gynnydd gael ei wneud ac wrth i flaenoriaethau ddatblygu. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, bydd y rhain yn ymdrin â'r canlynol:

- aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus
- aflonyddu yn y gweithle
- mynd i'r afael â chyflawni trais
- comisiynu cynaliadwy: dull system gyfan
- anghenion pobl hŷn
- anghenion plant a phobl ifanc

Cynnydd a wnaed i weithredu Rhaglen y Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol hyd at 31 Mawrth 2023

- Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol wedi'i sefydlu
- Chwe ffrwd waith wedi'u sefydlu
- Recriwtio i Banel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr wedi dechrau
- Recriwtio i dîm cyflawni Rhaglen y Glasbrint a ariennir ar y cyd wedi gorffen
- [Cynllun Gweithredu Lefel Uchel y Glasbrint](#) wedi'i gyhoeddi

Y camau allweddol sy'n sail i'r rhaglen waith

- Creu 'storfa ganolog o wybodaeth' ar ffurf corff â staff i gydgyssylltu a lledaenu gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r hyn sy'n gweithio, ac i lywio gwaith ymchwil i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys data amlasiantaethol ar dueddiadau o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru
- Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r Strategaeth hon, a bod modd eu defnyddio i fesur ein cynnydd o ran cyflawni ein nodau a'n hamcanion, a sefydlu patrwm adrodd ar gynnydd yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol
- Datblygu model Theori Newid a fydd yn arddangos blaenoriaethau, gweithgareddau a chanlyniadau Rhaglen y Glasbrint
- Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn parhau â dull cydweithredol o weithredu'r Strategaeth hon i gynnwys pob rhanddeiliad a defnyddiwr gwasanaeth perthnasol
- Adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau i ganolbwyntio ar ba gamau y mae angen inni eu blaenoriaethu, i ddatblygu ein dull gweithredu ymhellach

Amcan ymyrryd yn gynnar ac atal y Strategaeth

Mae'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ymrwymo i sicrhau bod ymyrryd yn gynnar ac atal yn flaenoriaeth. Er bod cefnogaeth i oroeswyr yn dal i fod yn rhan bwysig o waith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, rydym am symud y pwyslais oddi ar y symptomau a chanolbwyntio ar yr achos drwy ddull iechyd y cyhoedd. Bydd y dull gweithredu hwn yn cael effaith gymdeithasol

ehangach sy'n ei gwneud yn llai tebygol y bydd pobl yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cynnwys:

- atal cychwynnol: atal trais cyn iddo ddigwydd
- atal eilaidd: ymateb i drais i leihau niwed cymaint â phosibl, gwella gwasanaethau ac atal trais pellach
- atal trydyddol: atal atgwympo a chylchoedd trais sy'n pontio cenedlaethau

Byddwn yn torri'r cylch ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy fynd i'r afael â thrais gan ddynion, a'r casineb at fenywod a'r anghydraddoldeb rhywiol sy'n sail iddo. Rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiadau'r rhai sy'n ymddwyn yn gamdriniol. Ni ddylai fod angen i fenywod newid eu hymddygiad. Camdrinwyr ddylai fod yn newid eu hymddygiad nhw.

Dulliau iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd ac anghenion gwahanol grwpiau o fenywod, gan gynnwys pobl LHDTG+, pobl ethnig leiafrifol, a phobl ifanc a hŷn sydd mewn perygl o drais yn y cartref ac mewn mannau cyhoeddus

Fel y nodir uchod, mae strwythur y Glasbrint wedi'i gynllunio i gefnogi dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â'r materion hyn drwy ddull cydweithredol sy'n cynnwys cyrff statudol sydd wedi'u datganoli a chyrff statudol sydd heb eu datganoli, partneriaid trydydd sector a goroeswyr. Mae'r ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag aflonyddu mewn mannau cyhoeddus ac yn y gweithle yn ehangu ein ffocws y tu hwnt i'r lleoliad domestig a oedd yn sail i'n dull gweithredu cyn yr ail fersiwn hon o'r Strategaeth. Mae'r ffrwd waith sy'n ymwneud â chyflawni trais yn darparu'r asgwrn cefn ar gyfer ein ffocws ar atal ac mae'r ffrydiau gwaith ar blant a phobl ifanc a phobl hŷn yn darparu ffocws ar gyfer datblygu polisi cydweithredol rhwng rhanddeiliaid gan ein galluogi i fynd i'r afael â'r materion hyn yn uniongyrchol.

Yn naturiol, mae pob rhan o'r Glasbrint yn gweithio i gyflawni'r Strategaeth sy'n nodi edau aur dull iechyd y cyhoedd, gwaith ataliol a chydnabyddiaeth o effeithiau croestoriadol ar y tebygolrwydd o brofi trais ar sail rhywedd yn ogystal â'r anghenion cymorth unigryw sy'n adlewyrchu'r nodweddion hyn.

Mae llawer nad ydym yn ei wybod o hyd am effeithiolrwydd dulliau iechyd y cyhoedd o fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd. Er hynny, mae ein dull strategol wedi'i adeiladu ar y dystiolaeth o effeithiolrwydd sydd ar gael ac mewn partneriaeth â chyrff fel Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd wedi dod ag arbenigedd a dealltwriaeth academaidd i'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth. Mae partneriaeth y Glasbrint yn ein galluogi i ddysgu gyda'n gilydd wrth inni ddatblygu ein dull iechyd y cyhoedd a bydd creu'r storfa wybodaeth ganolog yn rhoi ffocws ar gyfer datblygu tystiolaeth a gwerthuso.

Fel y nodwyd uchod, mae'r Glasbrint wedi datblygu a chyhoeddi [Cynllun Lefel Uchel](#) sy'n nodi'r camau y bydd grwpiau yn mynd ar eu trywydd. Dywed y Cynllun;

“Bydd mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd ar gyfer ein gwaith yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau pwysig. Yr egwyddorion sylfaenol sy’n llywio ein hymdrechion ar y cyd yw:

1. Herio agweddau'r cyhoedd
2. Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant
3. Mwy o atebolrwydd gan y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin
4. Blaenoriaethu a chanolbwyntio ar atal
5. Gweithlu hyderus a gwybodus
6. Darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch sy'n ystyriol o drawma ac yn cael eu harwain gan anghenion.”

Rôl y sector cyhoeddus a gwasanaethau arbenigol

Mae'r Glasbrint wedi dod â'r ystod lawn o wasanaethau sector cyhoeddus ac arbenigol ynghyd i gyflawni ein Strategaeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol yn cael ei gydgadeirio gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys. Mae aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr yr Heddlu yn ogystal ag aelodau o asiantaethau arbenigol fel New Pathways, Cymorth i Ferched Cymru a Chymru Ddiogelach; Cyrff statudol fel Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF; Partïon eraill sydd â diddordeb fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru, y Gyngres Undebau Llafur ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â'r Comisiynwyr Plant, Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig.

Yn amlwg, mae gwaith y Glasbrint yn adeiladu ar ystod o fesurau sydd eisoes ar y gweill i gefnogi goroeswyr a mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy gyllid, codi ymwybyddiaeth ac addysg.

Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido sefydliadau arbenigol yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn eu plith mae BAWSO, sefydliad blaenllaw yng Nghymru sy'n cefnogi goroeswyr anffurfio organau cenhedlu benywod, priodas dan orfod a cham-drin ar sail anrhydedd. Mae BAWSO, sy'n gweithio gyda chymunedau, yn defnyddio ymyriadau penodol ac yn darparu gwasanaethau allgymorth a gwasanaethau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o effaith cam-drin a thrais gyda'r nod o'u hatal cyn iddynt ddigwydd.

Mae codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch a chydysyniad yn hanfodol os ydym am roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym am sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad at ddysgu o ansawdd uchel sy'n briodol i'w datblygiad ac sy'n ymateb i'w hanghenion a'u profiadau.

Mae'n orfodol i bob dysgwr gael gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n un o ofynion statudol Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl bwysig i'w chwarae wrth greu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n cefnogi

hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau cadarnhaol, iach a diogel drwy gydol eu bywydau.

Cafodd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei chyflwyno mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022 ymlaen.

Ym mis Medi 2020, cafodd adnoddau ar gyfer athrawon eu datblygu a'u dosbarthu drwy rwydwaith Hwb i godi ymwybyddiaeth o anffurfio organau cenhedlu benywod a'r arwyddion y gallai merch ifanc fod yn wynebu risg o'r fath.

Ym mis Hydref 2020, dyfarnwyd contract hyfforddiant codi ymwybyddiaeth i Karma Nirvana, gwasanaeth arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin ar sail anrhydedd, i ddarparu 20 o 'sioeau teithiol' rhithwir am ddim i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yng Nghymru i feithrin eu hyder wrth herio achosion o gam-drin ar sail anrhydedd a phriodasau dan orfod.

Rydym yn parhau i gyllido prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n hyrwyddo pwysigrwydd perthnasoedd iach ac yn codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Sbectrwm hefyd yn darparu hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ysgolion ar ddeall effaith cam-drin domestig ar blentyn ac yn hyrwyddo dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Mae 'Rhaglen Lywodraethu 2021-2026' Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ehangu ymgyrch hyfforddi ac ymwybyddiaeth 'Paid Cadw'n Dawel'. Mae swyddogion wrthi'n cwmpasu ac yn datblygu menter hyfforddiant ymyriadau Cymru gyfan ar gyfer y rhai sy'n dyst i drais a cham-drin a gaiff ei chyflwyno i ddinasyddion Cymru. Bydd y fenter hon yn cynnig hyfforddiant i'r cyhoedd sy'n hyrwyddo rhaglen ymyriadau rhag-gymdeithasol ar sail gwybodaeth i'r rhai sy'n dyst i drais a cham-drin a gaiff ei ddarparu ochr yn ochr â'n hymgyrchoedd cyfathrebu sefydledig presennol yn y maes hwn. Nod hyn yw creu newidiadau gwirioneddol a pharhaol i agweddau cymdeithasol tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd y fenter hyfforddi hon yn adnodd allweddol o ran ein hymrwymiad i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac ymyrryd yn gynnar. Bydd yn mynd ati i ddatblygu sgiliau unigolion er mwyn galluogi'r rhai sy'n dyst i'r math hwn o drais a cham-drin i ymgysylltu'n ddiogel er mwyn ei atal neu ymateb iddo a bydd yn cefnogi ein nod o newid agweddau. Bydd hyn yn creu diwylliant newydd ac yn hyrwyddo annerbynioldeb pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhellach.

Mae lleisiau goroeswyr yn hanfodol i'n gwaith a rhaid iddynt gael eu clywed ar y lefel uchaf er mwyn inni fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithiol. Dyma pam rydym yn cynnig y bydd Fframwaith Ymgysylltu â Goroeswyr a llif gwaith dynodedig yn rhan o'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth ar ei newydd wedd.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf effeithiol a diogel o ymgysylltu â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn fwyaf diweddar, cynhaliwyd prosiect ymchwil

dynodedig ar y rhwystrau sy'n atal pobl o gymunedau amrywiol rhag ymgysylltu â'r Llywodraeth. Caiff canfyddiadau ynglŷn â phob agwedd ar yr ymchwil eu hystyried mewn unrhyw waith a wneir gyda dioddefwyr a goroeswyr yn y dyfodol.

Cyllid trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido rhanbarthau a gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i ddarparu cymorth amhrisiadwy sy'n achub bywydau i holl dioddefwyr y math hwn o drais a cham-drin. Mae'r cymorth hwnnw'n cynnwys ymyriadau, cymorth ataliol ac addysgol, rhaglenni ymyriadau i gyflawnwyr, Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol ar gyfer dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel yn ogystal ag ymyriadau adfer therapiwtig i roi cymorth parhaus i'r rhai y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi effeithio arnynt.

Addysg a'r Cwricwlwm

Mae canllawiau helaeth ar gael er mwyn helpu lleoliadau addysg i atal aflonyddu'n rhywiol ar blant a'u cam-drin yn rhywiol, ac ymateb i hynny, gan gynnwys ein canllawiau statudol, [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#). Yn ogystal, mae gennym sawl llinell gymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi'u sefydlu yng Nghymru, yn benodol Childline Cymru, Byw Heb Ofn a'r gwasanaeth MEIC.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn un o ofynion statudol Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n chwarae rôl gadarnhaol a gwarchodol yn addysg dysgwyr.

Bwriad Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw helpu plant i ddatblygu perthnasoedd ac ymddygiadau iach gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd, yn seiliedig ar garedigrwydd, empathi a pharch. Mae hyn yn bwysig iddyn nhw ddatblygu fel 'unigolion iach, hyderus' gyda llesiant cymdeithasol, emosiynol a meddyliol cadarnhaol.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd wedi'i bwriadu i gadw plant yn ddiogel ac i ddiogelu eu llesiant. Mae hyn yn hanfodol wrth i dechnoleg a chymdeithas barhau i newid yn gyflym. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn helpu plant i adnabod perthnasoedd a sefyllfaoedd a allai eu rhoi mewn perygl o niwed. Gall gefnogi pob plentyn gyda'r hyn y mae angen iddynt ei wybod a beth i'w wneud i gadw'n ddiogel a sut i ofyn am help.

Yn ogystal â gofynion y Cwricwlwm, rydym hefyd yn datblygu canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg ynghylch sut i sicrhau bod eu hamgylchedd a'u diwylliant yn rhydd rhag syniadau niweidiol a chul ynghylch rolau rhywedd. Bydd y canllawiau hyn yn nodi dull lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u grymuso i herio ymddygiadau annerbyniol. Bydd yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc yn wynebu gwahaniaethu ar sail rhywedd neu rhywioldeb. Bydd y dull lleoliad cyfan hwn yn cwmpasu ystod eang o leoliadau, gan gynnwys lleoliadau cynradd ac uwchradd, lleoliadau Anghenion Addysgol Arbennig a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Gwyddom nad yw aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion wedi'i gyfyngu i ysgolion uwchradd ac mae deall sut y caiff hyn ei brofi ar wahanol

oedrannau yn bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb gydag ymyriadau priodol ac wedi'u teilwra.

Canfu adolygiad gan Estyn ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion uwchradd bod y math hwn o aflonyddu rhywiol yn fwy cyffredin ar-lein a thu allan i'r ysgol nag yn yr ysgol. Drwy adran [Cadw'n ddiogel ar-lein](#) Hwb, rydym wedi datblygu adnoddau i arfogi ymarferwyr i addysgu dysgwyr am y mater hwn a'u cefnogi gydag ef. Yn dilyn cyhoeddi canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg i'w helpu i ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, cyhoeddwyd [modiwl hyfforddiant](#) byr i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r canllawiau hyn. Rydym yn annog uwch-arweinwyr ym mhob ysgol i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Rydym hefyd yn sefydlu panel cynghori plant a phobl ifanc ar gyfer cadernid digidol. Gwahoddir aelodau panel i rannu eu profiadau ar-lein a rhoi eu barn a'u syniadau a fydd yn llywio cyfeiriad ein gwaith a bydd yr holl negeseuon/cynnwys gweledol yn cael eu profi gyda phlant a phobl ifanc. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys yr Heddlu i ddatblygu cynllun gweithredu amlasiantaethol er mwyn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn eu cymryd i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r cynllun gweithredu yn ystod tymor yr hydref.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i rymuso plant a phobl ifanc i lywio ein gwaith, a rhaid i'w lleisiau a'u profiadau byw fod yn rhan annatod o bopeth a wnawn. Bydd hyn wrth wraidd ein holl waith yn y maes hwn.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Mae'r [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#) yn nodi 33 o gamau gweithredu i Lywodraeth Cymru a phartneriaid y Byrddau Diogelu yn erbyn deg amcan allweddol. Nod yr amcanion hyn yw atal cam-drin plant yn rhywiol, diogelu plant sy'n wynebu'r risg o gael eu camfanteisio arnynt yn rhywiol a chefnogi adferiad plant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu ar gam-drin plant yn rhywiol, camfanteisio ar blant yn rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol.

Mae gan y Byrddau Diogelu gyfrifoldebau statudol i hyrwyddo adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr ar adnabod achosion o gamfanteisio ar blant yn rhywiol, ac ymateb iddynt.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn newid y sector gwasanaethau cymdeithasol ac yn cynnwys newidiadau fel a ganlyn sy'n sicrhau bod:

- Gan bobl reolaeth ar y math o gymorth y mae'i angen arnynt
- Asesiad cymesur newydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mynediad rhwydd at wybodaeth a chyngor ar gael i bawb
- Pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach

- Dull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio
- Awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod ynghyd mewn partneriaethau statudol newydd i sbarduno camau i integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau

Yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae Llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus â'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud. Mae hyn yn golygu cael eich diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae'r Ddeddf hefyd wedi rhoi mwy o bwerau i sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn gryfach a bydd bwrdd diogelu annibynnol cenedlaethol. Os oes achos i amau bod oedolyn neu blentyn mewn perygl, RHAIID adrodd hyn i'r awdurdod lleol.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u sefydlu fel rhan o'r [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant](#) i:

- wella Llesiant y boblogaeth
- gwella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu

Rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:

- lunio asesiadau poblogaeth rhanbarthol
- llunio cynllun ardal rhanbarthol
- darparu adroddiad blynyddol rhanbarthol
- dangos ymgysylltiad â dinasyddion a chydgyngyrchu

Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - Ymchwiliad i ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd

Tystiolaeth Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Sut mae gwaith i atal trais ar sail rhywedd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm newydd, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r cymorth i athrawon ac ati.

Mae datblygu proffesiwn addysg o ansawdd a gefnogir gan gyfleoedd dysgu proffesiynol yn ganolog i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, ac yn un o amcanion 'Cenhadaeth ein cenedl: Safonau a dyheadau uchel i bawb'.

Mae strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd a'r canllawiau statudol, ac yn sail i hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau boddhaol, iach a diogel drwy gydol eu bywyd.

Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r dysgu gorfodol o fewn y Cod ACRh yn cynnwys, o 11 oed: *'Adnabod ymddygiad niweidiol, camdriniol neu orfodol mewn cydberthnasau personol, gan gynnwys rheoli, trais a thrais rhywiol a sut i ymateb a gofyn am gymorth i chi'ch hun a phobl eraill.'* Yn benodol, mae'r Cod ACRh yn ei gwneud yn ofynnol dysgu am drais ar sail rhyw a rhywedd, gan gydnabod y gall trais fod yn seiliedig ar rywedd, ac mae'n cyfeirio'n benodol at "*drais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn ystod o gyd-destunau*".

Mae'r canllawiau ACRh statudol yn nodi'n glir y dylai'r dull o ddarparu ACRh fod yn gadarnhaol, gyda'r nod o ddiogelu unigolion ac atal achosion o drais a cham-drin, gan ystyried sut y gallai fod angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i *'feddu ar yr wybodaeth i adnabod pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.'* Datblygwyd [pecyn cymorth o adnoddau Llywodraeth Cymru ar drais a cham-drin](#) i gefnogi ysgolion a lleoliadau i ymdrin â'r mater pwysig hwn, ac fe'i cyhoeddwyd fel rhan o ganllawiau statudol ACRh.

Cynllun Gweithredu Aflonyddu Rhywiol gan Gyfoedion

Rydym yn gweithio hefyd gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys yr heddlu, er mwyn datblygu cynllun gweithredu amlasiantaethol. Bydd y cynllun gweithredu yn amlinellu'r camau sydd i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gyfoedion mewn lleoliadau addysg. Bydd y camau yn adlewyrchu gwahanol brofiadau o aflonyddu rhywiol ac anghenion gwahanol grwpiau, er enghraifft effaith nodweddiol fel rhywioldeb, hunaniaeth o ran rhywedd, hil, anabledd ac ethnigrwydd, yn ogystal â heriau elfennau croestoriadol.

Un o brif elfennau'r cynllun gweithredu fydd dysgu proffesiynol. Mae'n bwysig bod holl staff a llywodraethwyr lleoliadau addysg yn wybodus am effaith aflonyddu rhywiol gan gyfoedion, yn gallu adnabod ymddygiad annerbyniol, ac yn hyderus i'w herio ac i fodelu ymddygiad priodol.

Rydym wedi comisiynu amrywiol bartneriaid ac arbenigwyr allanol i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol er mwyn helpu ymarferwyr i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd. Mae gwaith yn parhau mewn amrywiaeth o feysydd blaenoriaeth eraill, gan gynnwys addysg cydberthynas a rhywioldeb, hawliau plant, a chrefydd, gwerthoedd a moeseg. Mae'r holl adnoddau dysgu proffesiynol newydd ar gael trwy [Hwb](#).

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol (adran 3(1)).

Cyhoeddwyd y strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2022-26 ym mis Mai 2022 yn dilyn ymgynghoriad â'r sector ac unigolion sydd wedi goroesi trais a cham-drin. Mae chwe amcan o fewn y strategaeth:

1. Herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus, gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.
3. Cynyddu'r ffocws ar ddwyn y rhai sy'n cam-drin i gyfrif a chefnogi'r rhai a all ymddwyn yn gamdriniol neu'n dreisgar i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.
4. Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.
5. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.
6. Rhoi mynediad cyfartal i bob dioddefwr at wasanaethau, a'r rheini'n wasanaethau croestoriadol o ansawdd uchel, y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, ac sy'n ymatebol ledled Cymru.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn allweddol i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys:

- Cryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref.
- Ehangu'r ymgyrchoedd hyfforddi ac ymwybyddiaeth 'Gofyn a Gweithredu' a 'Paid Cadw'n Dawel'.
- Sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

Mae atal trais a cham-drin yn greiddiol i'r strategaeth. Er bod cefnogi goroeswyr a gwneud newidiadau i'r system er mwyn gwella canlyniadau i oroeswyr yn dal i fod yn amcanion allweddol yng Nghymru, rydym hefyd yn symud y pwyslais oddi ar y symptomau i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n achosi'r broblem drwy ddull gweithredu ar sail iechyd y cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu y bydd goroeswyr yn disgwyl dim llai oddi wrthym. Yn hytrach, byddwn yn esblygu effaith yr hyn a wnawn i sicrhau bod goroeswyr fel unigolion yn cael eu cefnogi'n holistaidd. Byddwn yn gweithredu ar draws y system ac ym mhob rhan o gymdeithas i helpu i leihau'r tebygolrwydd o brofi trais a cham-drin yn y lle cyntaf.

Caiff y strategaeth ei rhoi ar waith drwy ddull Glasbrint sy'n dod â sefydliadau datganoledig ac annatganoledig at ei gilydd. Y tîm Trais a Cham-drin sy'n arwain y gwaith ar ran Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru, ond er mwyn bod yn llwyddiant, mae angen cydweithio ag adrannau eraill, gan gynnwys addysg, iechyd, tai a throsedd. Mae mabwysiadu'r dull Glasbrint hwn wedi ei gwneud yn bosibl sefydlu strwythur llywodraethiant newydd a rennir sy'n adlewyrchu'r gyd-berchnogaeth ar y flaenoriaeth gyffredin hon, sef mynd i'r afael â thrais a cham-drin. Bydd mabwysiadu dull gweithredu ar sail iechyd y cyhoedd yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y pethau pwysig. Yr egwyddorion sylfaenol sy'n llywio ein hymdrechion ar y cyd yw:

- herio agweddau'r cyhoedd
- cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith plant
- mwy o atebolrwydd gan y rhai sy'n cyflawni trais a cham-drin
- blaenoriaethu a chanolbwyntio ar atal trais a cham-drin
- gweithlu hyderus a gwybodus
- darparu gwasanaethau cynhwysol a hygyrch sy'n ystyriol o drawma ac yn cael eu harwain gan anghenion.

Bydd ffrydiau gwaith y Glasbrint yn cyflawni'r amcanion a nodir yn Strategaeth Genedlaethol Trais a Cham-drin, yn ogystal â nodi blaenoriaethau eraill wrth ystyried tystiolaeth/gwersi ehangach sy'n berthnasol i'r agenda, sy'n gorfod bod yn gydnaws â Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol. Gall y Ffrydiau Gwaith hyn newid dros amser wrth i gynnydd gael ei wneud ac wrth i flaenoriaethau ddatblygu. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, bydd y rhain yn mynd i'r afael ag:

- aflonyddu ar sail rhywedd mewn mannau cyhoeddus
- aflonyddu yn y gweithle
- mynd i'r afael â chyflawni trais
- gweithredu ar draws y system wrth sicrhau cynaliadwyedd
- anghenion pobl hŷn
- anghenion plant a phobl ifanc

Cynnydd a wnaed i weithredu Rhaglen Glasbrint Trais a Cham-drin hyd at 31 Mawrth 2023

- Sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol
- Sefydlu Bwrdd y Rhaglen Genedlaethol
- Sefydlu chwe ffrwd waith
- Dechrau recriwtio panel Craffu a Chynnwys Llais Goroeswyr
- Recriwtio tîm gweithredu Rhaglen y Glasbrint a ariennir ar y cyd
- [Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Lefel Uchel y Glasbrint](#)

Camau allweddol i ategu'r rhaglen waith

- Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Dangosyddion Cenedlaethol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r strategaeth hon, a bod modd eu defnyddio i fesur ein cynnydd o ran ein nodau a'n hamcanion, a sefydlu patrwm o adrodd ar gynnydd yn erbyn y Dangosyddion Cenedlaethol.
- Datblygu model Damcaniaeth Newid a fydd yn egluro blaenoriaethau, gweithgareddau a chanlyniadau Rhaglen y Glasbrint.
- Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn parhau i gydweithio wrth weithredu'r Strategaeth hon, gan gynnwys yr holl randdeiliaid a'r defnyddwyr gwasanaethau perthnasol.
- Adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau i ganolbwyntio ar ba gamau y mae angen inni eu blaenoriaethu i ddatblygu ein dull gweithredu ymhellach.

Byddwn yn torri'r cylch ac yn dod i waelod achosion sylfaenol trais a cham-drin drwy fynd i'r afael â thrais gan ddynion, a'r casineb at fenywod a'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau sy'n sail iddo. Rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiad y rhai sy'n ymddwyn mewn modd camdriniol. Nid mater o ofyn i fenywod newid eu hymddygiad nhw yw hyn. Camdrinwyr yw'r rhai y mae angen iddynt newid eu hymddygiad.

Ein cyf/Our ref: MA/JH-/1229/23

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

06 July 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 14 Mehefin, ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, *60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion Lleferydd, iaith a Chyfathrebu yn y System Cyfiawnder Ieuencid.*

Diolch am roi adborth manwl ar ein hymateb cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mehefin.

O ran argymhelliad 1, gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Yn ogystal â'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Atal Troseddu ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid, a nodwyd yn fy ymateb blaenorol, bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Castell-nedd Port Talbot, i edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant, a'r cysylltiad rhwng hynny a'r rhan fwyaf o blant y mae'r system cyfiawnder ieuencid yn ymwneud â nhw. Bydd yr uwchgynhadledd hon hefyd yn ystyried y pwynt a wnaed gan Jane Dodds yn nhrefodaeth y Senedd ar 28 Mehefin, o ran sut mae Castell-nedd Port Talbot wedi gallu ymgorffori darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eu gwasanaeth, yng ngoleuni'r heriau staffio ehangach yn y sector. Bydd canfyddiadau a chanlyniadau'r uwchgynhadledd hon yn cael eu rhannu â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, ac yn ôl yr hyn a ddeallwn, dyma fwrriad yr argymhelliad.

O ran argymhelliad 2, mae sgiliau iaith yn rhan hanfodol o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r sgiliau hyn wedi'u plethu drwy'r holl Ddatganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Mae'r Disgrifiadau Dysgu ar Gam Cynnydd 3, sy'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymwneud â dysgwyr 8-11 oed yn fras, yn cynnwys canllawiau manwl ar gyfer cynnydd fel bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i ddatblygu ei sgiliau iaith lafar a chyfathrebu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cyflwyniad - Hwb \(gov.wales\)](#)

O ran argymhelliad 3, nid oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch yr angen am gyllid ar gyfer mwy o therapyddion lleferydd ac iaith, nac i ariannu lleoedd addysg yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r lleoedd addysg hyn a'r broses o gyflogi therapyddion lleferydd ac iaith yn digwydd drwy'r GIG, ac mae iechyd (gan gynnwys cyfrifoldebau cyllido) wedi'i ddatganoli. Mae gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru gontractau gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer addysg a darpariaeth hyfforddiant, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith. Mae'r niferoedd hyn yn seiliedig ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau Iechyd ac asesiadau o'u gofynion i ddiwallu anghenion eu poblogaeth gyfan.

Un o'r ffactorau sy'n cyfyngu ar y gallu i gynyddu'n sylweddol nifer y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yw capasiti gwasanaethau presennol a gweithwyr proffesiynol i fodloni'r gofyniad i fyfyrwyr ymgymryd ag addysg seiliedig ar ymarfer mewn gwasanaethau iechyd a gofal, dan oruchwyliaeth therapydd lleferydd ac iaith cofrestredig, er mwyn cwblhau gofynion eu cwrs.

O ran argymhelliad 4, trefnwyd cyfarfod cychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer 29 Mehefin 2023 i drafod eiriolaeth annibynnol i bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn y system cyfiawnder ieuencid, gyda'r bwriad o amlinellu'r dull llawn o ymdrin â'r argymhelliad hwn. Bydd natur a chwmpas adnoddau ychwanegol yn cael eu llywio drwy drafod a dadansoddi gyda'n partneriaid ar draws y system Cyfiawnder Ieuencid. Rydym yn cyd-fynd â chasgliad y Pwyllgor y dylid sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi gan eiriolwr priodol.

O ran argymhelliad 5, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan uniongyrchol o'r gwaith o edrych ar ganlyniadau'r Adroddiad Cyd-Arolygu. Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad. Rydym yn darparu rhaglen gwella gwasanaethau niwrowahaniaeth yng Nghymru, gan gefnogi datblygiad timau amlddisgyblaethol sy'n darparu gwasanaethau asesu a chymorth i blant a phobl ifanc ar sail yr angen. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, lle bo angen, bod gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gael. Mae gan y rhaglen grŵp cynghori clinigol hefyd a all roi cyngor arbenigol ar ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu pobl niwrowahanol.

O ran argymhelliad 6, mae nifer y lleoedd addysg a hyfforddiant a gomisiynir ar gyfer therapyddion lleferydd ac iaith, fel ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, yn seiliedig ar Gynlluniau Tymor Canolig Integredig y GIG o safbwynt y gweithlu, ynghyd ag ystyriaeth o'r sector iechyd a gofal ehangach, er enghraifft, yn achos therapyddion lleferydd ac iaith mewn perthynas â Dechrau'n Deg. Caiff y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig eu cyflwyno i Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am y broses flynyddol o gomisiynu addysg a hyfforddiant yng Nghymru, i fynd i'r afael â gofynion y gweithlu ar ran GIG Cymru. Mae 'cyd-fynd â'r galw am y gwasanaeth' yn cyfeirio at y broses bresennol i nodi'r galw am therapyddion lleferydd ac iaith mewn gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru.

O ran argymhelliad 7, un cam yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, a fydd wedi'i gwblhau erbyn Gorffennaf 2023, yw y "bydd AaGIC yn adolygu'r holl broffesiynau perthynol i iechyd i ddeall y sefyllfa bresennol a'r anghenion ar gyfer y dyfodol o ran cyflenwi ein gwasanaethau, gan arwain at gynllun ar gyfer cadw gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd". Rhoddir gwybod am y cynnydd ar y cam hwn i Fwrdd Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar y Gweithlu, dan gadeiryddiaeth Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun cadw gweithwyr ar y trywydd iawn,

ond mae angen gwneud gwaith paratoi, fel casglu data, fel cam cyntaf cyn cynnal adolygiad llawn.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon wedi rhoi eglurder ar ein hymateb gwreiddiol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first name.

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

14 Mehefin 2023

Annwyl Jane

Adroddiad y Pwyllgor: 60% - Rhoi llais iddyn nhw - Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ynghylch anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid, a drafodwyd yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin 2023.

Roeddem yn falch o weld eich bod yn rhannu ein huchelgais i wella canlyniadau i bobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, roeddem yn siomedig ynghylch y diffyg camau manwl y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, ac felly byddem yn croesawu rhagor o eglurder mewn perthynas â'r pwyntiau a ganlyn:

- Roedd argymhelliad 1 yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnull uwchgynhadledd o randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y sector gyda'r nod o ffurfio ffrwd waith newydd gan edrych yn benodol ar effaith anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ar blant a phobl ifanc a'r cysylltiad â'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw'r ymateb yn ymrwymo i gynnull uwchgynhadledd ac yn hytrach mae'n nodi'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo. A allech egluro a fydd uwchgynhadledd yn cael ei chynnal? Os na fydd, dylid newid yr ymateb i "Gwrthod" er mwyn bod yn fwy tryloyw.
- Roedd argymhelliad 2 yn cyfeirio'n benodol at "[b]obl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd", ond mae eich ymateb yn cyfeirio at y cynllun "Siarad

gyda Fi", sydd wedi'i dargedu at blant 0-5 oed. A fyddech cystal â nodi sut y bydd anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a phobl ifanc 10+ oed yn cael eu diwallu.

- Mae'r ymateb yn cydnabod y manteision sy'n deillio o argymhelliad 3, ond mae'n nodi nad oes digon o Therapyddion Lleferydd ac iaith yn cael eu cyflogi gan y GIG ar hyn o bryd i ddiwallu'r llwyth gwaith ychwanegol. A allech gadarnhau a allai Adrannau Gweinidogol eraill, fel Cyfiawnder Cymdeithasol, gomisiynu lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac iaith? Pa drafodaethau, os o gwbl, a gafwyd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch yr angen am gyllid ar gyfer rhagor o therapyddion lleferydd ac iaith, o gofio nad yw cyfiawnder ieuencid yn wasanaeth datganoledig ar hyn o bryd?
- A allech egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi *adnoddau ychwanegol i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth (pwyslais wedi'i ychwanegu)* ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuencid fel y nodir yn argymhelliad 4? Mae'r ymateb yn derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond yn cyfeirio at waith presennol yn unig.
- Nid yw'n glir o'r ymateb i argymhelliad 5 a oes unrhyw gamau penodol yn cael eu cymryd neu a oes unrhyw wersi wedi'u dysgu o ganlyniad i'r Adroddiad Cyd-Arolygu i wella'r cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. A fyddech cystal â darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r pwynt hwn?
- Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gref i gefnogi argymhelliad 6, ac er bod y manteision yn cael eu cydnabod, mae'r ymateb yn nodi y byddai hyn "yn gofyn am leoedd hyfforddi ychwanegol ac am greu swyddi". Ymddengys bod hyn yn gwrth-ddweud y wybodaeth a ddarparwyd mewn manau eraill, er enghraifft yn yr ymateb i argymhelliad 7, sy'n dweud, o ran nifer y lleoedd hyffordd i Therapyddion Lleferydd ac iaith yng Nghymru, mai "49 yw'r nifer o hyd ar gyfer 2023/24, i gyd-fynd â'r galw am y gwasanaeth".
- Mae'r ymateb i argymhelliad 7 yn cyfeirio at gynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu. Fodd bynnag, dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith y gwrthodwyd cynllun gweithlu ar gyfer proffesiynau perthynol i iechyd. A fyddech cystal â chadarnhau a yw hyn yn wir.

Yn olaf, hoffem roi rhagor o bwyslais ar argymhellion 3 a 6, yr ydym yn eu hystyried yn gasgliadau allweddol i'n hymchwiliad. Mae'r argymhellion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth bod y dull gweithredu'n gweithio ac yn cadw pobl allan o'r system droseddu, ac maent yn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau y mae'r ffigurau yn ein hadroddiad yn dangos tystiolaeth ohonynt.

Mae dadl wedi'i threfnu ar gyfer 28 Mehefin, ac er bod yr amserlenni'n dynn, byddem yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallech ymateb cyn y ddadl er mwyn llywio cyfraniadau'r Aelodau os yw'n bosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light-colored background. The signature reads "Jenny Rathbone" in a cursive, flowing script.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Jenny Rathbone MS
Chair, Equality and Social Justice Committee
Welsh Parliament
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

MoJ ref: ADR106996

17th July 2023

Dear Ms Rathbone,

Welsh youth justice system: speech, language and communication needs

Thank you for your email of 3 July, highlighting the overrepresentation of children and young people with speech, language and communication needs (SLCN) in the justice system.

The disproportionality of individuals with SLCN in the justice system is an issue that needs our collective attention. Research has consistently demonstrated that a significant number of young people involved in the criminal justice system experience these difficulties. The impact of these challenges can be profound, hindering their ability to effectively engage with the legal process, understand instructions, and communicate their thoughts and experiences. Such barriers exacerbate existing inequalities and undermine the principles of fairness in the justice system.

Recognising the importance of early intervention and support, the government is committed to addressing the needs of children and young people with SLCN. I note recommendation 3 in the Committee's report and will be interested to hear what comes out of the feasibility assessment looking at whether every police station could have an embedded NHS speech and language therapist (SLTs) in Wales. The National Health Service Liaison and Diversion (L and D) services also play a crucial role in identifying individuals with such needs and ensuring they receive appropriate support, and we are waiting to hear the findings of the evaluation looking at how these services are working for children across the country. An appropriate adult should also be in attendance whenever a child is in custody. Part of their role it is to protect the interests of the child and they should be aware of and able to support any learning and communication difficulties.

On recommendation 5, The Ministry of Justice published a six-month update to the Cross-Government Neurodiversity Action Plan on 25 January 2023. The update demonstrates the wide range of work that is in train to improve support for neurodivergent people in the criminal justice system. Most notably, we have introduced the Neurodiversity Support Manager (NSM) role in prisons. Over 100 NSM's have already been recruited and we are on track to have an NSM in all prisons in England and Wales by 2024. MoJ and HMPPS are also actively championing Autism Accreditation across the prison estate to make the prison environment more supportive for neurodivergent people. New neurodiversity specialist services


have been introduced in four probation regions, providing one-to-one interventions for people on probation and upskilling for probation practitioners to identify neurodivergent conditions. The MoJ is also working closely with health and justice partners, such as the police and the judicial college, to ensure that each stage of the offender journey considers neurodivergent need, including resettlement back into the community after serving their sentence. We are proactively working with Welsh Government colleagues to share best practice and identify further opportunities for engagement. We will publish a further update to the action plan this summer.

I also note recommendation 6 from the report regarding plans for embedding speech and language therapists within every Youth Offending Team in Wales by December 2023 and would be keen to hear more about progress on this. In England, the localised nature of service provision means that some Youth Offending Teams will have SLTs embedded in their service whilst others have outreach agreements with their community therapy teams. The Ministry of Justice-led Turnaround Programme has provided additional funding to Youth Offending Teams who can use the funding for local provision to support children, including commissioning or expanding the provision of SLT within the YOT setting, where appropriate.

To effectively tackle this issue, it is essential to foster partnership working between key stakeholders in both the UK and Welsh Governments. Collaborative efforts between these partners can facilitate the provision of SLTs to enable timely assessment, intervention and support to those who require it. We value the partnership between the Ministry of Justice, the Welsh government, and other relevant bodies, and we are committed to working together to ensure the provision of necessary resources for services.

By prioritising early intervention, strengthening liaison and diversion services, and fostering partnership working at local and national level, we can create a more inclusive and supportive justice system that empowers children and young people to reach their full potential.

Thank you again for raising this issue and I look forward to continued collaboration in this important area.



Lord Bellamy KC

Yr Arglwydd Bellamy CB
Yr Is-ystrifennydd Gwladol Seneddol
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

3 Gorffennaf 2023

Annwyl Arglwydd Bellamy

**Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: 60% – Rhoi llais iddyn nhw:
Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid**

Diolch am eich ymateb i'n llythyr ynghylch ein hymchwiliad i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a nodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 19 Mehefin 2023.

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi adroddiad arall, sy'n ystyried profiadau pobl sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae copi wedi'i atodi er gwybodaeth. Mae gan o leiaf 60 y cant o'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid – ac yn fwy tebygol, 80 y cant ohonynt – anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, o gymharu â thua 10 y cant o blant a phobl ifanc yn gyffredinol. Yn anffodus, mae gormod o bobl ifanc sy'n wynebu'r heriau hyn yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn y pen draw, ac mae'r cymorth y maent yn ei gael yn y system honno'n dameidiog ac yn annigonol.

Mae eich llythyr dyddiedig 12 Mehefin yn nodi'r ffaith, er bod awdurdodau a gedwir yn ôl ac awdurdodau datganoledig yn cydweithio'n effeithiol er mwyn darparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, fod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ariannu'r holl wasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Byddem yn ddiolchgar, felly, am eich barn ynghylch yr egwyddor Buddsoddi i Arbed sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, ac yn benodol mewn perthynas ag Argymhellion 3 a 5.

Mae Argymhelliad 3 yn galw am leoli therapyddion lleferydd ac iaith penodedig mewn dalfeydd yng ngorsafodd heddlu ledled Cymru. Pa ystyriaeth y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ei rhoi i leoli mwy o therapyddion lleferydd ac iaith mewn dalfeydd yng ngorsafodd heddlu? O ystyried y ffaith mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fyddai'n elwa fwyaf ar y manteision a fyddai'n deillio o gadw pobl ifanc allan o garchardai, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi eich safbwynt ar y mater hwn, gan gynnwys y posibilrwydd o fwy o gydgyssylltu a chydweithio rhwng Llywodraethau.

Mewn ymateb i'r adroddiad, cadarnhaodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac iaith ei fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i fod yn rhoi arweiniad a chymorth i swyddogion ar gyfer yr offeryn sgrinio AssetPlus. Rydym o'r farn bod y cydweithio hwn yn hollbwysig. Nododd y Coleg Brenhinol hefyd fod hyfforddiant ar gyfer offeryn o'r fath yn hanfodol er mwyn



sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Felly, a fyddai modd i chi nodi pa hyfforddiant a gynigir at y diben hwn? Pa gyfraniad y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ei wneud, o bosibl, er mwyn sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith yn cael rhywfaint o ymwneud â Thimau Troseddau leuencid, a hynny er mwyn ymestyn yr arfer da a welsom gan dimau Castell-nedd Port Talbot a Bae Abertawe, a oedd yn destun canmoliaeth gennym?

Rydym yn ddiolchgar i chi am ystyried ein cais, ac edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J' and 'R'.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru





Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

11 Awst 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Gorffennaf yn dilyn dadl y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar therapyddion iaith a lleferydd o fewn cyfiawnder ieuenctid, a gynhaliwyd 28 Mehefin 2023. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am ddarpariaeth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu, gan gynnwys yn y system gyfiawnder, ond rwy'n ymateb ar ran Gweinidogion Cymru o ystyried bod y mater hwn yn rhyng-gysylltu â fy mhortffolio i a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg.

Gan nad yw cyfiawnder, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, wedi'i ddatganoli ar hyn o bryd, ni fyddai'n briodol i mi ysgrifennu at fyrddau rheoli cyfiawnder ieuenctid mewn awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch eu defnydd o'r cyllid grant a gânt gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn y ddadl, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnull uwchgynhadledd yn yr hydref gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a swyddogion o adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw gwahodd Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno eu dull gweithredu ar gyfer darpariaeth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu, arddangos / rhannu arfer gorau ac archwilio dulliau gweithredu rhanbarthol. Bydd canlyniadau'r uwchgynhadledd hon yn helpu i lunio dulliau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer darparu gwasanaethau Lleferydd, iaith a Chyfathrebu mewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.

Nodaf eich cais i Lywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd eraill o gynyddu'r ddarpariaeth a lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Iaith a Lleferydd. Ar hyn o bryd rydym yn wynebu heriau sefyllfa ariannol na welsom ei thebyg o'r blaen ac mae'n rhaid ystyried pob

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfyniad yn y cyd-destun hwnnw nawr. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod hithau hefyd yn gallu nodi'r cais.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal stroke above the first letter 'J'.

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

18 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane

Cyllid ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac iaith o fewn Timau Cyfiawnder Ieuentid Cymru

Yn ystod y ddadl yng Nghyfarfod Llawn y Senedd ar 28 Mehefin 2023, gofynnodd un o Aelodau'r Pwyllgor – sef Jane Dodds AS – pam y mae rhai Timau Cyfiawnder Ieuentid awdurdodau lleol yn gallu sicrhau'n llwyddiannus bod cyllid ar gael i hyfforddi a chyflogi therapyddion lleferydd ac iaith, pan na all awdurdodau lleol eraill wneud hynny (gweler paragraffau 337 a 338 o'r Cofnod). Cafodd y Pwyllgor wybod bod Castell-nedd Port Talbot yn un awdurdod lleol sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ei dîm cyfiawnder ieuentid. Mae adroddiad y Pwyllgor yn tanlinellu'r angen i ddileu'r loteri cod post bresennol, ac felly rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gallai'r trefniadau ariannu yng Nghastell-nedd Port Talbot gael eu cyflwyno'n fwy eang, er mwyn sicrhau bod therapyddion lleferydd ac iaith yn rhan annatod o'r system cyfiawnder ieuentid mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

O ystyried pwysau'r dystiolaeth sy'n awgrymu nad yw anghenion pobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu diwallu'n ddigonol a'r diffyg adnoddau o fewn GIG Cymru i gynyddu darpariaeth a lleoedd hyfforddi ar gyfer Therapyddion Lleferydd ac iaith, byddem yn croesawu ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i ystyried ffyrdd eraill o gyflawni hyn. Dyma ofyn, felly, a allwch ymrwymo i ysgrifennu at bob awdurdod lleol a bwrdd rheoli cyfiawnder ieuentid yng Nghymru yn eu hannog i fuddsoddi yn y maes hwn, fel y gellir cyflwyno'r enghraifft hon o arfer gorau i bob awdurdod lleol yng Nghymru?

Diolch yn fawr am ein helpu i sicrhau gwell cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ymwneud â Chyfiawnder Ieuentid.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Rebecca Evans AS,
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Protocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.

Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi **ymgynghori** â'r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae'n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi'r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrllon ar faterion o'r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio'n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau'r gyllideb.

Y camau nesaf

Rwy'n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a'r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Sport Wales National Centre

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

Sophia Gardens | Gerddi Sophia

Cardiff | Caerdydd

CF11 9SW

0300 3003123

www.sport.wales | www.chwaraeon.cymru

CEO | Prif Weithredwr: Brian Davies

Jenny Rathbone AS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

11.07.2023

Annwyl Gadeirydd,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Mehefin mewn perthynas ag ymchwiliad y pwyllgor i'r dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd.

Fel rydych yn gwybod efallai, nid yw Chwaraeon Cymru yn gorff rheoleiddiol ac felly mae sefydliadau fel Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol, awdurdodau lleol a chlybiau a sefydliadau unigol mewn gwell sefyllfa o ran gwneud gwahaniaeth uniongyrchol.

Sector Chwaraeon Cynhwysol

Mae eich llythyr yn nodi'n gywir bod gan chwaraeon ran bwysig i'w chwarae wrth atal trais ar sail rhywedd. Er bod ymyriadau gan wylwyr, lle maent yn ddiogel ac yn effeithiol, yn cael eu nodi fel rhai sy'n gweithredu o bosibl i newid agweddau a chredoau rhywedd negyddol, rydym yn credu bod rhaid i ni ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag achos trais ar sail rhywedd. Felly, datblygiad a chynaliadwyedd system chwaraeon gynhwysol yw prif ffocws Chwaraeon Cymru. Mae hyn yn cynnwys meithrin cyfleoedd chwaraeon diogel, cynhwysol, croesawgar a datblygiadol.

Mae amrywiaeth o ddulliau rydym yn eu defnyddio i hwyluso'r uchelgais hwn. Yn gyntaf, mae ein newidiadau diweddar i'r dull buddsoddi rydym yn ei weithredu wedi rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn chwaraeon wrth galon ein partneriaethau. Un agwedd bwysig ar hyn yw buddsoddi mewn chwaraeon lle mae merched a genethod yn cymryd rhan yn y chwaraeon hynny ac eisiau eu gwneud. Ein huchelgais yw sicrhau bod chwaraeon yn darparu ar gyfer y ddemograffeg honno ac felly'n sefydlu cyfleoedd sy'n sicrhau bod merched a genethod yn cael eu croesawu a'u cefnogi.

Gwaith Partneriaeth

Un llwybr rydym hefyd yn ei ddatblygu a all effeithio ar yr agenda o atal trais ar sail rhywedd yw ein gwaith partneriaeth. Mae ein partneriaeth barhaus â'r Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar Ferched mewn Chwaraeon, a'n buddsoddiad ynddo, wedi galluogi'r sefydliad uchel ei barch hwn yn rhyngwladol i gael ei gynnal yn y DU yn ystod yr ysgrifenyddiaeth bresennol, 2022-2026. Gweledigaeth yr IWG yw sefydlu diwylliant chwaraeon cynaliadwy sy'n seiliedig ar gydraddoldeb rhywedd ac sy'n galluogi ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad llawn gan ferched a genethod ym mhob agwedd ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae gan Chwaraeon Cymru nifer o bartneriaethau pwysig hefyd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod diogelu mewn chwaraeon yn flaenoriaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ein gwaith gyda'r NSPCC a'i Huned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon (CPSU) yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Ann Craft.

Mae gan y CPSU, sy'n rhan o'r NSPCC ac yn cael ei gyllido gan Sport England, Sport Northern Ireland, Chwaraeon Cymru, UK Sport a The Football Association, ystod o adnoddau ac ymgyrchoedd, fel eu hymgyrchoedd [Cadw eich plentyn yn ddiogel mewn chwaraeon](#) a [Listen Up, Speak Up](#). Mae'r rhain yn canolbwyntio ar rymuso oedolion i greu amgylcheddau chwaraeon diogel.

Mae Ymddiriedolaeth Ann Craft hefyd yn darparu adnoddau a chefnogaeth ar gyfer chwaraeon diogel a chynhwysol. Fel rhan o'i Hymgyrch #DiwylliantDiogelachChwaraeonDiogelach ar 12fed Mehefin, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth seminar ar-lein am ddim am Ymyriadau Gwylwyr.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad adnoddau, hyfforddiant ac arweiniad drwy gyfrwng y partneriaethau hyn.

Yn olaf, hoffem hefyd wneud y pwyllgor yn ymwybodol o gyhoeddiad diweddar dogfen gan UNESCO, '[Tackling violence against women and girls in sport: highlights](#)'. Mae'r ddogfen hon yn cynnig cyngor a her i ymarferyddion chwaraeon a llunwyr polisïau. Bydd Chwaraeon Cymru yn ystyried sut gallwn gefnogi'n uniongyrchol, a'n partneriaid, i ddefnyddio adnoddau i wella'r amgylchedd chwaraeon i ferched a genethod.

Yn Gywir,



Brian Davies

Prif Weithredwr

Chwaraeon Cymru

Brian Davies
Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
Chwaraeon Cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Brian

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, gan gynnwys ein cylch gorchwyl, ar gael ar ein [gwefan](#).

Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law hyd yma wedi amlygu pwysigrwydd annog y rhai sy'n bresennol i ymyrryd a datblygu rhaglenni ymyrryd sy'n ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny'n ddiogel ac yn effeithiol, ac sydd hefyd yn newid agweddau a chredoau negyddol am rywedd. O ystyried y gall chwaraeon fod yn faes pwysig ar gyfer y gwaith o atal trais yn erbyn menywod a merched, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'ch barn am rôl ymyriadau gan y rhai sy'n bresennol o safbwynt chwaraeon. Yn ogystal â hyn, a fydddech cystal â rhoi manylion unrhyw waith penodol sy'n cael ei wneud i helpu i godi proffil y mater pwysig hwn ac i annog pobl i ymwneud mwy ag ef yn fwy cyffredinol, a hynny ar bob lefel yn y byd chwaraeon, gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo ym maes llywodraethu.

Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu cynnig mewn perthynas â'n cylch gorchwyl, sydd i'w weld ar ein gwefan.

Byddem yn falch o gael eich sylwadau erbyn 22 Gorffennaf 2023 os oes modd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

20 Gorffennaf 2023

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Jenny Rathbone AS

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd mewn addysg uwch

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 29 Mehefin 2023, ynghylch yr Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Mae ein hymateb yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghylch: prifysgolion yn cyllido proses i gyflwyno ymyriadau gan bobl sydd wrth law; eu gwaith i roi ymyriadau ar waith megis y Fenter Ymyriadau; sut y caiff gweithgarwch o'r fath ei fonitro a'i werthuso; a'n sylwadau ni am gylch gorchwyl yr Ymchwiliad.

I fframio ein hymateb, rydym yn darparu peth cyd-destun polisi sy'n goleuo ystyriaethau prifysgolion. Rydym hefyd wedi amlinellu ymyriadau diweddar CCAUC yn y maes yma.

Cyd-destun polisi ar lefel y DU gyfan

Caiff camau gweithredu prifysgolion i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd mewn addysg uwch eu goleuo gan gyfres o gyhoeddiadau Changing the Culture gan [Universities UK](#) rhwng 2016 a'r presennol sy'n cynnwys:

- [Changing the culture](#) 2016;
- [Changing the culture: directory of case studies](#) 2017;
- [Changing the culture: one year on](#) 2018;
- [Changing the culture: two years on](#) 2019;
- [Changing the culture: tackling staff-to-student sexual misconduct](#) 2022;
- [Changing the culture: sharing personal data in harassment cases](#) 2022.

Gweithgarwch CCAUC

Yn 2020, fe gyhoeddodd ni ganllawiau i brifysgolion ar [Fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn AU](#). Tynnodd y cyhoeddiad hwn

Mr Rob Humphreys
Cadeirydd | Chair

Dr David Blaney
Prif Weithredwr | Chief Executive



syllw at ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe gyhoeddodd ni ddeg astudiaeth achos a ddarparwyd gan brifysgolion yng Nghymru o gamau gweithredu i fynd i'r afael â thrais, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac fe wnaethom gynnwys dolen i [gyfeiriadur](#) ar lefel y DU gyfan o ddeg ar hugain o astudiaethau achos pellach.

Yn 2022, fe gynhaliom ni seminar cyfnewid gwybodaeth ar fynd i'r afael â thrais, cam-drin a thrais rhywiol mewn addysg uwch. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei safbwynt strategol ac fe ddarparodd BAWSO, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cymorth i Ferched Cymru ddiweddariad ar ymgyrchoedd, gan gynnwys hyfforddiant i bobl sydd wrth law.

Yn 2023, fe gyhoeddodd ni [Addysg uwch ddiogel a chynhwysol: cefnogi addysg cydraddoldeb ac amrywiaeth](#). Mae'r cylchlythyr hwn:

- yn hyrwyddo'r prosiect [UniSAFE](#) Ewropeaidd, a gyllidir i gynhyrchu tystiolaeth ac offer gweithredol mewn perthynas â thrais ar sail rhywedd ac aflonyddu rhywiol ar gyfer sefydliadau addysg uwch, ymchwil a gwneuthurwyr polisïau;
- yn annog prifysgolion i gynnwys camau gweithredu i gryfhau dulliau ataliol o fynd i'r afael â thrais, aflonyddu a cham-drin ar bob ffurf mewn dogfennau corfforaethol, gan gynnwys cynlluniau cyflawni cydraddoldeb strategol a strategaethau llesiant, iechyd ac iechyd meddwl;
- yn disgwyl i gamau gweithredu prifysgolion gynnwys hyfforddiant priodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a hwnnw'n cael ei gyflwyno mewn modd cynhwysfawr ac effeithiol i'r holl staff a myfyrwyr, gyda champau gweithredu yn y dyfodol yn cynnwys hyrwyddo gwybodaeth ynghylch hysbysu am ddigwyddiadau difrifol, sut y bydd staff a myfyrwyr sy'n hysbysu am y digwyddiadau hyn yn cael eu cefnogi, ac ymrwymiad i beidio â defnyddio cytundebau peidio datgelu (CPD) mewn achosion o gamymddwyn rhywiol. Gweler [Prifysgolion Cymru'n cyhoeddi datganiad ar ddefnyddio CPD](#).

Mae ein datblygiadau polisi'n cydnabod materion o ran croestoriadedd sy'n effeithio ar drais, cam-drin a thrais rhywiol ar bob ffurf. Mae'r holl brifysgolion yng Nghymru wedi ymrwymo i ennill siarter cydraddoldeb hiliol erbyn 2025. I wneud cynnydd yn gyflym tuag at ennill y siarter, fe wnaethom ymrwymo i ddarparu £1m y flwyddyn ar gyfer prifysgolion, gyda chyllid cyfatebol yn cael ei ddarparu ganddynt hwy. Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyllid yn para tan 2024/25 ar hyn o bryd ac yn rhoi ystyriaeth i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a fydd yn goruchwyllo'r system addysg ôl-16 yn ei chyfanrwydd.

Camau gweithredu gan brifysgolion yng Nghymru

Mae prifysgolion yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, canllawiau a hyfforddiant i gefnogi staff a myfyrwyr sy'n profi trais, cam-drin ac aflonyddu ar bob ffurf fel a nodir isod. Er nad ydym wedi cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru yn y ffigurau isod, gan ei bod yn gweithredu dros y DU gyfan ac yn defnyddio dull gweithredu sy'n cwmpasu'r pedair gwlad wrth ymdrin â'r mater hwn, rydym wedi cynnwys gweithgareddau cysylltiedig y Brifysgol Agored yng Nghymru yn yr ymateb hwn.

Mae chwech allan o wyth prifysgol wedi neilltuo cyllid ar gyfer ymyriadau penodol gan bobl sydd wrth law yn 2022/23 a byddant yn parhau i wneud hynny yn 2023/24. Mae'r

ddwy brifysgol arall naill ai yn y broses o ddatblygu hyfforddiant e-ddysgu ar-lein i bobl sydd wrth law a/neu maent yn darparu ymyriadau eraill. Cadarnhaodd dwy brifysgol sy'n darparu hyfforddiant i bobl sydd wrth law y byddai'n gryn her parhau i gyllido hyfforddiant yn 2023/24 oherwydd cyfyngiadau ar gyllidebau.

Ni chadarnhaodd yr un o'r prifysgolion eu bod yn rhoi'r Fenter Ymyriadau ar waith ar hyn o bryd. O'r wybodaeth sydd ar gael i ni, nid yw'n glir i ni faint o brifysgolion yn Lloegr sy'n defnyddio pecyn cymorth y Fenter Ymyriadau a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerwysg ac a gyllidwyd gan Public Health England. Nid yw'n ymddangos bod cyfeiriad at y Fenter Ymyriadau ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r holl brifysgolion yn darparu ystod o hyfforddiant a gweithgareddau i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd. Mae'r enghreifftiau diweddaraf yr ydym wedi'u cael yn cynnwys, ymhlith eraill:

- datblygu strategaeth atal a chymorth benodol ar gyfer trais ac aflonyddu rhywiol;
- darparu hyfforddiant 'adnabod, ymholi a gweithredu' ar gyfer staff yn ogystal â hyfforddiant pobl sydd wrth law a chydysyniad i fyfyrwyr mewn partneriaeth gyda'r Undeb Myfyrwyr;
- darparu hyfforddiant asesu risg a achredir gan [DICES](#) ar gyfer yr holl staff sy'n ymdrin â myfyrwyr mewn Gwasanaethau Myfyrwyr a hwnnw'n cynnwys hyfforddiant a phecynnau cymorth asesu risg a chynlluniau rheoli risg ar gyfer ymosodiadau a thrais rhywiol;
- darparu ystod o weithgareddau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth, mewn cydweithrediad gydag asiantaethau yn y trydydd sector gan gynnwys Brook, New Pathways a Limeculture;
- darparu modiwl cydsyniad rhywiol dwyieithog fel rhan o raglenni sefydlu i fyfyrwyr;
- sefydlu gweithgor trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- cyflogi staff cymorth arbenigol gyda hyfforddiant therapiwtig a phrofiad o weithio gyda'r rhai sy'n wynebu trais ar sail rhywedd;
- sefydlu grŵp awtistiaeth menywod ar gyfer 2023/24 i fynd i'r afael â phynciau megis perthnasoedd iach a diogelwch personol; ac
- ymrwymo i'r adduned Rhuban Gwyn gyda grŵp llywio i arwain ar gamau gweithredu.

Mae prifysgolion yn defnyddio ystod o brosesau i fonitro a gwerthuso'r ymyriadau uchod, gan gynnwys:

- adrodd trwy strategaethau trosfwaol megis cynlluniau cydraddoldeb strategol a strategaethau llesiant ac iechyd. Adroddir ar berfformiad yn erbyn y dogfennau corfforaethol hyn wrth bwyllgorau gweithredol prifysgolion;
- cydweithio gydag Undebau Myfyrwyr a sefydliadau trydydd parti, er enghraifft New Pathways a Brook;
- ystyried llais myfyrwyr a staff i oleuo gwaith cynllunio, er enghraifft trwy adborth mewn arolwg croesawu myfyrwyr;
- defnyddio adborth o werthusiadau ac adborth arall i fesur effaith hyfforddiant ar gyfer pobl sydd wrth law a hyfforddiant arall; a

- sicrhau bod yr holl achosion o drais, cam-drin ac aflonyddu'n cael eu cofnodi a'u monitro.

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Yn olaf, mewn perthynas â chylch gorchwyl y pwyllgor, rydym yn awgrymu cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- archwilio effeithiolrwydd cydweithio a dulliau cydgysylltiedig i gynyddu effaith i'r eithaf a sicrhau defnydd effeithiol o adnoddau dros Gymru gyfan;
- sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu goleuo gan brofiad personol goroeswyr a chyflawnwyr, gan gynnwys dealltwriaeth am brofiadau yn y gweithle a oleuwyd gan waith mewn partneriaeth gymdeithasol gydag undebau llafur;
- archwilio i ba raddau y mae hyfforddiant a darpariaeth ar gael yn Gymraeg.

Yn gywir



David Blaney

Dr David Blaney
Prif Weithredwr
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Dr Blaney

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, gan gynnwys ein cylch gorchwyl, ar gael ar ein [gwefan](#).

Yn ystod ein ymchwiliad, rydym wedi clywed am bwysigrwydd annog y rhai sy'n bresennol i ymyrryd ac, yn benodol, pwysigrwydd rhoi'r Fenter Ymyrryd ar waith. Mae [Pwyllgor Menywod a Chydraddoldeb](#) Senedd y Deyrnas Unedig wedi argymhell y dylai pob prifysgol roi'r fenter hon ar waith. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a yw Prifysgolion Cymru wedi neilltuo unrhyw gyllid i gyflwyno mentrau i annog y rhai sy'n bresennol i ymyrryd a/neu a ydynt wedi rhoi mentrau o'r fath, fel y Fenter Ymyrryd, ar waith. Yn ogystal â hyn, a allech chi ddweud sut y caiff unrhyw gynlluniau eu monitro a'u gwerthuso.

Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu cynnig mewn perthynas â'n cylch gorchwyl, sydd i'w weld ar ein gwefan.

Byddem yn falch o gael eich sylwadau erbyn 22 Gorffennaf os oes modd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Dr Chris Llewelyn

Prif Weithredwr / Chief Executive

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association**

Un Rhodfa'r Gamlas

Heol Dumballs

Caerdydd

CF10 5BF

Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade

Dumballs Road

Cardiff

CF10 5BF

Tel: 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref:

Dyddiad / Date: 25 Auguust 2023

Gofynnwch am / Please ask for: Karen Higgins

Llinell uniongyrchol / Direct line:

Ebost / Email: workforce@wlga.gov.uk

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Bae Caerdydd,

Caerdydd,

CF99 1SN

Annwyl Jenny

Ymchwiliad i ddull iechyd cyhoeddus i atal trais yn seiliedig ar ryw

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Awst 2023 a'r cyfle i gyfrannu tuag at yr ymchwiliad uchod a gyflawnir gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rwy'n falch o gynnig ymateb ar ran llywodraeth leol i'ch cwestiwn penodol ar sut mae sefydliadau yn delio â honiadau o drais yn seiliedig ar ryw yn fewnol ac yn fwy penodol pa weithdrefnau sydd mewn lle i ddelio â honiadau o drais yn seiliedig ar ryw a godir gan neu yn erbyn gweithwyr.

Mae cyflogwyr Llywodraeth Leol yng Nghymru wedi ymrwmo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y gweithle ac mae cynghorau yn weithredol wrth godi ymwybyddiaeth ymysg rheolwyr a staff cam-drin domestig, trais gan gynnwys trais yn seiliedig ar ryw a thrais rhywiol, gyda pholisïau a gweithdrefnau penodol mewn lle i reoli ac ymateb i faterion o'r natur hwn a godwyd gan neu yn erbyn gweithwyr. Mae polisïau cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol yn bodoli ac yn aml wedi'u tanategu gan ganllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant lle bo'n briodol, sydd oll yn unol â gofynion Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Er mwyn dangos graddfa a natur y polisiau hyn, mae enghraifft penodol o Gyngor Caerdydd wedi'i ddarparu ac wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Yn dibynnu ar amgylchiadau unrhyw achos unigol, mae gan gyflogwyr llywodraeth leol nifer o bolisiau a gweithdrefnau eraill a all fod yn berthnasol ac y gellir eu defnyddio wrth reoli materion o gam-drin domestig, trais a thrais rhywiol, gan gynnwys delio â honiadau a godir gan neu yn erbyn gweithwyr, sy'n cynnwys:

- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Rheoli Presenoldeb
- Cod Ymddygiad
- Urddas yn y Gwaith
- Disgyblu
- Cwynion
- Diogelu
- Cydraddoldeb Traws
- Rhannu pryderon

Yn fwy eang, mae materion a dulliau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â thrais a cham-drin domestig yn aml yn destun trafodaeth ymysg rhwydweithiau a phartneriaethau proffesiynol yn llywodraeth leol, gyda'n hundebau llafur, Llywodraeth Cymru ac ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Mae partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac arferion ac yn parhau i archwilio a mynd i'r afael â'r ffordd y gall ein gweithlu a gweithleoedd gael eu cefnogi a'u diogelu ymhellach drwy bolisiau a chefnogaeth. Un enghraifft o'r fath yw Cyngor Cyswllt Cymru, partneriaeth gymdeithasol rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur, sydd wedi trafod yn rheolaidd ac wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o a dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais (ynghlwm). Yn fwy diweddar, yn Ebrill 2023 gwahoddodd Cyngor Cyswllt Cymru, TUC Cymru i rannu manylion eu [Pecyn Gwaith Aflonyddu Rhywiol](#). Mae trafodaeth reolaidd a rhannu gwybodaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a phartneriaid yn cynnal proffil y mater pwysig hwn, er mwyn adnewyddu ein dealltwriaeth a dulliau.

Gobeithiaf fod hyn yn bodloni eich cais am wybodaeth a bod yr enghraifft a ddarperir yn cynnig y manylion angenrheidiol mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau penodol, gan gynnwys y canllawiau a chefnogaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, mae croeso i chi gysylltu â mi os ydych angen mwy o fanylion neu'n dymuno trafod unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd.

Yn ddiffuant,



Chris Llewelyn
Y Prif Weithredwr

Chris Llewelyn, Prif Weithredwr
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

7 Awst 2023

Annwyl Chris

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith hyd yma, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar ein [gwefan](#).

Un cwestiwn sydd wedi'i godi yw sut y mae sefydliadau'n ymdrin â honiadau o drais ar sail rhywedd yn fewnol. Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi pa weithdrefnau sydd ar waith ar draws gwasanaethau statudol, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ar gyfer trin honiadau o drais ar sail rhywedd a godir gan neu yn erbyn gweithwyr.

Byddem hefyd yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych ar ein cylch gorchwyl yn ehangach.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

25 Awst 2023

Annwyl Ms Rathbone,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 25 Gorffennaf 2023, yn dilyn y sesiwn tystiolaeth lafar ar 19 Mehefin 2023, pan wnaethoch ofyn am wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r canlynol:

- Y sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli ar gyfer dulliau adferol, a pha mor effeithiol yw'r dulliau hyn o ran atal trais ar sail rhywedd?
- A oes digon yn cael ei wneud i ddarparu'r sgiliau i bobl ifanc i amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth a niwed ar-lein?

Rydym yn mynd i'r afael â'r ddau gwestiwn yn eu tro yn y papur sydd ynghlwm.

Yr eiddoch yn gywir



Alexa Gainsbury, Ymgynghorydd Gwella Iechyd
Emily van de Venter, Ymgynghorydd Gwella Iechyd

1. Dulliau Adferol

Mae arferion adferol, neu ddulliau adferol, yn ffyrdd o weithio sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd a deall anghenion unigolion a chymunedau. Mewn sefyllfaoedd o wrthdaro neu niwed mae'r dull yn canolbwyntio ar atebolrwydd, datrysiadau a chyfleoedd i wneud iawn yn hytrach na phennu euogrwydd, bai, rhoi sylw i'r broblem neu geisio cosb.

Daeth dulliau adferol i'r amlwg gyntaf o fewn y sector Cyfiawnder Troseddol, gyda'r mudiad Cyfiawnder Adferol yn codi yng Ngogledd America yn y 1970au. Mae'r arfer wedi'i ddatblygu a'i gymhwyso mewn lleoliadau addysg ers y 1990au.

Nid yw arfer adferol yn rhaglen ar wahân gyda pharmedrau cyflawni diffiniedig, ond yn hytrach yn ffordd o weithio fel cymuned. Yn y DU, y Cyngor Cyfiawnder Adferol (RJC) yw'r corff aelodaeth annibynnol ar gyfer maes Arfer Adferol ac mae'n darparu sicrwydd ansawdd dros safonau hyfforddi. Mae'r RJC yn darparu Fframweithiau Ymarfer a Chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni arfer adferol o safon.

Mae'r RJC yn rhestru chwe egwyddor arfer adferol fel:

- Adfer – prif nod arfer adferol yw mynd i'r afael â niwed a'i atgyweirio
- Gwirfoddoli – mae cymryd rhan mewn prosesau adferol yn wirfoddol ac yn seiliedig ar ddewis gwybodus
- Niwtraliaeth – mae prosesau adferol yn deg ac yn ddiuedd tuag at gyfranogwyr
- Diogelwch – nod prosesau ac arferion yw sicrhau diogelwch pawb sy'n cymryd rhan a chreu lle diogel i fynegi teimladau a safbwyntiau am y niwed a achoswyd
- Hygyrchedd – mae prosesau adferol yn anwahaniaethol ac ar gael i bawb yr effeithir arnynt gan wrthdaro a niwed
- Parch – mae prosesau adferol yn parchu urddas pawb sy'n cymryd rhan a'r rhai yr effeithir arnynt gan y niwed a achoswyd.¹

Mae **Ymgyrch Encompass** yn cymhwyso egwyddorion arfer adferol wrth ymdrin â digwyddiadau neu bryderon ynghylch trais neu gam-drin domestig, neu drais ar sail rhywedd, sy'n ymwneud â phlentyn a gweithio gyda rhieni/gofalwyr a lleoliadau addysg. Darperir hyfforddiant ac adnoddau i alluogi'r asiantaethau hynny sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ddefnyddio dulliau adferol mewn ymateb i ddigwyddiadau penodol.

1.1 Arfer Adferol fel Dull Ysgol Gyfan

¹ [Principles of restorative practice - FINAL 12.11.15.pdf \(restorativejustice.org.uk\)](#)

Yn ddiweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adolygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer defnyddio arfer adferol fel dull ysgol gyfan ac effeithiau ar ddeilliannau lles meddyliol. Er bod llawer o ffyrdd o roi Arfer Adferol ar waith mewn ysgolion, mae corff o dystiolaeth i awgrymu mai Dull Ysgol Gyfan sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol.

Adolygwyd naw astudiaeth. Roedd tair o'r rhain o hap-dreial rheoli realaidd ar raddfa fawr yn y DU o ansawdd cryf (Bonell et. al. 2018, Melendez-Torres et. al. 2021, Warren et. al. 2019), roedd yr astudiaethau eraill o ansawdd cyfyngedig ac felly ni ellir dod i gasgliadau cadarn ar sail eu canfyddiadau (Acosta et. al. 2019, Gregory et. al. 2015, Hollands et. al. 2022, Norris et. al. 2019, Todic et. al. 2020, Wong et. al. 2011).

Canfu'r hap-dreial rheoli realaidd ar raddfa fawr o'r DU dystiolaeth o effaith gadarnhaol o ddull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer pobl ifanc 11-15 oed. Roedd canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys llai o fwlio, gwell gweithrediad seicolegol, cynnydd mewn lles ac ansawdd bywyd, a gostyngiad mewn ymddygiadau sy'n niweidio iechyd. Roedd yn ymddangos bod effeithiau ymyrraeth yn cryfhau dros amser. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cryn dipyn o amser i'r ymyriad achosi newid sefydliadol o fewn lleoliadau ysgol. Canfuwyd effeithiau cadarnhaol er gwaethaf ffyddlondeb amrywiol sy'n awgrymu gydag ymyriadau ysgol gyfan fod ffyddlondeb cyffredinol i fecanwaith gweithredu yn bwysicach na ffyddlondeb i ddarpariaeth/elfen ymyrraeth.

Cyflwynwyd canfyddiadau'r adolygiad tystiolaeth i Banel Arbenigol a oedd yn cynnwys academyddion, gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd ac addysg, a'u trafod ganddo. Consensws y panel arbenigol oedd bod **rhywfaint o dystiolaeth o astudiaethau bod yr ymyriad hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles ond nid yw hyn yn bendant.**

Ystyriodd y panel fod y datganiad tystiolaeth hwn yn adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dysgwyr oed uwchradd gan nad oedd digon o dystiolaeth ar gyfer lleoliadau cynradd. Mae'n ymddangos bod dulliau adferol yn addawol o ran gwella canlyniadau iechyd a lles lluosog ymhlith poblogaethau ysgolion uwchradd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen cryn dipyn o amser i sicrhau newid sefydliadol. O'i gymhwyso'n gynhwysfawr ac yn gyson, ceir effeithiau cadarnhaol, fodd bynnag gall y gweithredu fod yn amrywiol. Mae'n ymddangos bod mecanweithiau sy'n cefnogi llwyddiant yn cynnwys defnyddio data lleol i ddeall angen, cyfranogiad uwch arweinwyr ysgol, ymrwymiad ysgol gyfan ac ansawdd gweithredu parhaus ar draws ysgol.

1.2 Iechyd meddwl a chyflawni trais yn erbyn menywod a merched

Mae llai o astudiaethau sy'n archwilio'r berthynas rhwng trais yn erbyn menywod a merched a statws iechyd meddwl cyflawnwyr nag sydd ar effeithiau iechyd meddwl bod yn ddioddefwr trais a chamdriniaeth. Mae'r rhai sy'n bodoli yn tueddu i ddod o astudiaethau trawstoriadol neu ôl-weithredol felly dylid dehongli'r canfyddiadau yn ofalus. Fodd bynnag, mae astudiaethau sy'n bodoli yn awgrymu

cysylltiadau rhwng anhwylderau iechyd meddwl a chyflawni trais a cham-drin domestig (Oram et. al. 2017, Dutton a Karakanta, 2012). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai hybu iechyd meddwl cadarnhaol gyfrannu at lai o risg o drais yn erbyn menywod a merched.

2. Diogelwch ar-lein

2.1 Beth sy'n cael ei wneud yng Nghymru i roi'r sgiliau i bobl ifanc amddiffyn eu hunain rhag cam-drin a niwed ar-lein.

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn un o dri fframwaith trawsgwricwlaidd gorfodol o fewn **Cwricwlwm i Gymru**. Mae'r fframwaith yn cynnwys cysyniadau o ddinasyddiaeth ddigidol gydwobodol ochr yn ochr â gwerthusiad beirniadol o'r byd digidol a lle'r unigolyn ynddo. Ymhellach, mae elfen benodol 'ymddygiad ar-lein a bwli ar-lein' o'r fframwaith cymhwysedd digidol sy'n cynnwys dilyniant sgiliau i atal (cynradd ac uwchradd) rhag cyflawni bwlio ar-lein.

Mae Tîm Cadernid Digidol ac Addysg Llywodraeth Cymru yn cefnogi ysgolion, gan gynnwys drwy ddarparu adnoddau, drwy wefan Hwb. Mae Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles hefyd yn rhoi datblygiad sgiliau i ddysgwyr o ran ymgysylltu hollbwysig â dylanwadau cymdeithasol tra bod y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol yn ystyried gwybodaeth, rhyngweithiadau ac ymddygiadau ar-lein ac all-lein yn gyfatebol. Dechreuodd y broses o gyflwyno'r cwricwlwm yn orfodol o fis Medi 2022 ac felly mae'n rhy gynnar i werthuso ei effeithiolrwydd o ran rhoi'r sgiliau i bobl ifanc amddiffyn eu hunain rhag niwed ar-lein. Fodd bynnag, mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn helpu i nodi strategaethau a allai fod yn effeithiol, y mae llawer ohonynt yn cyd-fynd ag uchelgeisiau o fewn y cwricwlwm newydd yn ogystal â dulliau ysgol gyfan ehangach at iechyd a lles a drafodwyd yn ystod y sesiwn tystiolaeth lafar (gweler isod).

Mae Fframwaith Cymru Heb Drais a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn manylu ar naw strategaeth i atal trais ymhlith plant a phobl ifanc, gan gynnwys Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae cyfleoedd ar gyfer ymyriadau ar-lein y tu hwnt i'r cwricwlwm newydd yn y strategaethau hyn wedi'u rhestru isod gyda photensial amrywiol i gyfrannu at ddatblygu sgiliau pobl ifanc. Maent yn cynnwys:

- cynnig adnoddau a chynghor ar ddiogelwch ar-lein i rieni a gofalwyr;
- cysylltu staff allgymorth hyfforddedig ag aelodau o'r gymuned i gyfryngu unrhyw wrthdaro a helpu plant a phobl ifanc i gael mynediad at gymorth cymunedol (ar-lein ac all-lein);
- darparu hyfforddiant i staff addysg ar berthnasoedd iach, normau a gwerthoedd cymdeithasol, atal trais, a diogelwch ar-lein, gan gynnwys tueddiadau cyfredol;

- deddfwriaeth ar ddiogelwch ar-lein, gan gynnwys gorfodi dyletswyddau i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cynnwys treisgar ar-lein;
- ymgyrchoedd marchnata cymdeithasol sy'n ceisio herio a newid agweddau, credoau, normau cymdeithasol a stereoteipiau niweidiol sy'n cynnal braint, anghydraddoldeb a darostwng, cyfiawnhau trais a gwarthnodi goroeswyr.

Mae rhai ymyriadau eisoes yn weithredol yng Nghymru sy'n ymgorffori'r argymhellion hyn gan gynnwys 360 degree Safe Cymru, Riportio Cynnwys Niweidiol a mynediad gweithwyr proffesiynol at Linell Gymorth Diogelwch Ar-lein Proffesiynol y DU. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw werthusiadau o'u heffeithiolrwydd o ran cefnogi datblygiad sgiliau pobl ifanc.

2.2 Canfyddiadau pobl ifanc o ddiogelwch ar-lein ac agweddau tuag at ymyriadau

Yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer Fframwaith Cymru Heb Drais (Snowdon et al., 2023), siaradodd Uned Atal Trais Cymru a Peer Action Collective Cymru â dros 470 o blant a phobl ifanc am eu canfyddiadau o drais. Yn gyffredinol, teimlai 47% o'r plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad mai bwlio, ar-lein ac wyneb yn wyneb, oedd y mater mwyaf cyffredin yn eu cymuned. Roedd ymatebion eraill a oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad hwn yn cynnwys aflonyddu rhywiol, trais rhywiol, cam-drin domestig, stelcian a throseddau casineb gan gynnwys cam-drin traws a homoffobia.

Nid oedd y plant a'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw yn gwahaniaethu rhwng trais a brofir wyneb yn wyneb, a thrais a brofir ar-lein. Awgrym cyffredin ar gyfer atal trais a gyflwynwyd gan ymgynghoreion ifanc oedd 'rheoleiddio deunydd ar y we i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y cynnwys niweidiol ar-lein' (Walker, 2023). Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ehangach a gynhyrchwyd o arolwg cynrychioliadol o boblogaeth oedolion Prydain ynghylch profiad o niwed ar-lein ac agweddau tuag at ymyriadau diogelwch ar-lein (Enoch et al., 2023) a nododd fod dod i gysylltiad â niwed ar-lein ymhlith cyfranogwyr a bod y mwyafrif yn gefnogol o gamau rheoleiddio gan lwyfannau cyfryngau i ymateb i ddefnyddwyr sy'n cynhyrchu cynnwys niweidiol, a'r llywodraeth - i ymateb i lwyfannau sy'n methu ag ymdrin â chynnwys niweidiol ar-lein.

2.3 Beth sy'n gweithio i atal niwed ar-lein; y sylfaen dystiolaeth

Mae adroddiad WHO 'beth sy'n gweithio i atal trais ar-lein yn erbyn plant' (WHO, 2022) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rhoi crynodeb defnyddiol ynghylch epidemioleg trais ar-lein yn erbyn plant a phobl ifanc yn ogystal â strategaethau a allai fod yn effeithiol ar gyfer atal. Maent yn nodi elfennau strwythurol, sgiliau a gwybodaeth a sgiliau lluosog sy'n gysylltiedig â llwyddiant o'r llenyddiaeth.

Mae'r elfennau strwythurol sy'n gysylltiedig â llwyddiant yn cynnwys strategaethau dysgu amrywiol; hwyluswyr neu athrawon sydd wedi'u hyfforddi'n dda; sicrhau ansawdd; sylw i boblogaethau arbennig a risg uchel; amlygiad

ailadroddus i negeseuon; darpariaeth ryngweithiol a rhaglenni a gyflwynir fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Mae datblygiad sgiliau sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd yn cynnwys datrys problemau, pendantsrwydd a hunan-effeithiolrwydd; datblygu empathi; hunan-reoleiddio a rheoli emosiwn; datrys gwrthdaro; ceisio cymorth ac ysgogi gwylwyr.

Mae'r elfennau gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd yn cynnwys normau cymdeithasol, addysg perthnasoedd a rhywioldeb ac addysg camddefnyddio sylweddau.

Mae WHO yn nodi bwlio fel rhagflaenydd datblygiadol i drais ar-lein ac felly'n argymhell y dylai sgiliau atal bwlio a meithrin parch fod yn gonglfaen datblygiadol ar gyfer atal mathau diweddarach o drais all-lein ac ar-lein. Yn olaf, o ystyried y gorgyffwrdd rhwng trais ar-lein ac all-lein, maent yn nodi'r angen i integreiddio cynnwys am beryglon ar-lein ag atal trais all-lein.

Yn y bôn, mae'r elfennau craidd, y sgiliau a'r wybodaeth hyn yn gyson â'r rhai y byddech chi'n eu blaenoriaethu i hybu lles meddyliol gydag un neu ddau o eithriadau penodol e.e. ymyriadau gan wylwyr. O ganlyniad, dylid eu hymgorffori mewn rhaglenni ehangach sy'n ymwneud ag iechyd a lles yn hytrach na datblygu ymyriadau annibynnol sydd â'r nod o atal trais fel yr argymhellir yn Fframwaith Cymru Heb Drais.

Mae'r 'Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' (Addis a Snowdon, 2021) yn nodi bod angen i ymyriadau fod yn berthnasol yn gymdeithasol-ddiwylliannol er mwyn iddynt fod yn effeithiol (Nation et al., 2003) a bod y defnydd o blatfformau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol i atal trais yn taro tant yn arbennig gyda chynulleidfaedd iau mewn gwledydd lle mae llawer o ddefnydd o'r rhyngwrdd.

Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth o werthusiad Mennicke et al. (2018) o ymgyrch farchnata dros bum mlynedd o normau cymdeithasol atal trais rhywiol a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dynion mewn prifysgol fawr yn yr Unol Daleithiau. Dros bum mlynedd o gasglu data, gwelodd canfyddiad dynion o agweddau a chredoau eu cyfoedion, lleihaodd yr anghysondeb rhwng canfyddiadau a hunan-adrodd, a gwelodd eu credoau (yn fwy felly nag agweddau) eu hunain. Yn ogystal ag enillion ar fesurau credoau hunangofnodedig a chanfyddiad o agweddau a chredoau cyfoedion, fe wnaeth ymddygiad hunangofnodedig dynion hefyd wella trwy gydol yr ymyriad. Soniodd dynion am ymddygiad rhywiol ymosodol yn llai aml yn ystod blynyddoedd olaf yr ymyriad a gwnaethant nodi eu bod yn cymryd rhan mewn ymddygiad ymyrraeth gwylwyr yn amlach. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn yn awgrymu y gellir defnyddio ymgyrchoedd marchnata normau cymdeithasol i ymgysylltu'n gadarnhaol â dynion o ran atal trais.

Gwybodaeth Ychwanegol y gofynnir amdani gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyfeiriadau

Bonell, C. et al. 2018. Effects of the Learning Together intervention on bullying and aggression in English secondary schools (INCLUSIVE): a cluster randomised controlled trial. *Lancet*. 392(10163): 2452-2464

Melendez-Torres, G.J. et al. 2021. Effects of a Whole School Health Intervention on Clustered Adolescent Health Risks: Latent Transition Analysis of Data from the INCLUSIVE Trial. *Prevention Science* 23:1-9

Warren et al (2019) Groups as a participative strategy for leading whole-school health promotion: Results on implementation from the INCLUSIVE trial in English secondary schools. *Br. Educ. Res. J.*, 45, 979–1000.

Acosta, J., Chinman, M., Ebener, P., Malone, PS, Philips, A., Wilks, A. 2019. *Evaluation of a Whole-School Change Intervention: Findings from a Two-Year Cluster-Randomised Trial of the Restorative Practices Intervention*. *J Youth Adolesc*: 48(5): 876-890

Gregory, A., Clawson, K., Davis, A., Gerewitz, J. 2015 *The Promise of Restorative Practices to Transform Teacher-Student Relationships and Achieve Equity in School Discipline*. *Journal of Educational and Psychological Consultation*; 25:1-29

Hollands, F. et al. (2022) *Restorative Practices: Using local evidence on costs and student outcomes to inform school district decisions about behavioural interventions*. *Journal of School Psychology*: 92 188-208

NORRIS, H., 2019. The impact of restorative approaches on well-being: An evaluation of happiness and engagement in schools. *Conflict Resolution Quarterly*, 36(3), pp. 221-234.

Todić J, et al. 2020 Reframing school-based restorative justice as a structural population health intervention. *Health Place*.62:102289.

Wong D.S.W., Cheng C.H.K., Ngan R.M.H., Ma S.K., 2011 Program Effectiveness of a Restorative Whole-School Approach for Tackling School Bullying in Hong Kong. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology* 55 (6) 846-862

Oram, S., Khalifeh, H. a Howard, LM (2017). Violence against women and mental health. *Lancet Psychiatry*. 4:159-170

Dutton, D. G a Karakanta, C. 2012. Depression as a risk marker for aggression: A critical review. *Aggression and Violent Behaviour*. 18:310-318

Addis, S., Snowdon, L., (2021) Beth sy'n Gweithio i Atal Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Asesiad Systematig o'r Dystiolaeth, Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd. Ar gael yn <https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/09/Beth-syn-Gweithio-i-Atal-Trais-yn-erbyn-Menywod-Cam-drin-Domestig-a-Thrais-Rhywiol-Asesiad-Systematig-or-Dystiolaeth.pdf>

Enoch, Florence a Johansson, Pica a Bright, Jonathan a Margetts, Helen Zerlina, Tracking Experiences of Online Harms and Attitudes Towards Online Safety Interventions: Findings from a Large-Scale, Nationally Representative Survey of the British Public (Mawrth 21, 2023). Ar gael yn SSRN: <https://ssrn.com/abstract=4416355> neu <http://dx.doi.org/10.2139/ssrn.4416355>

Snowdon, L., Parry, B., Walker, A., Barton, E., (2023) Wales Without Violence: Fframwaith ar y Cyd ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc, Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd. Ar gael yn <https://cymruhebdrais.com/wp-content/uploads/2023/04/WWV-Fframwaith-Digidol-Cymraeg.pdf>

Gwybodaeth Ychwanegol y gofynnir amdani gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Walker, A., (2023) Cymru Heb Drais: Safbwyntiau Plant a Phobl Ifanc, Uned Atal Trais Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd. Ar gael yn https://www.violencepreventionwales.co.uk/cms-assets/research/Cymru-Heb-Drais_Safbwyntiau-plant-a-phobl-ifanc.pdf

WHO. (2022) What works to prevent online violence against children? Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd; 2022. Trwydded: CC BY-NC-SA 3.0 IGO. <https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/3.0/igo/>

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Alexa

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy dulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad presennol i atal trais ar sail rhywedd. Yn dilyn y sesiwn honno, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau ychwanegol isod.

Dulliau adferol

Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae **Estyn** a **Plismona yng Nghymru** yn cyfeirio at y defnydd o ddulliau adferol ar gyfer trais ar sail rhywedd mewn ysgolion (yn benodol at Ymgyrch Encompass). A oes modd i chi roi gwybodaeth am y sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli ar gyfer dulliau adferol, a pha mor effeithiol yw'r dulliau hyn o ran atal trais ar sail rhywedd? Os felly, a allech roi enghreifftiau o arfer gorau o unrhyw ymchwil neu werthusiadau rydych wedi'u cynnal?

Diogelwch ar-lein

Yn ystod ein sesiwn, gwnaethom ymdrin â diogelwch ar-lein yn gryno, a sut y gall cyfryngau cymdeithasol ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau pobl eraill. Yn eich barn chi, a oes digon yn cael ei wneud i roi i bobl ifanc y sgiliau i amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth a niwed ar-lein? A ddylai'r ffocws fod ar ymdrechion i annog a hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ac, os felly, sut rydym yn ymgysylltu â dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol? Byddem yn croesawu enghreifftiau sydd gennych o waith ar y mater hwn.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol


Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Plismona
yng Nghymru
Policing in Wales



South Wales
Police and Crime Commissioner
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
De Cymru



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd,
Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru/Welsh
Parliament

Emma Wools

Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu
a Throseddau De Cymru

25^{ain} Awst 2023

Annwyl Jenny

Parthed: Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Dull Iechyd Cyhoeddus tuag at Atal Trais ar sail Rhywedd

(Cyflwyniad Plismona yng Nghymru)

Diolch am estyn gwahoddiad i'm cydweithwyr, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dafydd Llywelyn, Prif Gwnstabl Amanda Blakeman, a mi, i roi tystiolaeth gerbron eich ymchwiliad ar 10^{fed} Gorffennaf.

Gweler ynghlwm adroddiad ategol a baratowyd ar ein rhan gan Brif Uwch-arolygydd Ian Roberts, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani yn eich llythyr dyddiedig 25^{ain} Gorffennaf 2023.

Er eich hwylustod, rydym wedi cyfuno'r wybodaeth mewn un ymateb ar ran Grŵp Gweithredol Plismona yng Nghymru.


Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

Os oes angen unrhyw wybodaeth neu gymorth pellach arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,



Emma Wools

Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru

Ar ran Grŵp Gweithredol Plismona yng Nghymru


Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
f: 01656 869366
e: comisiynydd@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English



Plismona
yng Nghymru
Policing in Wales



Senedd Cymru/Welsh Parliament

Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Atal Trais ar sail Rhywedd

Cyflwyniad o Dystiolaeth Ategol

ar gyfer

Plismona yng Nghymru

Awdur	Prif Uwch-arolygydd Ian Roberts
Rôl	Arweinydd VAWDASV/VAWG a Gwrth-hiliaeth, Plismona yng Nghymru
Cyswllt	lan.w.roberts@gwent.police.uk
Dyddiad	25ain Awst 2023

Cefndir

Ar y 10fed Gorffennaf 2023, rhoddodd cynrychiolwyr o Grŵp Gweithredol Plismona yng Nghymru dystiolaeth gerbron Ymchwiliad y Senedd i Atal Trais ar sail Rhywedd. Rhoddwyd dystiolaeth ar lafar gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn (Dyfed-Powys), Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Emma Wools (De Cymru), a Phrif Gwnstabl Amanda Blakeman (Heddlu Gogledd Cymru).

Yn ystod y sesiwn, gwnaed ymrwymiad i ddarparu dystiolaeth ategol ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Amlinellwyd y wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani mewn gohebiaeth gan gadeirydd yr ymchwiliad, dyddiedig 25ain Gorffennaf.

Er mwyn hwylustod, mae'r adroddiad hwn yn darparu ymateb cyfunol ar ran Grŵp Gweithredol Plismona yng Nghymru. Lle y rhoddir enghreifftiau, mae'r rhain yn dangos gweithgarwch ar draws ardaloedd heddlu yng Nghymru, ond nid yw'r rhestrau yn drylwyr. Gellir darparu gwybodaeth bellach os yw hynny o gymorth i'r ymchwiliad.

Rhybudd rhag Cam-drin mewn Perthynas (Rhaglen CARA)

Rhaglen ymyrraeth gynnar yw CARA sy'n targedu troseddwy'r cam-drin domestig. Mae'n bodloni meini prawf penodol a rhybuddiad amodol yw'r canlyniad cyfiawnder troseddol priodol.

Datblygwyd y rhaglen gan Hampton Trust, a chafodd ei rhoi ar brawf am y tro cyntaf dan amodau arbrofol yn 2012, mewn partneriaeth gyda Heddlu Hampshire a Phrifysgol Caergrawnt. CARA oedd y strategaeth blismona gyntaf yn y DU i gael ei gwerthuso dan amodau hap dreial rheoli.

Mae sesiynau CARA wedi cael eu cynllunio i godi ymwybyddiaeth ymysg troseddwy'r, gan gefnogi cyfleoedd i hunan ddatgelu a hybu mynediad i gymorth ychwanegol. Trwy waith ymgysylltu mewn dau weithdy, mae CARA'n galluogi troseddwy'r i ddeall beth yw cam-drin domestig, ei effaith, a'i ganlyniadau.

Mae sail dystiolaeth gadarn yn cefnogi manteision rhaglen CARA. Cynhaliodd Prifysgol Caergrawnt hap dreial rheoli yn Southampton rhwng 2012 a 2015. Nododd yr astudiaeth yma bod troseddwy'r a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen 35% yn llai tebygol o ail droseddu na'r rhai nad oeddent wedi cymryd rhan. Nododd 63% o ddiodefwy'r newid cadarnhaol mewn ymddygiad, a nododd 85% o gyfranwyr bod CARA wedi newid eu hagwedd tuag at eu partner a/neu eu plant.

Yn 2021, cyhoeddodd Prifysgol Birmingham Astudiaeth Gwerthusiad o Effaith a Manteision Economaidd rhaglen CARA. Canfu bod yr ymyrraeth yn cael effaith sylweddol ar atgwmpo, gan nodi gostyngiad 81% yn y chwe mis cyntaf a gostyngiad 56% yn y 12 mis cyntaf. Am bob £1 a fuddsodwyd yn CARA, roedd y dystiolaeth yn dangos y byddai heddluoedd yn arbed £2.75 mewn costau eraill.

Ar hyn o bryd mae Prifysgol Southampton yn arwain astudiaeth CARA ar draws naw ardal heddlu. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ym mis Rhagfyr 2023.

Mae cyflwyno rhaglen CARA yn genedlaethol wedi bod yn gyfyngedig tan yn ddiweddar oherwydd amodau caeth. Fodd bynnag, mae newid ym mholisi Llywodraeth y DU a chyflwyniad model dwy haen newydd ar gyfer Gwarediadau y tu Allan i'r Llys yn rhoi cyfle i bob heddlu fabwysiadu'r rhaglen.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, bwriedir cyflwyno CARA yn Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent yn ystod yr hydref 2023. Mae trefniadau darparu lleol yn y broses o gael eu comisiynu, gyda chymorth gan Hampton Trust i sicrhau bod safonau ansawdd wrth wraidd y gwasanaeth.

Bydd Tasglu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Plismona yng Nghymru yn monitro unrhyw broblemau sy'n codi wrth roi'r rhaglen ar waith ac yn cynghori comisiynwyr heddlu a throstedd a phrif gwnstabiliaid, er mwyn gallu mabwysiadu dull cyson a chydlynus ar draws Cymru.

Rhaglen Glasbrint VAWDASV - Gwybodaeth am y Ffrwd Waith Herio Cyflawnwyr

Cyfraniad comisiynwyr heddlu a throstedd at y Ffrwd Waith

Bydd trefniadau Glasbrint VAWDASV yn sicrhau ymateb system gyfan i VAWDASV. Caiff ymrwymiad Plismona yng Nghymru i hyn ei adlewyrchu yn y trefniadau cadeirio ar y cyd ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol rhwng y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chomisiynydd Heddlu a Throstedd Dyfed-Powys.

Ar lefel rheoli rhaglen, mae Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throstedd Emma Wools yn un o ddau Uwch-swyddog Cyfrifol ac yn gyd gadeirydd Bwrdd Rhaglen Glasbrint VAWDASV, ynghyd â Mr Paul Dear, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymunedau Cydlynus Llywodraeth Cymru.

Mae chwe ffrwd waith y Glasbrint yn adlewyrchu blaenoriaethau darparu'r strategaeth ac yn y misoedd diwethaf cytunwyd ar gamau cyflawni lefel uchel. Y prif bwyntiau gweithredu ar gyfer Ffrwd Waith Herio Cyflawnwyr yw:

1. Cadarnhau a gwella'r sylfaen dystiolaeth a'r dadansoddiad ar gyflawni VAWDASV yng Nghymru
2. Datblygu dull system gyfan ar draws Cymru ar gyfer herio cyflawnwyr VAWDASV, sy'n cwmpasu ymyrraeth ac atal cynnar, trwy ymateb cyfiawnder troseddol
3. Egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau pob asiantaeth sy'n ymwneud â herio cyflawnwyr sy'n gysylltiedig â Deddf VAWDASV
4. Cryfhau systemau atebolrwydd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn bodloni eu cyfrifoldebau i atal a herio cyflawnwyr VAWDASV.

Mae comisiynwyr heddlu a throsedd yng Nghymru'n cydweithio gyda'r pedwar Prif Gwnstabl trwy'r Grŵp Plismona yng Nghymru. Mae pob comisiynydd heddlu a throsedd a Phrif Gwnstabl yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal, ond pwrpas y grŵp yw cydweithio er mwyn sicrhau dull cyson er budd pob cymuned yng Nghymru.

Mae'r Grŵp Plismona yng Nghymru wedi buddsoddi mewn uwch-swyddog heddlu i weithio llawn-amser ar bortffolios VAWDASV a Gwrth-hiliaeth. Mae Prif Uwch-arolygydd Ian Roberts yn chwarae rhan flaenllaw yn rhaglen y Glasbrint ac mae'n gweithio gydag arweinwyr VAWDASV ym mhob heddlu i sicrhau cynrychiolaeth heddlu gweithredol ar draws y chwe ffrwd waith.

Effeithiolrwydd Rhaglenni i Gyflawnwyr

Mae tystiolaeth gadarn o blaid rhaglenni i gyflawnwyr fel rhan o ddull iechyd cyhoeddus tuag at atal VAWDASV¹. Credwn y dylai'r rhaglenni hyn fodoli ar bob un o'r tair haen o weithgarwch atal a dylai'r Glasbrint VAWDASV sicrhau bod trefniadau comisiynu effeithiol a chynaliadwy ar waith. Cydnabyddir bod y ddarpariaeth ar draws Cymru yn anghyson, ond mae llawer o resymau dros hyn, a'n nod yw defnyddio'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, ynghyd â fframweithiau polisi newydd, i sbarduno gwelliannau.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn y rhaglenni i gyflawnwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae prif swyddogion Heddlu De Cymru wedi sicrhau bod y rhain yn rhan annatod o arfer gweithredol. Mae tîm y Comisiynydd yn cynnal cyfarfod amlasiantaeth i ddwyn partneriaid a rhanddeiliaid at ei gilydd i rannu gwersi a ddysgwyr, ac i ganfod rhwystrau i weithio effeithiol, gan gynnwys bylchau mewn darpariaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd o fewn y Glasbrint i adolygu safonau ansawdd i gomisiynwyr ac i fapio darpariaeth bresennol ledled Cymru.

Lansiwyd rhaglen cyflawnwyr Drive yn 2016 er mwyn targedu cyflawnwyr risg uchel. Cynhaliwyd gwerthusiad rhwng 2016 a 2019 a dyma'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer cyfranogwyr:

- Gostyngiad 82% mewn cam-drin corfforol
- Gostyngiad 88% mewn cam-drin rhywiol
- Gostyngiad 75% mewn ymddygiad sy'n aflonyddu a stelcio
- Gostyngiad 73% mewn ymddygiad cenfigennus ac ymddygiad sy'n rheoli

Mae rhaglen Drive ar gael ledled ardal Heddlu De Cymru ac mae'n cael ei threialu ar hyn o bryd mewn lleoliad carcharu yng Ngharchar ei Fawrhydi Abertawe.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru wedi darparu cyllid ar gyfer rhaglenni eraill hefyd fel Rhaglen Clear, cwrs byr i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion sy'n awyddus i newid eu hymddygiad. Mae'r cwrs hefyd yn rhoi cymorth i bartneriaid a chyn bartneriaid. Mae'n darparu cyllid ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd hefyd, sy'n darparu ymyraethau therapiwtig i deuluoedd a effeithir gan gam-drin domestig. Mae'r ymyrraeth yn canolbwyntio ar ddiogelwch, effaith cam-drin domestig ar blant, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod,

¹Fel yr amlygir yng ngwerthusiadau model CARA a Drive

cyfathrebu â pharch, ymlyniad, a chadernid emosiynol. Nod y rhaglen yw galluogi teuluoedd i gyd fyw yn ddiogel neu i hwyluso gwahanu cyfeillgar.

Canolfannau Cymorth Cynnar

Yn rhan o'r agwedd ymwybodol o drawma tuag at ddiogelu, mae heddluoedd ledled Cymru'n datblygu cytundebau partner er mwyn atgyfeirio pobl sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV at wasanaethau cymorth cynnar, lle na fodlonir trothwyon diogelu statudol. Cydnabyddir bod trefniadau lleol yn wahanol ym mhob ardal ar hyn o bryd, ond bydd strwythur y Glasbrint yn dylanwadu ar ddysgu a rennir a datblygiad modelau arfer da ledled Cymru.

Mae'r Rhaglen Newid Bregusrwydd yn Heddlu De Cymru yn enghraifft o sut mae'r heddlu'n rhan o atgyfeirio pobl at wasanaethau cymorth cynnar. Mae Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu penodedig ym mhob ardal heddlu yn awr, gyda chyfrifoldebau penodol, sydd wedi derbyn hyfforddiant ychwanegol yn ymwneud â diogelu. Mae hyn wedi arwain at dros 3,500 o atgyfeiriadau at wasanaethau cymorth cynnar ers lansio'r rhaglen ym mis Medi 2020.

Prosiect Mynd i'r Afael â Throseddau ar y Stryd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol (TASC) a Model Atal Trais Caerdydd

Datblygwyd prosiect TASC ar ddiwedd y 1990au a dechrau'r 2000au fel dull amlasiantaeth dan arweiniad yr heddlu i atal trosedd ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghaerdydd a Bae Caerdydd. Roedd yn cynnwys amrywiaeth o ymyraethau gan gynnwys dialog rhwng yr heddlu a busnesau trwyddedig, mesurau i wella ansawdd ac ymddygiad staff ar ddrysau, ymgyrchoedd plismona pwrpasol a chymorth i ddioddefwyr ymosodiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Heddiw, mae Model Atal Trais Caerdydd, a grëwyd gan yr Athro John Shepherd ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi cael ei fabwysiadu gan ddinasoedd eraill yn y DU ac o gwmpas y byd. Yn sail i'r dull hwn mae'r darganfyddiad allweddol nad yw llawer o ddigwyddiadau treisgar sy'n arwain at driniaeth frys mewn ysbyty yn hysbys i'r heddlu. Felly, trwy gyfuno data gan adrannau achosion brys a'r heddlu gellir cael darlun llawer mwy cywir o bryd a lle y mae trais yn digwydd, a phwy sy'n gyfrifol. Defnyddir y wybodaeth yma i ganolbwyntio adnoddau cyfyng ar ymyraethau sy'n gweithio.

Mae'r dull iechyd cyhoeddus yn cynnwys pedwar cam:

- Mae cam un yn cynnwys mynd ati mewn modd systematig i gasglu data ar hyd a lled, nodweddion a chanlyniadau trais
- Mae cam dau yn cynnwys cynnal ymchwil i bennu'r ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau'r risg o drais
- Mae cam tri yn defnyddio gwybodaeth o gamau un a dau i gynllunio, gweithredu a gwerthuso ymyraethau
- Mae cam pedwar yn golygu cynyddu a gweithredu ymyraethau y dangosir yng ngham tri eu bod yn effeithiol, a lledaenu gwybodaeth am atal yn eang.

Mae adroddiad o 2022 ar Fodel Atal Trais Caerdydd yn dangos buddiannau economaidd-gymdeithasol sylweddol ac mae'n gymeradwy gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Nod dull Glasbrint VAWDASV yw dwyn partneriaid at ei gilydd fel y gellir defnyddio dull iechyd cyhoeddus ar gyfer pob ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er bod cysylltiadau clir rhwng trais yn yr economi liw nos a diogelwch menywod a merched, mae nifer o leoliadau eraill lle mae trais yn erbyn menywod a merched yn digwydd.

Rhaglen Upstander Y Coleg Plismona

Mae'r Coleg Plismona wedi datblygu cynllun i ddefnyddio ymyraethau ymddygiad seiliedig ar dystiolaeth i wella diwylliant. Nododd ymchwil y Coleg dros 200 enghraifft o ymddygiad a oedd yn dangos rhywiaeth a chasineb at fenywod mewn heddluoedd, a thros 100 o rwystrau i ymddygiad gwell. Dewiswyd amrywiaeth o ymyraethau wedyn, yn dilyn cyngor gan swyddogion benywaidd y dylid canolbwyntio ar rywiaeth 'o ddydd i ddydd' i atal yr ymddygiad rhag gwaethygu. Mae camau gweithredu'n amrywio o wneud pethau'n haws a mwy diogel i swyddogion adrodd am ymddygiad gwael gan gydweithwyr, i hyfforddi arweinwyr a hwb i yrfa swyddogion sy'n dangos cynhwysiant. Mae'r Coleg yn gweithio'n benodol gyda heddluoedd Cymru ar hyfforddiant trochi o fewn y cynllun. Gall hyn helpu swyddogion a staff gyda'r arfer sydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â rhywiaeth a chreu diwylliant mwy cynhwysol.

Mae Tasglu VAWDASV a VAWG (trais yn erbyn merched) Plismona yng Nghymru yn sicrhau agwedd gyd-gysylltiedig tuag at waith y Glasbrint VAWDASV yng Nghymru gyda gwaith Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Coleg Plismona.

Rhaglen Heddlu Ysgolion Cymru

Mae Rhaglen Heddlu Ysgolion Cymru (Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan gynt) wedi bod mewn bodolaeth ers Medi 2004. Fe'i datblygwyd gyda'r ddealltwriaeth bod addysgu pobl ifanc yn rhan hanfodol o waith atal sylfaenol. Mae'r rhaglen wedi bod yn destun sawl adolygiad ers hynny, y mwyaf diweddar ohonynt ym mis Mawrth 2023. Mae Bwrdd Plismona yng Nghymru a Llywodraeth Cymru wedi derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad hwn. Mae ymchwil ar y cysylltiad rhwng addysg plant a lleihad mewn trosedd yn gyfyngedig, ond yn ôl y dystiolaeth anecdotaidd mae plant, staff dysgu a phartneriaid cysylltiedig yn gwerthfawrogi'r rhaglen yn fawr.

Ymgyrchoedd yr Economi Liw Nos

Isod ceir enghreifftiau o ymgyrchoedd atal dan arweiniad yr heddlu i leihau ac atal trais ar sail rhywedd yng Nghymru:

Rhaglen Strydoedd Saffach Wrecsam

Cafwyd cyllid o ychydig dan £1 miliwn o gronfeydd Strydoedd Saffach a Diogelwch Menywod yn y Nos i gefnogi mentrau fel gosod ac uwchraddio camerâu teledu cylch cyfyng a goleuadau stryd yng nghanol dinas Wrecsam, gan sicrhau delweddau da o'r prif lwybrau

trwy ganol y ddinas. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r llwybrau hynny a ddefnyddir gan gerddwyr i fynd o ganol y ddinas i fannau heb lawer o olau.

Yn ogystal, rhoddodd y rhaglen nifer o fesurau atal eraill ar waith i leihau trais ar sail rhywedd. Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant ymyrryd gyda mannau trwyddedig trwy'r ymgyrch cyfathrebu 'Good Night Out', a Chanolfan Les Hafan y Dref, sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl sydd wedi colli eu ffrindiau, wedi meddwi neu wedi dioddef mân anafiadau.

Rhoddodd y rhaglen gynllun bugeiliaid y stryd ar waith hefyd, a defnyddiwyd ymgyrch Vista i sicrhau presenoldeb amlwg gan yr heddlu yn y lleoliadau iawn ar yr amser iawn.

Prosiect Bws Diogelwch Caerdydd

Mae'r prosiect Bws Diogelwch yn wasanaeth sy'n defnyddio fan wedi'i llogi a chronfa a 60 o wirfoddolwyr. Mae'r gwasanaeth yn helpu aelodau'r cyhoedd, myfyrwyr yn bennaf, sydd mewn perygl oherwydd digwyddiadau'n ymwneud ag alcohol neu oherwydd eu bod yn agored i niwed am resymau eraill, i fynd adref yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn lleihau'r perygl y bydd defnyddwyr yn dioddef trosedd, yn arbennig trais yn erbyn menywod a merched. Ers 15 Medi 2021, mae dros 1,800 o unigolion wedi cael eu cludo adref yn ddiogel.

Ymgyrch Minerva Heddlu De Cymru

Yn defnyddio gwersi a ddysgwyd mewn rhaglen beilot ddiweddar, mae tîm arbenigol o swyddogion mewn dillad plaen yn cael eu defnyddio yng nghanol y ddinas ar adegau allweddol rhwng 8pm a 4am ac ar benwythnosau. Nod y dacteg hon yw canfod ymddygiad rheibus ac anfon neges glir bod diogelwch benywod yn cael ei gymryd o ddifrif yng Nghaerdydd, gyda swyddogion mewn dillad plaen ar batrôl. Bydd yr ymgyrch hefyd yn hybu defnydd o bwytiau cymorth, gweithio gyda staff ar ddrysau a llywio hyfforddiant Club Corps.

Club Corps Caerdydd

Cynllun i hybu hyfforddiant diogelwch i staff mangreoedd trwyddedig yw Club Corps. Bydd y prosiect yn cyflwyno staff 'Club Corps' a fydd yn gweithredu fel hyrwyddwyr diogelwch, ac yn cael eu hyfforddi i fod yn ymwybodol o gamddefnydd alcohol a sylweddau a bregusrwydd mewn clybiau nos a bariau sydd ar agor yn hwyr yng nghanol dinas Caerdydd. Bydd staff 'Club Corps' yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u defnyddio gan dri lleoliad trwyddedig allweddol yng Nghaerdydd a byddant yn dod yn aelodau staff parhaol ar ôl tri mis o gyllid dechreuol. Yn ogystal, bydd pedwar cwrs diogelwch yn cael eu cynnal, a fydd yn cyrraedd rhyw 48 aelod o staff. Dechreuwyd yr ymgyrch yma yn dilyn cais gan Fforwm Trwyddedeion Caerdydd i ehangu'r fath o warchodaeth gyhoeddus a ddarperir gan Fugeiliaid y Stryd i gynnwys lleoliadau trwyddedig sy'n agored yn hwyr, er mwyn cysylltu gyda gwasanaethau fel Bugeiliaid y Stryd, canolfannau triniaeth alcohol, Bws Diogelwch Myfyrwyr a Cerdded Diogel.

Ymgyrch Dinas Ddiogel - Casnewydd

Mae economi liw nos prysuraf ardal Heddlu Gwent yng nghanol dinas Casnewydd. Nod y model plismona 'Dinas Ddiogel' yw rheoli a chydgysylltu plismona yng nghanol dinas Casnewydd ar nosweithiau Gwener a Sadwrn. Nod Ymgyrch 'Dinas Ddiogel' yw:

- Lleihau cyflenwad a defnydd o gyffuriau a sylweddau seicoweithredol anghyfreithlon
- Lleihau achosion o yfed alcohol yn beryglus
- Lleihau digwyddiadau o drais, lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Sicrhau bod tafarndai a chlybiau trwyddedig yn darparu amgylchedd diogel, cyfreithlon y gall cwsmeriaid ei fwynhau.
- Sicrhau bod cwsmeriaid yr economi liw nos yn gallu gadael canol y ddinas yn ddiogel trwy system drafnidiaeth dda
- Gwella cyfathrebu rhwng yr holl randdeiliaid yng nghanol y ddinas.

Siarter Diogelwch Menywod yn y Nos Gwent

Mae Pecyn Cymorth Siarter Diogelwch Menywod yn y Nos wedi cael ei ddatblygu gan Ganolfan Datrys Problemau Heddlu Gwent fel ymrwymiad i greu mannau diogel i fenywod. Cafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth gyda'r Cynllun Gwyllo Tafarndai a gyda chyfraniad gan dros 100 o fangreoddedig risg uchel ledled ardal yr heddlu. Mae cyfranogwyr yn derbyn newyddion misol gan yr heddlu trwy gyfarfodydd y Cynllun Gwyllo Tafarndai. Cam nesaf y rhaglen hon yw codi ymwybyddiaeth mewn prifysgolion a cholegau. Bydd negeseuon cyfathrebu'n hybu ymgyrchoedd fel Mannau Mwy Diogel, atal sbeicio diodydd, a chynlluniau adrodd diogel fel 'Gofyn am Angela'.

Ymgyrch Aberford Dyfed-Powys

Ymgyrch gan Heddlu Dyfed-Powys oedd Ymgyrch Aberford, a oedd yn defnyddio swyddogion mewn dillad plaen ar batrôl i gadw golwg yn Aberystwyth. Cawsant eu defnyddio liw nos ac yng Ngŵyl Big Tribute. Nod yr ymgyrch oedd targedu a nodi ymddygiad rhywiol rheibus, gan alluogi'r heddlu i ymyrryd yn gynnar i atal troseddau cyn iddynt ddigwydd.

Cronfa Strydoedd Saffach

Lansiwyd Cronfa Strydoedd Saffach gan y Swyddfa Gartref yn 2020. Estynnir gwahoddiad i heddluoedd, awdurdodau lleol, Heddlu Trafnidiaeth Prydain a grwpiau cymunedol cymwys ledled Cymru a Lloegr gyflwyno ceisiadau am arian ar gyfer prosiectau lleol i atal trais yn erbyn menywod a merched yn gyhoeddus, troseddau yn y gymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfanswm y cyllid Strydoedd Saffach a sicrhawyd gan Plismona yng Nghymru yn ystod rowndiau 1 - 4 yw £9,209,499.40, allan o gronfa gyfan o £120m².

²Ffynhonnell - Gwefan Llywodraeth y DU

Arolygon Hyder y Cyhoedd


Mae arolygon hyder y cyhoedd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr, yn rhan o asesiad cyffredinol o berfformiad yr heddlu. Mae'r dyfyniadau isod o arolwg diweddar a gynhaliwyd ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru yn enghraifft o lefelau hyder mewn plismona, a cheir rhywfaint o ddata defnyddiol yn ymwneud â throseddau trais yn erbyn menywod.

Ffigur 1 – Lefelau hyder cyffredinol yn Heddlu Gogledd Cymru

Hyder

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor hyderus yn gyffredinol ydyn nhw yn Heddlu Gogledd Cymru. Mynegodd 86% o'r ymatebwyr hyder yn yr heddlu, ac roedd tua thri o bob deg (29%) yn hyderus iawn yn Heddlu Gogledd Cymru. Mae 14% yn mynegi ychydig o hyder yn Heddlu Gogledd Cymru, a dim ond 3% yn dweud nad oes ganddyn nhw unrhyw hyder o gwbl. Mae argraffiadau wedi codi ychydig o'i gymharu â chanfyddiadau 2022, ond nid yn sylweddol (86% o 84%), ac maent yn parhau i fod yn is na chanfyddiadau 2020.

Ffigur 1: Felly, yn gyntaf, pa mor hyderus ydych chi yn Heddlu Gogledd Cymru yn gyffredinol? (Pob ymateb)




Ffigur 2 – Canlyniadau Arolwg Trais yn erbyn Menywod yng Ngogledd Cymru

Trais yn erbyn menywod

Gan ganolbwyntio ar drais a throseddau yn erbyn menywod, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hargraffiadau ynghylch pa mor dda yr ymdriniodd Heddlu Gogledd Cymru â'r math hwn o droseddau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr o 1 i 5, lle nad yw 1 yn bwysig o gwbl a 5 yn bwysig iawn, o ran lefel pwysigrwydd ymateb Heddlu Gogledd Cymru i'r troseddau hyn. Yn gadarnhaol, ar gyfer pob mesur, sgôr o 5 (pwysig iawn), oedd y mwyaf cyffredin ar gyfer pob mesur yn y cwestiynau hyn, gan dynnu sylw at bwysigrwydd delio â'r mathau hyn o droseddau yn erbyn menywod. Hyd yn oed yn fwy cadarnhaol fyth, mae'r sgoriau pwysigrwydd cyfartalog naill ai wedi aros yr un fath neu'n wir wedi cynyddu o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan dynnu sylw at y ffaith bod materion yn dod yn bwysicach. Mae dod â throseddau o flaen eu gwell (89%) a chefnogi dioddefwyr i fod yn hyderus i adrodd am droseddau (85%) yn cael eu hystyried y pwysicaf ymhlith yr ymatebwyr.

Ffigur 17: Pa mor bwysig i chi yw pob un o'r ymatebion canlynol gan yr Heddlu i drais yn erbyn menywod a merched? (Pob ymateb)



Sylfaen y Sampl: 600

Ffigur 3 – Lefelau hyder yn Heddlu Gogledd Cymru i ddelio â throeddau trais yn erbyn menywod.


Hyder yn Heddlu Gogledd Cymru

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu lefelau hyder yn Heddlu Gogledd Cymru i ddelio yn effeithiol â seiberdroseidd ar-lein, trais yn erbyn menywod mewn troeddau cam-drin cyhoeddus a domestig. Gofynnwyd i'r ymatebwyr roi sgôr o rhwng 1 a 5, lle nad yw 1 yn hyderus o gwbl ac mae 5 yn hyderus iawn.

Yn gadarnhaol, dim ond cyfran fach o'r ymatebwyr oedd yn teimlo nad oedd ganddyn nhw hyder o gwbl yn yr heddlu o ran delio â'r troeddau hyn yn effeithiol. Y gyfran fwyaf yn nodi nad oedd ganddynt hyder oedd mewn perthynas â seiberdroseidd ar-lein (sgôr cyfartalog 3.20). Roedd gan y mesur hwn gyfran sylweddol lai o'r rheini hefyd yn teimlo'n hyderus iawn o'i gymharu â thrais yn erbyn menywod ac achosion cam-drin domestig (sgoriau cyfartalog o 3.63 a 3.55).

O'i gymharu â chanfyddiadau'r blynyddoedd blaenorol, mae sgoriau hyder cyfartalog wedi gostwng ym mhob mesur, yn fwyaf nodedig ymhlith delio â cham-drin domestig.

Ffigur 19: Pa mor hyderus ydych chi fod Heddlu Gogledd Cymru yn delio'n effeithiol â'r mathau canlynol o droeddau... (Pob ymateb)



Sylfaen y Sampl: 600

Hyfforddiant Gofyn i Fi

Ymgyrch gan Cymorth i Ferched Cymru yw'r prosiect 'Gofyn i Fi', sy'n rhan o'r rhaglen 'Newid sy'n Para'. Mae'r prosiect yn rhoi hyfforddiant a chymorth parhaus i aelodau'r gymuned i'w galluogi nhw i ddechrau siarad am gam-drin domestig, chwalu'r mythau a stereoteipiau sy'n normaleiddio ymddygiad niweidiol, a chyfeirio pobl at lefydd lle gallant dderbyn y cymorth a'r gefnogaeth gywir.

Mae'r prosiect yn derbyn cyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, Cyngor Abertawe a Waterloo Foundation. Mae cynnydd diweddar mewn cyllid wedi arwain at ehangu'r rhaglen i ogledd Cymru, ac mae'n uchelgais gan Cymorth i Ferched Cymru i sicrhau ei bod ar gael i bob cymuned yng Nghymru yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae hyfforddiant yn digwydd ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn lleoliadau yng Nghaerdydd a'r Fro, Castell-nedd a Phort Talbot, Abertawe, a Gogledd Cymru.

Datblygwyd hyfforddiant Gofyn i Fi trwy gydweithrediad helaeth gyda phobl sydd wedi goroesi cam-drin domestig.



Ian Roberts

Prif Uwch-arolygydd

Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman
Heddlu Gogledd Cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Brif Gwnstabl,

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn dilyn y sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth ychwanegol i ni sy'n ymwneud â'r canlynol:

- prosiect Mynd i'r Afael â Throseddau ar y Stryd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol Caerdydd, gan gynnwys manylion am yr effaith y mae'n ei chael;
- rhaglen waith Gwybod y Llinell, yn enwedig sut y mae'r Coleg Plismona'n bwrw ymlaen â hyn ac a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn wrth ddatblygu'r rhaglen genedlaethol newydd ynghylch hyn;
- rhaglen cyswllt rhwng ysgolion a'r heddlu, ac a oes gwerthusiadau wedi'u cynnal gan ystyried ei heffaith a'i heffeithiolrwydd;
- mentrau economi gyda'r nos, yn enwedig enghreifftiau o arfer gorau, a'u gweithrediad ar draws Cymru;
- ffigurau o'r arolygon cyhoeddus a gynhaliwyd ar draws Cymru sy'n ymwneud â hyder y cyhoedd yn yr heddlu.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light yellow background. The signature reads "Jenny Rathbone" in a cursive script.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Dafydd

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn ystod ein sesiwn, gwnaethoch nodi y gallech roi rhagor o fanylion i ni ynghylch hyfforddiant Holwch Fi, yn benodol a yw hyn yn cael ei ddarparu yng nghanolbarth Cymru a beth yw lefel y cyfranogiad gan oroeswyr fel rhan o'r hyfforddiant hwn.

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r swm a gafwyd ar draws Cymru fel rhan o'r Gronfa Strydoedd Diogelach.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Emma Wools
Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Emma


Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch nodi eich bod wrthi'n edrych ar raglen Rhybudd Rhag Cam-drin mewn Perthynas. A allech roi rhagor o fanylion am y rhaglen hon a'i gweithrediad yng Nghymru?

Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ffrwd waith "Mynd i'r afael â chyflawni trais" yn y Glasbrint, a rhan yr heddlu a'r comisiynwyr heddlu a throseddu yn y ffrwd waith honno. A allech nodi barn comisiynwyr heddlu a throseddu ynghylch a yw rhaglenni cyflawnwr yn effeithiol wrth atal trais ar sail rhywedd ac ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae heddluoedd ar draws Cymru yn ymgysylltu â'r rhaglenni hynny. Ym mha ffyrdd y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng Canolfannau Cymorth Cynnar gwasanaeth yr heddlu a rhaglenni cyflawnwyr yn y gymuned ac, ymhellach, a yw'r comisiynwyr heddlu a throseddu wedi darparu unrhyw gyllid i sefydliadau yng Nghymru ddarparu rhaglenni o'r fath?

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



RCGP response to Equality Committee Question on Violence Against Women and Girls August 2023

Question 1: How confident and well supported do the health professionals you represent feel in being able to identify violence against women, domestic abuse and sexual violence?

Our members reported that the quality of training they receive equips them to recognise the signs and complete the necessary onward steps, that come as part of the consultation, when faced with a vulnerable patient. However, they also report that once a situation has been identified they face barriers to accessing the help and support that the vulnerable patient needs.

One member writes: "There were numerous times, I have referred to social services with concerns regarding patient safety on domestic abuse (come across many ethnic minorities & refugee women here in Wales) and adult male preying on schoolgirl via social media (one case): I felt social workers responding didn't take my concerns as seriously as I would have liked, no feedback from social services as to how they dealt with these cases (an updated feedback from social services would've been very helpful; many times we only have one chance in saving these patients or protecting them from harm). With regards to the school that I had called up to inform regarding safeguarding concerns, I was completely blocked from discussing the case. They didn't get back to me."

While another states: "I don't feel particularly supported and working virtually (phone consults) often worry about the more subtle signs over the phone. I will message often other GPs for a take on the home situation only to find often that there is little or no link up with Health visitors. I will flag a concern with the surgery and the safeguarding/clinical lead but think we are missing training for that specific need of safeguarding for non-face -to -face patient contact in all its guises. "

These issues come as part of a wider problem in which we see a lack of communication between different entities such as a local authorities, schools and social services with primary care. This is further exacerbated by the inability to share data between these same services and between primary and secondary care.

The GP members quoted above show that while reinforcing the skill of identifying a vulnerable patient is important, training on this subject is only helpful to the patient, sitting in the consulting room, if that GP has the support of onward services. At the moment, this seems inconsistent across Wales.

Question 2: Have health professionals received the "Ask and Act" training? If so, how useful is it at helping your members feel confident to ask about these issues and about providing an appropriate response and referral?

While members who have received Ask and Act training find it useful, many members were not aware what it was or where they could access it. RCGP was not able to find clear guidance on how GPs should avail themselves of this training and would welcome further information to circulate to members.

Question 3: Please could you also set out your views on the quality of other training your members receive. What more needs to be done to ensure the professional response to support all victims of gender-based violence is consistent throughout Wales.

As above the Ask and Act training would be helpful. We are also aware that HEIW runs safeguarding training and that violence against women and girls forms part of that syllabus. This includes mandatory training and CPD events. More information on that course can be found [here](#). The College also holds its own CPD events, which reinforce skills GPs need to provide the best care to vulnerable patients including women and girls who have been exposed to violence.

As GPs are expert generalists training tends to be focused on looking for signs of vulnerability and safeguarding concerns in all groups including but not limited to women, children, the elderly, the migrant population, those experiencing homelessness and those with disabilities. Training therefore tends to convey skills which can be transferred to all these situations which GPs unfortunately commonly face. An example of such a CPD event run by RCGP Cymru Wales can be found [here](#).

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Rebecca Miller,

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Ceir rhagor o fanylion am ein gwaith hyd yma ar ein [gwefan](#).

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chymryd hyd yma yn awgrymu ei bod yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu dulliau iechyd y cyhoedd i atal trais ar sail rhywedd, gan gynnwys ymwybyddiaeth a hyfforddiant, er bod dealltwriaeth eang o'r mater. Fel y gwyddoch, mae "Gofyn a Gweithredu" yn bolisi gan Lywodraeth Cymru a weithredir drwy ganllawiau o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n ymdrin â phob math gwahanol o drais gan gynnwys cam-drin domestig ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau a ganlyn:

- Pa mor hyderus y mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol yr ydych yn eu cynrychioli yn teimlo, a pha mor dda yw'r gefnogaeth y maent yn teimlo eu bod wedi'i chael, wrth allu cydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?
- A yw gweithwyr iechyd proffesiynol wedi cael yr hyfforddiant "Gofyn a Gweithredu"? Os felly, pa mor ddefnyddiol ydy i helpu eich aelodau i deimlo'n hyderus i holi ynghylch y materion hyn ac i ddarparu ymateb priodol ac atgyfeiriad?
- A allech chi hefyd nodi eich barn am ansawdd yr hyfforddiant arall y mae eich aelodau yn ei gael? Beth arall y mae angen ei wneud i sicrhau bod yr ymateb proffesiynol i gefnogi pob dioddefwr trais ar sail rhywedd yn gyson ledled Cymru?

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J' and a long, sweeping underline.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Ann Lloyd CBE, Cadeirydd | Chair

☎ 01633 435 957

✉ Ann.Lloyd@wales.nhs.uk

Nicola Prygodzicz, Prif Weithredwr | Chief Executive

☎ 01633 435 958 🐦 CEOabuhb

✉ Nicola.Prygodzicz@wales.nhs.uk



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Eitem 6.11

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan
University Health Board

Our ref: **ABUHB 23-204**

Tuesday 29 August 2023

Jenny Rathbone MS | Chair of the Equality and Social Justice Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

Sent by email to: SeneddEquality@senedd.wales

Dear Jenny Rathbone MS

Inquiry into the public health approach to preventing gender-based violence

Aneurin Bevan University Health Board (the Health Board) welcomes the opportunity to respond to the Senedd Equality and Social Justice Commission's requests to set out what procedures the Health Board has in place for handling allegations of gender-based violence (GBV) raised by or against employees, and to provide views on the Inquiry's terms of reference.

The Health Board recognises GBV is a major public health issue which cuts across the whole of society as well as being a fundamental violation of human rights. Although primarily experienced by women, the Health Board recognises that men too can experience abuse. This should not be neglected in response and prevention efforts.

The Health Board values all its employees and acknowledges that they have a right to work in an environment that is safe, promotes equality, dignity at work and encourages individuals to treat each other with respect. Furthermore, the Health Board expects a high standard of behaviour from its employees, treating patients, their families, and the public with dignity and respect at all times. Safeguarding is part of this expectation and is everybody's responsibility. It is an integral component of providing high quality services. This is reflected in professional codes of conduct, the Health Board's Values and Behaviour Framework and in job descriptions.

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Cynllun Gweithredu tymor hir yn amlinellu sut y bydd yn blaenoriaethu newid tuag at fesurau ataliol sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n achosi tlodi ac anghydraddoldebau cyfoeth ac incwm. Dylai'r Cynllun Gweithredu gynnwys mesurau i helpu pobl i wella eu sefyllfa yn wyneb pwysau costau byw a gwella gwydnwch economaidd drwy fuddsoddi mewn meysydd fel ynni gwyrdd, sgiliau a diogeledd bwyd. Er mwyn llywio ei ddull gweithredu dylai wneud y canlynol:

- comisiynu gwerthusiad annibynnol, allanol o effaith economaidd y cymorth costau byw a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23;
- cynnal asesiad o i ba raddau y mae dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn cydbwysu mesurau rhagweithiol a rhai ymatebol i gefnogi'r broses o liniaru a lleihau tlodi.

Byddem yn disgwyl i'r gwaith paratoi gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023 ac i'r Cynllun Gweithredu gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2024 fan bellaf.

Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021-26](#) Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i diwygio yn unol â'r cytundeb cydweithio gyda Phlaid Cymru, yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn gweithredu ar ein blaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys camau i

gefnogi pobl sy'n agored i niwed; adeiladu economi gryfach, decach, a gwyrddach; ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur; diwygio addysg; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb; hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru; gwella'r lleydd rydyn ni'n byw; arwain sgwrs genedlaethol am ein dyfodol cyfansoddiadol; a chodi proffil Cymru yn y byd.

Rydym yn adrodd ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r ymrwymadau hyn yn ein Rhaglen Lywodraethu a'n hamcanion llesiant drwy [Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru](#). Mae [Adroddiad Llesiant Cymru](#) hefyd yn darparu asesiad blynyddol o'n cynnydd fel cenedl o ran cyflawni'r nodau llesiant tymor hirach.

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad yn manylu ar effaith ein polisiau i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ar incwm aelwydydd (nid yw'n ymddangos bod cyfeiriad at hyn yn adroddiad y pwyllgor).

Roedd yr adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o gymorth Llywodraeth Cymru yn 2022-23 ar gyfer aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan yr argyfwng costau byw yn ystod 2022-23. Mae'n dangos bod y rhaglenni allweddol - y Taliad Costau Byw o £150, Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru gwerth £200, a'r Gronfa Cymorth Dewisol - yn targedu'r rhai oedd angen cymorth fwyaf. Mae'r dadansoddiad yn dangos y disgwylid y byddai tua 75% o aelwydydd yn cael cymorth mewn rhyw ffordd. O'r rhai a gefnogwyd, byddai bron i ddwywaith cymaint yn mynd i'r aelwydydd hynny yn hanner gwaelod y dosbarthiad incwm o gymharu â'r rheini yn yr hanner uchaf, a theirgwaith cymaint i'r rheini yn y pumed isaf o gymharu â'r rheini yn y pumed uchaf.

O ran argymhelliad y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad o'r graddau y mae dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol yn cydbwysu mesurau rhagweithiol ac ymatebol i gefnogi'r broses o liniaru a lleihau tlodi, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried opsiynau ar gyfer sut y gellid cyflawni hyn.

Mae Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Llywodraeth Cymru yn nodi ein hamcanion tymor hirach ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, ac mae'n cynnwys ailedrych ar y cydbwysedd tuag at gamau ataliol mwy rhagweithiol. Lanswyd yr ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft ar 19 Mehefin 2023 gyda'r bwriad o gyhoeddi'r Strategaeth derfynol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r ymgynghoriad yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i geisio cyngor ymchwil annibynnol ar ddangosyddion tlodi cenedlaethol addas, darpariaeth data a fframwaith i fonitro ac arddangos atebolrwydd tryloyw wrth adrodd ar ein cynnydd tuag at drechu tlodi. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol ynghylch p'un a ydym yn taro'r nod. Mae sgysiau am y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn digwydd ar hyn o bryd.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio ein ffordd ymlaen ymhellach.

Rydym hefyd yn aros am argymhellion gan y Grŵp Arbenigol Costau Byw a fydd yn adrodd ym mis Gorffennaf ac a allai hefyd lywio'r opsiynau ar gyfer asesiad o'r fath.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd i helpu i leihau'r ddibyniaeth ar Daliadau Cymorth mewn Argyfwng gan aelwydydd y mae angen sawl taliad brys arnynt. Dylai hyn gynnwys cyhoeddi dadansoddiad terfynol o'r cymorth a ddarparwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23.

Ymateb: Derbyn

Mewn ymateb i bandemig Covid-19 a'r argyfwng costau byw sy'n parhau, mae'r Gronfa Cymorth Dewisol wedi bod yn hyblyg wrth addasu i ddiwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed yn ariannol yng Nghymru mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, yn ystod 2022/23 nododd rhanddeiliaid allweddol fod cael dwy set o reolau yn mynd yn ddryslyd, ac y croesewid dychwelyd i un set o reolau ar gyfer pob ymgeisydd. Mewn ymateb i'r adborth hwn, ers 1 Ebrill 2023, mae pob unigolyn sy'n gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol bellach yn gallu gwneud cais am hyd at dri Taliad Cymorth mewn Argyfwng o fewn cyfnod treigl o ddeuddeg mis. Bellach, dim ond saith diwrnod o fwllch sydd eu hangen rhwng taliadau (yn hytrach na bwlch o 28 diwrnod fel y pennwyd yn wreiddiol), ac mae gwerth y taliadau hefyd wedi cynyddu 11%. Mae cynnig taliadau gwerth uwch dros gyfnod byrrach yn darparu cymorth mwy dwys mewn cyfnod o argyfwng, gyda'r nod o leihau'r angen i ddychwelyd at y gronfa.

Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol yn parhau i weithio gyda Chyngor ar Bopeth Cymru, a chaiff yr ymgeiswyr sydd fwyaf agored i niwed yn ariannol eu cyfeirio at y Gronfa Cynghori Sengl am gyngor mwy cyfannol ynghylch gwneud y gorau o incwm, dyled a materion ariannol eraill.

Yn ystod 2022/23, gwnaed mwy na 557,000 o geisiadau i'r Gronfa Cymorth Dewisol, a gwnaed dros 355,000 o ddyfarniadau. O'r rhain, roedd mwy na 344,000 yn Daliadau Cymorth mewn Argyfwng, a ddarparwyd cyfanswm o dros £25m mewn grantiau.

Cyhoeddir nifer y ceisiadau a'r dyfarniadau yn fisol yn [nhabl StatsCymru ar gyfer Cronfa Cymorth Dewisol Cymru](#).

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i wneud y canlynol:

- cyhoeddi data wedi'u dadgyfuno yn ôl grŵp demograffig ar y nifer sy'n defnyddio'r Gronfa Cymorth Dewisol;
- cynnal asesiad o ba ddata ychwanegol wedi'u dadgyfuno y gall eu cyhoeddi ar gyfer grantiau prawf modd eraill y mae'n eu cynnig.

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y gwaith hwn erbyn diwedd mis Medi 2023.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd mae swyddogion polisi yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac NEC (y contractwr sy'n darparu'r Gronfa Cymorth Dewisol yng Nghymru) i ganfod pa ddata sydd ar gael ac ym mha ffurf y gellir eu cyhoeddi. Cyflwynir y wybodaeth i'r pwyllgor ym mis Medi.

Ar hyn o bryd mae cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn dadansoddi data'r Gronfa Cymorth Dewisol o 2022/23 fel sail i adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi yr haf hwn.

Ar gyfer grantiau prawf modd eraill, bydd cydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn ymchwilio i ymarferoldeb adolygu pa ddata y cynllunnir eu cyhoeddi eisoes, i nodi ble mae'r bylchau a beth arall y gallai fod yn bosibl ei ddarparu.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru droi ei gweledigaeth ar gyfer system fudd-daliadau Cymru yn realiti a mandadu dull cyson, Cymru gyfan o basbortio aelwydydd sy'n cael un o fudd-daliadau Cymru i fudd-daliadau eraill y maent yn gymwys i'w cael. Gan weithio gydag awdurdodau lleol, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, ac eraill, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith yn y maes hwn erbyn diwedd mis Medi 2023, ac anfon gwybodaeth reolaidd yn ei gylch ar ôl hynny.

Ymateb: Derbyn

Mae gweithio gyda phartneriaid fel y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Sefydliad Bevan yn rhan annatod o'n gwaith i symleiddio'r broses o ddarparu Budd-daliadau Cymru. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod grantiau/taliadau yn cael eu gweinyddu yn yr un ffordd, a hynny ar sail argymhellion adroddiad Policy in Practice a gomisiynwyd gan Sefydliad Bevan ac eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen cyflymu'r gwaith i symleiddio system Budd-daliadau Cymru er mwyn i aelwydydd wneud y gorau o'u hincwm a mynd i'r afael â thlodi yng ngoleuni'r argyfwng costau byw. Ni fu erioed yn bwysicach sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod beth mae ganddynt hawl iddo a sut y gallant fanteisio ar eu hawliau. Yn dilyn gwaith ymgysylltu pellach, ein nod yw cyhoeddi'r Siarter ar gyfer darparu Budd-daliadau Cymru erbyn diwedd y flwyddyn hon, a fydd yn ymgorffori'r cydymrwymiad i ddull cyson, tosturiol a chydlynol o ddarparu budd-daliadau datganoledig.

Byddwn yn harneisio'r dull cydweithredol y mae Awdurdodau Lleol a phartneriaid gweithredu eraill wedi'i roi ar waith dros y blynyddoedd diwethaf

wrth ymateb i'r pandemig a'r argyfwng costau byw, gan weithio'n gyflym i ddarparu gwasanaethau amhrisiadwy i bobl o grwpiau difreintiedig neu ar y cyrion, i roi'r egwyddorion hyn ar waith a chytuno ar ddull o symleiddio'r ffordd y gweinyddir budd-daliadau Cymru.

Byddwn yn darparu diweddariad pellach ar hyn ym mis Medi 2023, a bob dwy flynedd wedi hynny.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy cynaliadwy ac ataliol o fynd i'r afael â thlodi bwyd drwy gefnogi mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu i gyflawni nodau ehangach megis gwella sgiliau coginio mewn cymunedau lleol a darparu prydau iach. Er mwyn gwneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fapio'r ddarpariaeth bresennol o gymorth ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd yn ôl y math o gefnogaeth ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda'r bwriad o ddatblygu strategaeth fwy cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd ledled Cymru. Dylid cwblhau'r ymarfer mapio cychwynnol erbyn diwedd 2023 a'i rannu â'r Pwyllgor hwn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid tuag at brosiect Busnes Cymdeithasol Cymru sy'n rhoi cyngor arbenigol mewn perthynas â mentrau cymdeithasol ac yn gweithredu ochr yn ochr â Busnes Cymru. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn darparu gwasanaeth arbenigol cydweithredol pwrpasol ar gyfer mentrau cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Gweithredu a'r Weledigaeth ddeng mlynedd, 'Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol'. Mae hyn yn cynnwys cymorth busnes un-i-un i fusnesau cymdeithasol cymwys newydd ac sy'n tyfu, cymorth pwrpasol ar gyfer perchnogaeth gan y gweithwyr a chymorth mentora cymheiriaid.

Ym mis Rhagfyr 2022, darparodd Llywodraeth Cymru £2.5 miliwn i helpu i ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'r cyllid yn helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd drwy gefnogi ymdrechion i gydgyssylltu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â bwyd ar lawr gwlad.

Mae'n cefnogi cydweithio rhwng y partneriaethau bwyd, awdurdodau lleol, a phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, cyrff sector cyhoeddus, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau a sefydliadau academaidd, a sefydliadau megis cymdeithasau tai a gwasanaethau cynghori i sefydlu partneriaeth amlasiantaethol. Mae manteisio ar gymorth ac arbenigedd lleol yn helpu'r partneriaethau i ddeall a mynd i'r afael ag angen lleol, sicrhau effeithiolrwydd mwyaf posibl prosiectau, a sicrhau bod adnoddau yn targedu'r meysydd lle mae'r angen mwyaf.

Yn annibynnol ar gyllid Llywodraeth Cymru, mae naw o'r partneriaethau bwyd presennol eisoes wedi ennill statws [Lleoedd Bwyd Cynaliadwy](#) ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithgarwch yn eu hardaloedd. Mae'r cyllid yn cefnogi'r partneriaethau hyn i ddatblygu eu gwaith ac mae'n helpu partneriaethau newydd i ymgymryd â gwaith mapio, gwneud cysylltiadau a gwneud y gwaith sylfaen sydd ei angen i helpu i ddatblygu partneriaeth.

Mae ymddangosiad nifer o sefydliadau bwyd cymunedol annibynnol - yn enwedig mewn ymateb i gynnydd yn y galw am fwyd brys o ganlyniad i'r pandemig a'r argyfwng costau byw - wedi arwain at ddarlun sy'n newid o ran gweithgarwch bwyd, un sy'n gyfnewidiol, ond hefyd heb ei gydgysylltu'n gryf. Un o anawsterau mapio'r ddarpariaeth bresennol o ran cymorth i fynd i'r afael â thlodi bwyd yw bod angen diweddarau'r map yn barhaus.

Mae gan y partneriaethau bwyd lleol fwy o gapasiti ac maent mewn sefyllfa well na Llywodraeth Cymru i nodi a mapio gweithgarwch sy'n gysylltiedig â bwyd yn eu hardaloedd, a fydd yn eu cefnogi i ddeall a mynd i'r afael ag angen lleol mewn ffordd strategol, gydgysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar ffynonellau cyllid a all helpu i feithrin gallu partneriaethau bwyd lleol ymhellach i sicrhau bod ganddynt ddarlun cywir bob amser o'r gweithgarwch yn eu hardaloedd trwy eu rhwydweithiau. Fel partner gweithredu Lleoedd Bwyd Cynaliadwy yng Nghymru, bydd Synnwyr Bwyd Cymru yn cynnal gwerthusiad o effaith y cyllid ar y partneriaethau bwyd.

Mae sylfaen dystiolaeth hefyd wedi'i datblygu ar gyfer y Strategaeth Bwyd Cymunedol sy'n nodi ystod eang o weithgarwch yn gysylltiedig â bwyd ledled Cymru. Mae gan y Strategaeth Bwyd Cymunedol y potensial i ddarparu llawer o fanteision cymdeithasol amrywiol a all wella sefyllfa pobl, gan gynnwys manteision economaidd, adfywio cymunedau lleol, gwella lles a iechyd meddwl a chorfforol, a manteision o ran yr amgylchedd a chynaliadwyedd i'r dyfodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r dull a fabwysiadwyd yn Sir y Fflint, o droi llety gwarchod yn Ganolfannau Clyd, ymhlith awdurdodau lleol eraill drwy ymgysylltu â'r arweinwyr lleol. Dylid bwrw ati mewn da bryd cyn gaeaf 2023-24.

Ymateb: Derbynn

Rydym yn ymwybodol bod rhai Awdurdodau Lleol yn parhau i adeiladu ar y cysyniad o Ganolfannau Clyd, gan ddarparu gwasanaethau mewn mannau cyffredin trwy'r gwanwyn/haf, ac rydym yn gweithio gyda nhw i werthuso effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn. Er mai cyllid Llywodraeth Cymru a gefnogodd y broses o ddatblygu cysyniad y Canolfannau Clyd, mae'n rhaid cydnabod, a dros 800 o ganolfannau clyd yn gweithredu ar ryw ffurf neu'i

gilydd yn ystod gaeaf 22/23, bod y cysyniad yn un a ddatblygwyd yn wirioneddol ar lefel leol yn ôl anghenion ac amgylchiadau lleol. Bydd Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn parhau i edrych ar yr arferion gorau ac i hyrwyddo'r arfer o ledaenu a mabwysiadu'r rhain lle bo hynny'n briodol.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 8

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati ar frys i egluro nifer o faterion sy'n ymwneud â disodli'r Rhaglen Cartrefi Clyd gan gynnwys:

- pam mae'r gwaith o ddatblygu Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn destun oedi;
- a yw'n bwriadu gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r rhaglen Nyth bresennol gan ei bod bellach wedi'i hystreyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2024;
- a fydd y rhaglen newydd yn cynnwys elfen yn seiliedig ar ardaloedd, ac os felly, a fydd hyn yn dechrau ddiwedd y gaeaf.

Ymateb: Derby

Y Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am y Rhaglen Cartrefi Clyd. Mae datblygu'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd wedi golygu cyfnewid darnau enfawr o dystiolaeth ar ffurf adroddiadau Pwyllgor, ymgynghoriad ffurfiol a phrofiad o weithredu cynlluniau tlodi tanwydd ers dros ddegawd. Mae'r argyfwng costau byw presennol hefyd wedi dylanwadu ar y broses. Mae angen i unrhyw gynllun i'r dyfodol adlewyrchu system ynni ddiwygiedig. Rhaid iddo hefyd gydbwysu'r rheidrwydd i leihau tlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon ar yr un pryd, a darparu ysgogiad i farchnadoedd carbon isel a sgiliau cysylltiedig. Felly, mae nifer fawr o opsiynau wedi'u dadansoddi i sicrhau bod y cynllun newydd yn cydbwysu ystod o amcanion.

Cyhoeddwyd rhagor o fanylion am sail polisi'r cynllun newydd ar 14 Mehefin 2023. Bydd y cynllun newydd yn ymateb i'r galw gan mwyaf, ond ni fydd hyn yn golygu na fyddwn yn gweithredu ar sail ardal, mewn partneriaeth â llywodraeth leol. Mae disgwyl i'r cynllun gael ei roi ar waith y gaeaf hwn.

Yn y cyfamser, mae cynllun presennol Cartrefi Clyd Nyth yn gwneud gwaith ardderchog i helpu nifer fawr o aelwydydd i leihau eu hallyriadau a'u biliau ynni. Rydym wedi gwneud newidiadau i'r cynllun presennol, megis darparu mwy o baneli ffotofoltaig solar a batris, ond nid oes cynlluniau i wneud newidiadau pellach.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa drafodaethau y mae wedi'u cael ag Ofgem i leisio ei phryderon y byddai ailddechrau'r arfer o orfodi aelwydydd i gael mesuryddion rhagdal yn dilyn adolygiad Ofgem o fesuryddion rhagdal yn rhoi

amddiffyniad annigonol i aelwydydd sy'n agored i niwed. Dylai hefyd nodi manylion unrhyw gamau pellach y bydd yn eu cymryd i amddiffyn grwpiau o gwsmeriaid sy'n agored i niwed. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am waith yn y maes hwn ac adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Medi 2023.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip wedi cwrdd ag Ofgem a chyflenwyr ynni yn aml yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd y cyfarfod diweddaraf ag Ofgem ar 26 Ebrill i drafod Cod Ymarfer newydd Ofgem, a gyhoeddwyd ar 18 Ebrill.

Mae'r Gweinidog wedi codi pryderon ynghylch cynlluniau Ofgem i godi'r gwaharddiad ar orfodi aelwydydd i gael mesuryddion. Er bod diweddarau'r Cod yn gam i'w groesawu, pwysodd y Gweinidog ar Ofgem i fynd ymhellach o lawer i amddiffyn aelwydydd sy'n agored i niwed, a phwysleisiodd fod yn rhaid i'r Cod fod yn orfodol ac yn amod rhoi trwydded i gyflenwyr. Mae'r Gweinidog hefyd wedi pwysleisio bod yn rhaid i ddeiliaid tai sydd wedi'u gorfodi yn ddiweddar i ddefnyddio mesurydd rhagdalau gael cynnig y cyfle i ddychwelyd eu mesurydd heb gost.

Mynegodd y Gweinidog bryderon hefyd, o gyflwyno'r Cod, y gallai cyflenwyr ynni ailgychwyn gorfodi aelwydydd i gael mesuryddion rhagdalau, a phwysleisiodd bod yn rhaid sicrhau na fyddwn yn gweld y broses o ganiatáu gwarant gyffredinol i'w gosod yn dechrau eto, fel ag a welwyd o'r blaen.

Rhaid inni sicrhau bod gan Ofgem y pŵer a'r ewyllys rheoleiddiol i sicrhau bod cyflenwyr ynni yn amddiffyn yr aelwydydd mwyaf agored i niwed yn hytrach na dibynnu ar gyflenwyr ynni i stopio.

Mae Ofgem wedi cynnig eu cefnogaeth i alwad Llywodraeth Cymru am dariff cymdeithasol ac i gasglwyr dyledion a gyflogir gan gyflenwr ynni gael eu hachredu gan y Bwrdd Ymddygiad Gorfodi (ECB).

Mewn llythyr gan Neil Kenward, Cyfarwyddwr Strategaeth Ofgem ar 15 Mai, cadarnhaodd fod Ofgem wedi annog cyflenwyr i geisio achrediad allanol yr ECB ar gyfer cynrychiolwyr sy'n delio â chasglu dyledion. Fodd bynnag, gan nad ydynt yn rheoleiddio'r cwmnïau hyn, dim ond y cyflenwyr, ni allant orfodi achrediad.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi galw ar Lywodraeth y DU i ddilyn yr enghraifft a osodwyd gan y diwydiant dŵr, lle mae cwmnïau yn cael eu gwahardd gan y gyfraith rhag datgysylltu neu gyfyngu cyflenwadau dŵr i aelwydydd sydd yn eu dyled.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 10

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy'n manteisio ar ei Chynllun Talebau Tanwydd yn unol ag argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor hwn ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 cyn gynted ag y bydd y wybodaeth hon ar gael.

Ymateb: Derbyn

Yn 2022-23, ariannodd Llywodraeth Cymru y Sefydliad Banc Tanwydd i gyflwyno Cynllun Talebau Tanwydd a Chynllun Cronfa Wres cenedlaethol yng Nghymru a fyddai'n ymateb i'r galw, i gefnogi cwsmeriaid a oedd yn ei chael yn anodd talu ymlaen llaw am eu tanwydd. Roedd hyn yn cynnwys cyllid i ddatblygu ei rwydwaith partneriaid yng Nghymru yn sylweddol.

Ers mis Awst 2022, tan ddiwedd mis Mawrth 2023, mae'r Sefydliad Banc Tanwydd wedi adeiladu ar ei 8 partner atgyfeirio gwreiddiol i ddatblygu rhwydwaith o 101 o bartneriaid, sydd wedi cynyddu capasiti pob ardal awdurdod lleol yn sylweddol i wneud atgyfeiriadau a darparu cyngor a chefnogaeth. Ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd 46 o sefydliadau eraill wrthi'n hyfforddi ac yn paratoi i lansio.

Hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd y Sefydliad Banc Tanwydd wedi rhoi 19,561 o dalebau i gefnogi aelwydydd na allent fforddio rhoi mwy o arian yn eu mesuryddion rhagdalau. Cafodd 200 o aelwydydd eraill gymorth i brynu tanwydd oddi ar y grid. Mae'r ymyriadau hyn wedi cefnogi dros 50,000 o bobl, 43% ohonynt yn blant.

Roedd nifer y talebau tanwydd a ddyrannwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil datblygu'r rhwydwaith partneriaid atgyfeirio. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, defnyddiwyd gweddill yr arian i brynu talebau mesuryddion rhagdalau, a rennir yng Nghymru drwy gydol 2023 yn ôl y galw.

Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd y gallai'r Sefydliad Banc Tanwydd gynnal peilot i brynu blancedi gwres fel dull amgen o gefnogi pobl mewn tldi tanwydd. Nod y peilot oedd cynhesu'r person, yn hytrach na'r cartref, a gwelwyd 968 flancedi gwres wedi'u dyrannu i gartrefi yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd mewn perthynas ag argymhellion 1, 3, 4, 5, a 7 o'n hadroddiad yn 2021 ar ddyled a'r pandemig a ddylai gynnwys, lle bo'n berthnasol, unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

Gwnaed yr argymhellion canlynol yn adroddiad y Pwyllgor ar Ddyled a'r Pandemig yn 2021. Darperir sylwebaeth fer ar y cynnydd o ran gweithredu. (Cynhwyswyd hyn yn Atodiad 4 yr Adroddiad.)

Ymateb: Derbyn

Argymhelliad 1

Dylai uned data cydraddoldeb Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau yn y sector i gasglu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru gan ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2022-23, a dadansoddi'r data hynny yn ôl nodweddion gwarchoddedig.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Statws

Wedi'i nodi yn y ddogfen blaenoriaethau uned data cydraddoldeb 2022-27, ond yn aros am fanylion pellach. **Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.**

Y diweddaraf

Cafodd archwilio ymarferoldeb coladu a chyhoeddi data blynyddol ar ddyled yng Nghymru, yn ôl nodweddion gwarchoddedig ei gynnwys yn y rhestr flaenoriaethau a gyhoeddwyd gan Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried fel rhan o broses flynyddol yr Unedau Tystiolaeth o gynllunio a blaenoriaethu gyda swyddogion polisi. Bydd hyn yn penderfynu pa brosiectau, o'r rhestr flaenoriaethau, fydd y rhai mwyaf dylanwadol ac ymarferol, ac a oes cyllid ar gael i ddechrau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Fel rhan o'r ymarfer dichonoldeb, bydd yr Unedau Tystiolaeth yn cydweithio â swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac Is-adran Tystiolaeth a Chymorth Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant ar y llinynnau gwaith perthnasol yn y maes hwn. Er enghraifft, mae tîm ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn cydweithio â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar elfen Cymru o'r Arolwg o Adnoddau Teulu. O fis Mawrth 2024, byddwn yn cael ein data cyntaf am flwyddyn gyfan lle cafodd nifer fwy eu holi yng Nghymru, sy'n golygu y bydd nifer uwch o unigolion wedi ymateb, gan roi gwell cyfle inni ddadansoddi ymhellach bynciau fel dyled. Yn gyffredinol, rydym yn rhagweld y dylai'r data hyn ei gwneud yn haws dadansoddi data mewn ffordd fwy dibynadwy, yn ôl nodweddion gwarchoddedig, dros y blynyddoedd nesaf. Bydd yr Unedau Tystiolaeth yn cydweithio â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi i sicrhau bod tystiolaeth ynghylch dyled yn cael ei chydlynu ar draws y sefydliad.

Argymhelliad 3

Yn ei hymateb, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa fesurau ychwanegol y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo gwasanaethau cyngor ar ddyled i grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd mewn mwy o berygl o fynd i ddyled, er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt.

Ymateb: Derbyn

Statws

Angen edrych eto arno yn wyneb pwysau costau byw – gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

Y diweddaraf

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Gronfa Gyngori Sengl ym mis Ionawr 2020 er mwyn sicrhau ei bod yn rhoi arian i wasanaethau cyngori integredig sy'n adnabyddus, ac sydd ar gael i bobl o gymunedau difreintiedig ac sydd ar y cyrion. Ers i'r Gronfa gael ei chyflwyno ym mis Ionawr 2020 (hyd fis Mawrth 2023), mae ei gwasanaethau wedi helpu mwy na 200,000 o bobl i fynd i'r afael â dros 920,000 o broblemau o ran lles cymdeithasol. Cawsant gymorth i hawlio incwm ychwanegol gwerth £116.6 miliwn a chafodd dyledion gwerth £30.7 miliwn eu dileu.

Mae model darparu gwasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl, sy'n cynnwys Partneriaid Cyngori a Mynediad, yn parhau i fod yn ffordd hynod lwyddiannus o ddefnyddio arbenigedd sefydliadau cenedlaethol a lleol o ran cyrraedd y bobl fwyaf anghenus. Mae'r wybodaeth rheoli perfformiad yn dangos bod dros 80% o bobl a ddefnyddiodd un o wasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn perthyn i un o'r grwpiau blaenoriaeth sy'n cael eu taro galetaf gan yr argyfwng costau byw, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl, a phobl o'r Cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Bydd swyddogion yn parhau i gefnogi sefydliad arweiniol y Gronfa Gyngori Sengl i ehangu eu rhwydweithiau Partneriaid Mynediad i gynnwys mwy o sefydliadau a all dargedu grwpiau poblogaeth allweddol.

Yn ystod y cyfnod rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei thrydedd ymgyrch genedlaethol i annog pobl i hawlio budd-daliadau, sef Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi. Gwelwyd ffrwydradau proffil uchel o negeseuon creadigol ar ystod o gyfryngau, gan gynnwys teledu, radio, papurau newydd, taflenni, negeseuon post a digidol ac ati. Dim ond rhan o'r daith i sicrhau arian ychwanegol yn y boced yw codi ymwybyddiaeth. Mae angen cymorth ymarferol ar lawer o bobl hefyd, ac felly un o negeseuon canolog yr ymgyrch oedd y dylai pobl gysylltu ag Advicelink Cymru lle, ynghyd â chymorth i hawlio budd-daliadau lles, gallai pobl hefyd gael cyngor ar ddyledion.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau diwygiedig o fewn y tri mis nesaf i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, er mwyn sicrhau eu bod ar waith ymhell cyn y cynnydd nesaf i'r cap ar brisiau ynni a fydd yn dod i rym o fis Ebrill 2022.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Statws

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Tanwydd ym mis Mawrth 2021 ac mae ymateb y Llywodraeth yn nodi ei bod yn

bwriadu ei adolygu bob dwy flynedd, sy'n golygu bod adolygiad yn hwyr - gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

Y diweddaraf

Mae'r argyfwng costau byw, sy'n cael ei yrru i raddau helaeth gan brisiau ynni, wedi rhoi mwy byth o ffocws ar y **camau gweithredu** sy'n ofynnol i helpu aelwydydd mewn tlodi tanwydd. Er enghraifft, bwriad datblygu rhaglen Cartrefi Clyd newydd â gwasanaeth cyngor ynni cysylltiedig yw canolbwyntio'r gefnogaeth ar gyfer y rhai lleiaf cefnog yn y cartrefi lleiaf thermol-effeithlon. Cynhelir adolygiad o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Tanwydd maes o law, er mwyn dysgu gwersi o'r prisiau ynni digynsail a welsom yn ystod y deunaw mis diwethaf. Yn y cyfamser, bydd ymdrechion Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gamau y gallwn eu cymryd nawr.

Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder yn ei Chyllideb Ddrafft ynglŷn â sut y bydd yn dyrannu digon o arian hyd at 2024-25 i gyflymu cynlluniau i sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn cyrraedd Sgôr Effeithlonrwydd Ynni A i liniaru'r cynnydd mewn tlodi tanwydd o ganlyniad i gostau ynni sy'n cynyddu.

Ymateb: Derbynn

Statws

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Safon Ansawdd Tai Cymru newydd ym mis Mai-Awst 2022 ond ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau pellach, gan gynnwys ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

Y diweddaraf

Yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu dwys â'r sector, rydym yn disgwyl cyhoeddi Safon Ansawdd Tai newydd Cymru yr hydref hwn. Eifen allweddol o'r safon newydd fydd uchelgais beiddgar i godi effeithlonrwydd ynni ein stoc tai cymdeithasol i'r lefel uchaf bosibl. Drwy Ofynion Ansawdd Datblygu Cymru (cartrefi cymdeithasol newydd) a Safon Ansawdd Tai Cymru (cartrefi cymdeithasol presennol), rhaid i bob tŷ cymdeithasol newydd fod â thystysgrif perfformiad ynni A neu safon gyfatebol bellach, a rhaid bod gan dai cymdeithasol presennol Lwybr Ynni pwrpasol gyda'r nod o sicrhau tystysgrif perfformiad ynni A erbyn 2033 neu erbyn dyddiad ar ôl 2033 a awdurdodir gan Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr tai cymdeithasol gynnal asesiad o'u stoc gyfan, gan nodi'r sgôr bresennol ar gyfer cynhesrwydd fforddiadwy ac allyriadau carbon ar draws y stoc, a byddwn yn gofyn am lwybr ynni pwrpasol ar gyfer pob cartref. Mae'r dull

hwn yn cael ei gefnogi a'i atgyfnerthu gan ofynion cam 3 y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Gyda'i gilydd, mae'r dyraniadau cyllideb ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru a'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn dod i ryw £200m yn 2023/24 a 2024/25.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb cyflwyno 'coelcerth dyledion' mewn perthynas ag agweddau ar ddyled sector cyhoeddus, gan ddefnyddio tystiolaeth o Gymru a thu hwnt, a dylai ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'i chasgliadau erbyn diwedd Mehefin 2022.

Ymateb: Derbyn

Statws

Wedi'i gwblhau'n rhannol - mae gwaith ymchwil gan Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru wedi'i rannu â'r Pwyllgor ym mis Mehefin gyda diweddariad pellach ym mis Tachwedd 2022. Tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at yr adolygiad ansolfedd gan Wasanaeth Ansolfedd Llywodraeth y DU sydd i fod i gyflwyno adroddiad yn 2023. Gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf.

Y diweddaraf

Mae'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn dal i ystyried beth maent am ei wneud, ac nid ydynt eto wedi cyhoeddi'r ymateb i'w hymgyngoriad ar ddiffyg cyllidebol. Ni chyhoeddwyd chwaith ganlyniad cais y Gwasanaeth Ansolfedd am dystiolaeth ar addasrwydd yr opsiynau ffurfiol sydd ar gael i bobl yng Nghymru (a Lloegr) sydd mewn dyled. Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r Gwasanaeth Arian a Phensiynau a'r Gwasanaeth Ansolfedd.

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ei fod yn gosod gwaharddiad ar gwmnïau sy'n derbyn ffioedd atgyfeirio gan ddarparwyr datrys dyled. Wrth gyflwyno'r gwaharddiad, mae'r Awdurdod yn nodi, er bod cwmnïau yn ennill arian o'r ffioedd a delir pan gaiff pobl eu cyfeirio at Ymarferydd Ansolfedd ar gyfer Trefniant Gwirfoddol Unigol, fod opsiynau eraill, fel Gorchmynion Rhyddhau o Ddyled (lle caiff dyledion eu dileu) nad ydynt yn darparu unrhyw ffioedd i asiant atgyfeirio, yn fwy addas i lawer o bobl. Mae cyhoeddiad yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cael ei groesawu, a bydd yn sicrhau bod mwy o bobl yng Nghymru yn cael manteisio ar yr opsiwn gorau iddyn nhw o ran eu dyled.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 12

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru i fonitro lefel y galw am gyngor ar ddyled a chyngor arall o dan y Gronfa Gyngori Sengl ac ymrwymo i adolygu'r dyraniadau cyllid yng Nghyllideb Ddrafft 2023-24 os oes

angen. Dylid darllen yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 3 o'n hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyrannu cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori yn ôl yr angen a aseswyd. Bydd dadansoddiad annibynnol o'r angen am gyngor lles cymdeithasol (gan gynnwys ar broblemau dyled) ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2023. Bydd yr ymchwil hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth gyfredol a chadarn o'r angen i lywio dyraniad unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cynghori yn y dyfodol. Rydym hefyd yn cynnal gwerthusiad o'r Gronfa Gyngori Sengl gan ei bod yn bwysig penderfynu'n wrthrychol a yw ei nodau allweddol yn cael eu cyflawni, a dysgu gwersi o'r ffordd yr ymatebodd gwasanaethau i bandemig Covid19 ac, yn fwy diweddar, i'r argyfwng costau byw.

Bydd swyddogion hefyd yn parhau i weithio gyda Cyngor ar Bopeth Cymru, sefydliad arweiniol y Gronfa Gyngori Sengl, i fonitro lefelau'r galw ac ystyried mesurau y gellid eu rhoi ar waith i gyrraedd pobl mewn angen i'w helpu i ymdopi trwy'r argyfwng, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i helpu gwasanaethau cynghori i ymdopi'n well â'r cynnydd yn y galw.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y Gronfa Gyngori Sengl yn cael ei defnyddio ar gyfer gwasanaethau sy'n targedu'r bobl fwyaf anghenus. Mae'n hanfodol bod cyllidwyr eraill gwasanaethau cynghori yn chwarae eu rhan gan nad oes modd disgwyl i Lywodraeth Cymru ariannu gwasanaethau i ddiwallu'r holl angen am gyngor yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 13

Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda chynghorau i roi sylw i'r diffygion a nodwyd yn yr adolygiad o'r Protocol Treth Gyngor, ynghyd â phryderon rhanddeiliaid fel y'u hamlygwyd gan y Pwyllgor hwn, fel rhan o'i rhaglen ddiwygio ehangach. Dylai hyn gynnwys rhoi Protocol cryfach ar sail statudol. Dylid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn gyflym a rhoi diweddariad i'r Senedd cyn diwedd mis Medi 2023.

Ymateb: Derbyn

Yn dilyn cyhoeddi'r gwerthusiad o ymyriadau mewn perthynas â'r dreth gyngor a oedd yn cynnwys adolygiad o'r protocol treth gyngor, mae swyddogion eisoes wedi sefydlu cyfres o weithgorau gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid trydydd parti i fwrw ymlaen â'r argymhellion: mae hyn yn cynnwys adolygu dyledion a chasgliadau'r dreth gyngor. Bydd hyn yn golygu adolygu'r prosesau gorfodi presennol a datblygu cynigion polisi i ddiwygio deddfwriaeth i ddileu'r gofynion i wneud unigolyn yn atebol am falans blynyddol eu bil treth gyngor os methir un taliad. Bydd hyn hefyd yn cynnwys

adolygiad o'r protocol treth gyngor ac ystyried opsiynau polisi i gryfhau'r protocol a'i wneud yn statudol. Bwriad y mesurau hyn yw canolbwyntio camau gweithredu awdurdodau lleol ar ddarparu cefnogaeth i ddinasyddion agored i niwed fel rhan annatod o gasglu taliadau.

Goblygiadau Ariannol – Dim i Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Bydd y cynigion polisi yn ystyried a allai diwygio Rheoliadau greu goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol.

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y bydd yn eu cymryd yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 i godi ymwybyddiaeth o undebau credyd a hyrwyddo credyd fforddiadwy, gan gynnwys y nodau a'r disgwyliadau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Benthyciadau Di-Log ar raddfa fwy eang. Dylid rhoi'r diweddariad hwn cyn i'r broses o'i gyflwyno ar raddfa fwy eang ddechrau ym mis Mehefin 2023.

Ymateb: Derby

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i Undeb Credyd Cambrian tan 31 Mawrth 2026 i gyflwyno ymgyrch farchnata genedlaethol ar ran Undebau Credyd Cymru, gan godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, gan gynnwys credyd fforddiadwy.

Mae cyllid pellach ar gael tan 31 Mawrth 2026 i hyrwyddo Moneyworks Wales [Money Works \(moneyworkswales.com\)](http://Money Works (moneyworkswales.com)), sy'n gydweithrediad o saith undeb credyd i gefnogi lles ariannol gweithwyr Cymru.

Mae'r Cynllun Benthyciadau Di-Log wedi cynyddu ers lansio Credyd Cymdeithasol Cymru ddiwedd mis Rhagfyr 2022. Mae'n parhau i fod ar y trywydd iawn i ddarparu'r benthyciadau y cytunwyd arnynt erbyn mis Awst 2024. Yn ogystal â benthyciadau'r Cynllun Benthyciadau Di-Log trwy Gredyd Cymdeithasol Cymru a Fair for You, mae trydydd benthyciwr, Salad Money, i fod i ddechrau benthycia yng Nghymru o fis Gorffennaf 2023.

Mae Purple Shoots yn gyfrifol am ehangu'r atgyfeiriadau i Gredyd Cymdeithasol Cymru, a'r disgwyl yw y bydd y llwybrau atgyfeirio hyn yn dechrau yn ystod mis Awst 2023. Gan mai pilot sy'n profi'r cynnyrch yw hwn, mae Fair4All Finance yn gweithio'n agos gyda phob un o fenthycwyr y Cynllun Benthyciadau Di-Log i adolygu'r lefelau. Mae tîm dealltwriaeth o ymddygiad wedi'i gomisiynu i helpu benthycwyr i sicrhau budd mwyaf yr atgyfeiriadau ac, yn ogystal, fel rhan o broses y Cynllun Benthyciadau Di-Log, bydd rhai cwsmeriaid yn derbyn hyfforddiant ariannol i wella eu sefyllfa yn y tymor hirach.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Caiff y costau eu talu o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

12 Gorffennaf 2023

Canllawiau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am eich llythyr diweddar ar addysg ddewisol yn y cartref, dyddiedig 2 Mehefin, yn rhoi eglurder o ran amserlenni ar gyfer y rheoliadau drafft a'r Llawlyfr i rai sy'n Addysgu yn y Cartref. Gwnaethom ystyried y llythyr hwn yn ein cyfarfod ar 14 Mehefin.

Yn y cyfarfod hwn, gwnaethom hefyd ystyried gohebiaeth gan nifer o bobl a oedd yn mynegi pryderon am y canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar addysg ddewisol yn y cartref. Trafodwyd y rhain yng nghyd-destun eich datganiad diweddar ar y canllawiau a wnaed yn y Cyfarfod Llawn.

Fel y gwelwch o'r copïau amgaeedig, mae rhai o'r ceisiadau y tu allan i bwerau neu gylch gwaith unrhyw un o bwyllgorau'r Senedd. Gofynnodd ambell un a fu'n gohebu â ni ein bod yn edrych ar gyfreithlondeb y canllawiau, ond fel y gwyddoch, mater ar gyfer y llysoedd yw cyfreithlondeb. Tra bod eraill wedi gofyn i'r Pwyllgor neu'r Senedd oedi cyn gweithredu'r canllawiau nes bod rhagor o waith craffu wedi'i gyflawni. Fel y gwyddoch hefyd, nid yw hwn yn bŵer sydd ar gael naill ai i'r Senedd nac i un o bwyllgorau'r Senedd. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eich barn ar y materion eraill a godwyd gan rhai a fu'n gohebu â ni.

Cytunwyd y bydd materion yn ymwneud â theuluoedd yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond symud i addysg yn y cartref oherwydd diffyg cefnogaeth gywir o fewn y system ysgolion yn cael eu hystyried yn ein dau ymchwiliad perthnasol. Yr ymchwiliadau hyn yw: [A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#); a [Gweithredu diwygiadau addysg](#).

Yn benodol, hoffem dynnu eich sylw at y sylwadau am y broses ymgynghori a'r broses ymgysylltu mewn cysylltiad â datblygu'r canllawiau (gweler, er enghraifft, gyflwyniadau 3, 15 a 24.) Rydym yn

pryderu nad oedd y rhai a ysgrifennodd atom yn teimlo bod eu lleisiau na'u profiadau wedi cael gwrandawriad fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau hyn. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'w pryderon. Pa waith pellach y gellir ei wneud, neu y bwriedir ei wneud, i helpu i wella perthnasoedd rhwng y rhai sydd yn addysgu yn y cartref sy'n teimlo'n gryf am y canllawiau newydd â Llywodraeth Cymru?

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 14 Medi.

Rwy'n copio'r llythyr hwn at gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; a chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gan fy mod yn credu eu bod hwythau wedi cael gohebiaeth debyg.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Wedi'i hatodi: Gohebiaeth ynghylch addysg ddewisol yn y dartref

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Gohebiaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch canllawiau ar addysg ddewisol yn y cartref.

Correspondence submitted to the Children, Young People and Education Committee regarding guidance on elective home education.

Cyflwyniad / Submission 1

I am writing with regards to the new home education guidance that has been published on Friday.

As a home educating parent in Wales, I am deeply concerned about the new guidance, as is every home educator we know. The new regulations are very intrusive and the wording of the guidance is very negative towards home education, which will not help to develop positive working relationships between parents and the LA. The new guidance is disproportionate. There is no evidence that home educated children are at risk, and the millions of pounds that this intrusive monitoring is proposing is a complete waste of money, which I am sure could be much better used to improve the quality of children's lives and education.

Please see the legal advice that was sought on the matter by the home educating community here.

[LJC6-07-23 - Paper 18 - Letter from Families First in Education Wales 21 February 2023.pdf \(senedd.wales\)](#)

I can understand visits if there is a concern about a child or family, but for us parents who dedicate our lives to ensuring that our children are happy and receive an excellent education, this is not only unnecessary and of no benefit to us whatsoever, but completely intrusive and detrimental to their education. As I am sure you can appreciate, it is pretty full-on home educating and our time is very precious. Trying to fit in their school work each day, along with their groups that they attend every day and meeting with their friends etc. Having to waste precious hours on gathering evidence, writing reports and preparing things for a stranger (likely without teaching qualifications) to judge is of no benefit to our children and will waste a huge amount of time that should be spend on educating our children instead. The beauty of home education is that their education is for them and not to show someone else. I work with them every day so I know exactly what they know or need extra work on, without the need for recorded evidence of this. I feel our right to a private family life is being invaded.

There are also those children with special educational needs or other complex issues, who do not want to talk to strangers entering their homes and this will cause a great deal of anxiety and stress to those families unnecessarily.

I hope that the guidance can be fully debated and that a lot of this can be changed. I believe that the current guidance already serves the needs of ensuring children are receiving a suitable education in a far less intrusive and negative way than the new proposed guidance.

Cyflwyniad / Submission 2

I am writing with my concerns about the new home education guidance, I have highlighted a few points but feel that the guidance needs further review throughout and as such should be paused and not implemented.

Firstly, how will the register be created? Will it be a legal requirement? I fear that there are some data protection issues to address with the current proposals.

The guidance seems to undermine parental primacy in our children's lives as the education of a child is the responsibility of the parents.

I question the EHE officers' ability to assess the suitability of a child's education with an once a year visit and wonder not only how this will be implemented, but if it will lead to further invasion of our family lives and alter the way that many educators support their children once there is the need for evidence. In addition to that what is deemed suitable evidence and progress, who determines this?

The insistence that the child/children participate in the meetings is also unwarranted, if there are no concerns why would an individual have the right to demand a meeting with them? Does the child/children and their parents not have the right to decide who they meet with?

The local authorities are already over stretched how will they be able to support home education or is this just an exercise to create a register and an assessment process? If so what benefit is this to anyone?

The guidance even goes as far to say that there is no appeals process upon assessment, this is also very concerning.

The home education community is a vibrant and active community providing enriching, fulfilling lives for our children. Home education is not missing in education and I object home education being treated as a red flag. There are so many ways that

the local authority could choose to support this community and yet choose to register and check them. I feel the money spent on this register should be put to better use helping children in need through our underfunded and over stretched social services, schools and NHS.

Cyflwyniad / Submission 3

I write to formally request that your committee fully investigates the newly published Welsh Government guidance on Elective Home Education,

There are many areas that required investigation by the CYPEC including the impact on families and children in Wales. However in the first instance I request that the CYPEC investigate the areas of unlawfulness, including how it would place duties on Welsh Local Authorities to act unlawfully, as that surely has to be a priority for the Senedd to establish for this secondary legislation.

I request that, as well as your own deliberations, the CYPEC draws on legal advice in scrutinising the guidance and fulfilling the responsibilities of the Senedd to hold the Welsh Government to account.

This will necessarily take some time to allow adequate scrutiny and to ensure that Welsh Government does not proceed with unlawful statutory legislation.

Therefore I request that the Committee instruct that **this guidance is not implemented or progressed until there has been full and formal scrutiny of is by the Senedd.**

I request that in scrutinising the guidance, you give full consideration to the **two reports of David Wolfe QC**, which, for example, clearly and repeatedly demonstrate how insistence that every child has to be "seen" is unlawful.

Likewise, I ask for full consideration of any subsequent legal reports submitted to Welsh Government and/or the Committee.

In addition I ask you to full appropriate the legal points in the **formal rebuttal** of the former CCfW report on EHE in Wales.

I request that the Committee's investigations also address

- the issues of the requirement to provide evidence in every case to prove innocence in the absence of specific concerns in individual cases. How the guidance is based on the assumption that parents are considered to be not honouring their children's rights, not allowing their voices to be heard and not providing a suitable education until the parent and child prove themselves to be.

- the mistaken assumption that the State has a duty to ensure every child has a suitable education, which was explicitly stated in multiple communications from the Welsh Government in trying to justify these proposals and which is implicit throughout. This misassumption leads to a reversal of the lawful principle that education is the responsibility of the parent, not the state.
- the implications for the state becoming liable for failures in education if it is shifting the balance of power and assuming the role of being the one that is responsible. At present parents cannot sue schools for failures because education is the responsibility of the parent not the state and if a child is in school it is because the parent has chosen to put them there.
- how parents and children are not "free" to decline meetings when under threat of legal proceedings and social services involvement if they do so. coercion is not informed consent.
- the assumption that choosing not to accept a coerced meeting deemed necessary purely because of a lawful choice of educational approach is an automatic safeguarding concern requiring social service involvement; please investigate the lawfulness and the significant impact of this on law-abiding families and on the diversion of already overstretched social service resources away from those children who are genuinely in need.
- how the expectations of what has to be provided for a EHE child are significantly different from LA provision for EOTAS children.
- the discriminatory aspects of how school children will not be similarly interviewed about their feelings, opinions and beliefs of their school-based education and moves put in place to transition them to home education if they express that is their preference, as treating EHE as lesser than school based education is contrary to the Education Act.
- how children's rights, including those to privacy, are being misinterpreted or ignored.
- the lack of advocacy for families and children coerced into non-consensual interviews that have major legal and personal implications for each child, the lack of appeals process.
- the lack of due process for insisting on non-consensual or coerced interviews. At present, a child can only be interviewed without free parental consent if there is a court order demonstrating significant and reasonable risk of harm in that individual case. Generic non-consensual coerced interviews with whole sections of society purely on the basis of their lifestyle choice or philosophical ethos are not lawful.

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ar y gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn: 2023-24, yn amlinellu 12 cwestiwn ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Amgaeir ymateb Llywodraeth Cymru i'r cwestiynau hynny.

Yn gywir

Jane Hutt AS/MS
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 299

Ymateb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn: 2023-24

Costau Byw

Parodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer heriau costau byw a fydd yn codi'r gaeaf hwn ac unrhyw gamau ychwanegol y gallech eu cymryd i helpu'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed?

- Sefydlwyd Is-bwyllgor Cabinet ar Gostau Byw i ddarparu cyfeiriad strategol mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng costau byw. Caiff ei waith ei lywio gan dystiolaeth arbenigwyr, darparwyr gwasanaethau a sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n cael trafferth gyda chostau cynyddol, gan gynnwys lleisiau'r rheini sydd â phrofiad byw personol, i helpu i lywio ein paratoadau ar gyfer y gaeaf.
- Rydym yn parhau i gefnogi aelwydydd difreintiedig yng Nghymru i liniaru effaith yr argyfwng costau byw drwy raglenni sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i liniaru pwysau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys: y Gronfa Cymorth Dewisol; camau gweithredu i wneud y mwyaf o incwm, gan gynnwys ein hymgyrch Yma i Helpu; a mentrau i gyflawni'r cyflog cymdeithasol yng Nghymru fel ein Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sy'n helpu i gadw arian ym mhocedi pobl. Yn ystod 2022-23 a 2023-24, roedd y gefnogaeth hon werth mwy na £3.3bn.
- Mae ein [datganiad polisi](#) ar y Rhaglen Cartrefi Clyd newydd yn nodi ein hymrwymiad hirdymor i gyflawni sero net mewn ffordd gyfiawn – trwy'r ddau amcan o fynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r argyfwng hinsawdd.
- Roedd llawer o'r mentrau a oedd wedi helpu pobl â phwysau costau byw yn 2022-23, fel Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru, dim ond yn bosibl oherwydd bod cyllid sylweddol wedi'i ddyrannu drwy gyllideb 2022-23. Roeddem wedi ailbwrpasu ein cyllidebau i flaenoriaethu cyllid ar gyfer cartrefi a gafodd eu taro galetaf gan yr argyfwng.
- Yn anffodus, nid yw ein dyraniad cyllid gan Lywodraeth y DU yn ddigonol i'n galluogi i ailgynnal llawer o'r cynlluniau hyn yn 2023-24. Yn ogystal, mae ein cyllidebau yn werth cryn dipyn yn llai na phan gyhoeddwyd ein cynlluniau yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2021.
- Rydym yn ystyried pa gamau ychwanegol y gellir eu cymryd y gaeaf hwn yng ngoleuni'r sefyllfa ariannol heriol yr ydym ynddi. Bydd ein penderfyniadau yn cael eu llywio gan argymhellion y Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw mewn perthynas â beth y gallwn ei wneud i gael yr effaith fwyaf.
- Yn y tymor hwy, mae ein Strategaeth Tlodi Plant ddrafft, ar gyfer cyfnod o 10 mlynedd, yn nodi ein hamcanion ar gyfer gwella canlyniadau i blant a theuluoedd. Mae'r Strategaeth ddrafft yn destun [ymgynghoriad](#) ar hyn o bryd a byddem yn croesawu eich barn.

A yw'r Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw wedi gwneud ei argymhellion i Lywodraeth Cymru eto? Os felly, pryd y gallwn ddisgwyl iddynt gael eu rhannu â'r Pwyllgor (gweler hefyd yr ymateb i'r adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24).

- I ddechrau, rhagwelwyd y byddai'r Grŵp Arbenigol yn adrodd i Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw ym mis Mehefin. Cyfarfu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Prif Weinidog â'r Grŵp Arbenigol ym mis Mai 2023 i drafod y cynnydd. Yn y cyfarfod hwnnw gofynnodd y Grŵp Arbenigol am amser ychwanegol i lunio eu hargymhellion.
- Disgwylir y bydd y Grŵp Arbenigol yn cyflwyno eu hargymhellion mewn adroddiad erbyn diwedd Gorffennaf 2023.
- Bydd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gostau Byw yn ystyried yr adroddiad hwnnw yn ffurfiol yn dilyn y toriad.

A fydddech cystal a darparu manylion monitro'r gyllideb ar alw'r Gronfa Cymorth Dewisol (neu'r DAF)? A yw'r dyraniadau a wnaed yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 wedi'u diwygio mewn ymateb i ganlyniad y gwaith monitro hwnnw?

- Mae'r ffigurau misol yn dangos bod y Gronfa Cymorth Dewisol yn gweithredu o fewn y gyllideb. Y gwariant *targed* chwarterol yw £8.5m, ac ar gyfer y chwarter cyntaf (Ebrill - Mehefin 2023) mae ffigurau *gwirioneddol* yn dangos gwariant o £8.1m. Fodd bynnag, mae swyddogion yn ymwybodol bod y galw ar y Gronfa Cymorth Dewisol yn debygol iawn o gynyddu yn ystod yr hydref/gaeaf yn sgil disgwyl y bydd costau tanwydd yn codi. Mae swyddogion yn monitro gwariant y Gronfa yn agos iawn. Nid yw dyraniadau'r Gronfa Cymorth Dewisol a wnaed yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 wedi'u diwygio.

A yw gwerthusiad y Gronfa Gyngori Sengl wedi'i gwblhau, ac os felly a ellir ei rannu â'r Pwyllgor?

- Mae'r gwerthusiad o'r Gronfa Gyngori Sengl yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad yn defnyddio dulliau cymysg. Trwy ddulliau meintiol bydd yr ymchwil yn penderfynu a yw model cyflawni cydweithredol y Gronfa Gyngori Sengl wedi cyrraedd grwpiau mwy difreintiedig ac ymylol na ffrydiau ariannu gwasanaeth cyngori hanesyddol Llywodraeth Cymru, ac a yw pobl â nifer o broblemau lles yn cael eu helpu.
- Bydd y dulliau ansoddol yn cynnig canfyddiadau gwerthfawr gan bobl sydd wedi cael mynediad at wasanaethau'r Gronfa Gyngori Sengl. Er enghraifft, eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth ac effeithiau gwneud hynny, h.y. a ddaethon nhw o hyd i'r ateb i'w problemau, a ydyn nhw wedi magu mwy o hyder yn eu gallu eu hunain i ddelio â phroblemau lles yn y dyfodol, ac ati. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau yn yr hydref, a byddaf yn rhannu'r canfyddiadau â'r Pwyllgor.

Yn unol ag argymhelliad 10 yn ein hadroddiad Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol, ac argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, pryd rydych chi'n disgwyl y byddwch yn cyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy'n defnyddio'r Cynllun Talebau Tanwydd yn erbyn y targedau a osodwyd pan lansiwyd y cynllun, mewn perthynas â mesuryddion rhagdalau ac aelwydydd oddi ar y grid?

- Fel y nodir yn ein hymateb i argymhelliad 10 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, *sef Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol*, hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd y Sefydliad Banc Tanwydd wedi dosbarthu 19,561 o dalebau er mwyn cefnogi aelwydydd na allent fforddio gwneud taliadau ychwanegol i'w mesuryddion rhagdalau. Cynyddodd y dyraniadau o dalebau tanwydd yn sylweddol wrth i rwydwaith atgyfeirio Cymru ddatblygu. Ac fe gynyddodd y rhwydwaith o fod yn un â chwe phartner ar yr adeg pan ddyrannwyd yr arian, i un â dros 100 o bartneriaid erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, defnyddiwyd gweddill yr arian i brynu talebau ar gyfer mesuryddion rhagdalau a gaiff eu dosbarthu yng Nghymru drwy gydol 2023 yn ôl y galw. Mae'r nifer a ddosbarthwyd ers i'r prosiect ddechrau bellach yn 25,202. Ni fyddwn yn gwybod y ffigur terfynol ar gyfer y Cynllun Talebau Tanwydd tan 2024.
- Cytunodd Llywodraeth Cymru hefyd y gallai'r Sefydliad Banc Tanwydd gynnal peilot i brynu blancedi cynnes fel dull amgen o gefnogi pobl mewn tlodi tanwydd. Nod y cynllun peilot oedd cynhesu'r unigolyn ac nid y cartref, ac mae 968 o flancedi cynnes wedi'u dyrannu i aelwydydd Cymru.
- Erbyn diwedd mis Mawrth, cafodd 184 o aelwydydd eraill gymorth i brynu tanwydd oddi ar y grid. Mae'r Sefydliad Banc Tanwydd yn parhau i ddarparu olew ychwanegol i'r rheini mewn argyfwng ledled Cymru sydd â thanciau olew. A hynny, yn rhinwedd ei rôl fel elusen. Ond mae'r galw yn llai ar hyn o bryd oherwydd tywydd yr haf a'r gostyngiad tymhorol mewn prisiau olew.
- Hyd yma, mae'r ymyriadau hyn wedi cefnogi 63,614 o bobl ac y mae 43% ohonynt yn blant.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) a menywod mudol

Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 3 o'n hadroddiad Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: menywod mudol i gefnogi menywod mudol sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus, ac rydym yn croesawu eich datganiad ar 4 Gorffennaf 2023 sy'n cadarnhau cynllun peilot y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, y dylai egluro sut caiff y gronfa argyfwng ei hariannu. Rydym yn deall y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio o'r gyllideb trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) bresennol.

A fyddech cystal â chadarnhau faint sydd wedi'i ddyrannu i'r gronfa a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pennu'r ffigur hwnnw. Pa asesiad, os yn berthnasol, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal i asesu effaith dargyfeirio adnoddau o wasanaethau a gweithgarwch VAWDASV presennol. Fel arall, a fyddech cystal â rhoi manylion o ble y gwnaed y toriadau.

- Mae'r cynllun peilot i gefnogi menywod mudol sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus wedi'i ariannu ar sail fforddiadwy, gan ddefnyddio £150k o'r gyllideb VAWDASV bresennol. Felly ni fu angen dargyfeirio cyllid o weithgareddau a gwasanaethau presennol eraill.
- Cytunwyd ar y gyllideb ar gyfer y peilot yn dilyn asesiad cynhwysfawr o'r data sydd ar gael mewn perthynas ag angen. Roedd swyddogion wedi gallu defnyddio adborth a dysgu o'r cynllun Cymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais a amlygodd, ymhlith pethau eraill, a oedd y cyllid yn ddigonol, er enghraifft i dalu am gostau llety lloches. Yn sgil hynny, roedd gan swyddogion well syniad o faint o gyllid oedd ei angen i gyflawni elfennau hanfodol y cynllun, a datblygu opsiynau ar gyfer y cynllun peilot cychwynnol yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r cynllun peilot wedi ystyried materion fforddiadwyedd ac wedi cydnabod hefyd fod lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wrthi'n cynnal ymchwil yn y maes hwn. Bydd y cynllun peilot, er nad yw'n llenwi'r holl fylchau a nodwyd, yn gwneud cryn dipyn tuag at wneud hynny ac yn darparu tystiolaeth ychwanegol o'r buddion a'r angen sy'n weddill, i lywio penderfyniadau cyllido yn y dyfodol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu o waith ymchwil ICC pan fydd wedi'i gwblhau, yn ogystal â chymryd i ystyriaeth gamau gweithredu gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol mewn perthynas â'r cynllun Cymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais.
- Ar sail hyn, dyrannwyd £150k i BAWSO fel grant i gynnal y cynllun peilot yn ystod 2023/23, er mwyn ceisio gwneud y canlynol:
 - Ychwanegu at gyllid cynhaliaeth i ddiodefwyr o dan y cynllun Cymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwyr Trais fel ei fod yn cyfateb i swm y cymorth ariannol sydd ar gael o dan Gonsesiwn Diymgeledd Trais Domestig (DDVC).

- Rhoi cymhorthdal o gyllid ychwanegol i ymestyn hyd y cyfnod y gall goroeswyr aros mewn llety â chymorth tra byddant yn ceisio cael cymorth cyfreithiol a thra bo statws mwy parhaol yn cael ei brosesu (tua 4 wythnos ar gyfer pob dioddefwr).
- Darparu cyllid ychwanegol os bydd angen (os nad yw'n gymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), ar gyfer teuluoedd nad ydynt yn gymwys i gael llety lloches (e.e. dioddefwyr â thri neu fwy o blant).
- Darparu cyllid i gefnogi hyd at 15 o ddiodeswyr/teuluoedd ychwanegol a chynnwys trefniant iddynt gael aros yn eu cartref eu hunain os bydd modd symud y cyflawnwr.
- Darparu tua 5% o gostau ychwanegol ar gyfer llety ychwanegol mewn perthynas ag achosion eithriadol sydd angen llety am gyfnodau hirach na'r amserlenni safonol.

Cydraddoldeb a hawliau dynol

Nodwch effaith y gostyngiad yng nghyllid yr UE ar sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn benodol Chwarae Teg a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Pa asesiad a wnaed o'r effaith ar gyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb. Pa ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu ffrydiau ariannu newydd i lenwi'r bwch yng nghyllid yr UE?

- Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn rheoli tua £5/6m y flwyddyn mewn grantiau i sefydliadau drwy'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol a'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol. Mae colli'r rhaglenni hyn wedi arwain at gollu tua 30 o rolau, sef staff sy'n gweithio'n gyfan gwbl ar raglenni a ariennir gan yr UE yn ogystal â staff eraill o golli cymorth ar gyfer costau gorbenion. Mae hyn wedi golygu bod CGGC wedi colli nifer o staff profiadol iawn o'r sector cyflogadwyedd a roddodd gyngor ar ystod o bynciau megis llywodraethu, caffael, rheolaethau ariannol a monitro a gwerthuso, yn ogystal â chymorth grant.
- Yn fwy cyffredinol, mae CGGC hefyd wedi bod yn rhan annatod o gefnogi'r trydydd Sector i gael cymorth ariannol yr UE, gan sicrhau bod llais a barn y trydydd Sector yn rhan o weithdrefnau llywodraethu cronfeydd yr UE. Rydym yn ymwybodol nad oes unrhyw gronfeydd, rolau na threfniadau llywodraethu cyfatebol yn bodoli ar hyn o bryd o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Y cefndir

- O dan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000-2006, amcangyfrifwyd bod y trydydd sector wedi manteisio ar dros £224 miliwn, ac yng nghylch cyllido 2007-2014 dyfarnwyd dros £105 miliwn i'r sector hwnnw. O dan raglenni presennol 2014-2020, mae'r trydydd sector wedi arwain mentrau sydd gwerth dros £138 miliwn.
- Mae sefydliadau'r trydydd sector wedi cymryd rhan sylweddol mewn rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau a ariennir gan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, a helpodd sefydliadau gwirfoddol i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf ymylol a difreintiedig mewn cymdeithas ar eu taith tuag at gael gwaith. Ers 2015 dyfarnodd y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol dros £30 miliwn mewn cyllid grant i fwy na 180 o

sefydliadau, gan gefnogi dros 23,000 o bobl ddifreintiedig i symud i mewn i waith neu'n nes ato. Cyfrifwyd bod 'adenillion cymdeithasol o fuddsoddi' o oddeutu £3.37 o fudd yn cael ei gynhyrchu am bob £1 a wariwyd.

- Dros y ddau ddegawd diwethaf mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus i ysgogi twf a datblygiad y sector busnes cymdeithasol yng Nghymru gyda chymorth Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Yn y rhaglen ariannu gyfredol, dyfarnodd Cronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol CGGC a Chronfa Datblygu Asedau Cymunedol £4.8 miliwn ar draws 59 o fusnesau cymdeithasol a greodd 282 o swyddi.

Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

Fel y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a allwch gadarnhau a oes unrhyw gostau wedi'u datblygu ar gyfer cynllun peilot y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig, gan gynnwys yr effaith ariannol ar wasanaethau cyhoeddus lleol?

- Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ysgwyddo cost cynllun peilot y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig. Bydd y 12 o breswylwyr benywaidd yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus lleol tra byddant yn y Ganolfan. Gan y bydd y menywod eisoes yn byw yn yr ardal leol, nid ydym yn disgwyl i hyn gael effaith ar gostau. Bydd unrhyw wasanaethau ychwanegol a ddarperir yn cael eu hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

A allwch chi gadarnhad p'un a oes ffrwd ariannu gynaliadwy ar gyfer canolfannau menywod bellach yn ei lle?

- Blaenoriaeth allweddol ar gyfer cam nesaf y gwaith ar gyfer Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod yw datblygu dull cadarn o ymdrin â chanolfannau dibreswyl i fenywod ledled Cymru. Mae canolfannau fel Canolfan Merched Gogledd Cymru yn y Rhyl a Chanolfan Ymddiriedolaeth Nelson yng Nghaerdydd yn darparu ystod werthfawr o wasanaethau, gan gynnwys cymorth i reoli a goresgyn camddefnyddio sylweddau, cymorth gofal plant, eitemau ar gyfer y mislif a help gyda chostau byw. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried gwahanol fodolau o ganolfannau i fenywod i ddeall y dull gorau ar gyfer Cymru. A bydd y gwaith hwnnw'n cael ei lywio gan ganfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor i brofiad menywod o'r system gyfiawnder.

A yw'r tendr ar gyfer Manyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod newydd, a grybwyllwyd mewn ymateb i argymhelliad 5, bellach wedi'i gyhoeddi?

- Mae'r tendr ar gyfer Manyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod wedi cyrraedd cam terfynol y broses, ac yn cael ei wirio a'i gymeradwyo ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl i'r tendr gael ei gyhoeddi dros yr haf.

Gwella'r gyllideb

A fyddech cystal â rhoi diweddariad ar argymhelliad 10 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24? A allwch nodi pa gamau a gymerwyd i ddatblygu eich gwaith ar atal?

- Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod atal yn rhan annatod o'r broses o bennu cyllidebau. Mae'r gwaith ataliol yr ydym wedi'i wneud yn cael ei ystyried yn rhan o waith ehangach Cynllun Gwella'r Gyllideb sy'n cael ei ddiweddarau a'i gyhoeddi'n flynyddol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd mewn perthynas ag atal.
- Drwy ein Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ynghylch gwella prosesau'r gyllideb. Ym mis Ionawr 2023, roeddem wedi rhoi cyflwyniad ar y rhaglen atal i rhanddeiliaid y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, fel y gallai rhanddeiliaid ddeall y maes cymhleth hwn yn well. Mae atal yn rhan allweddol o gynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar gyfer 2023 ac mae is-grŵp wedi'i sefydlu i edrych yn benodol ar sut y gallwn ofalu bod atal yn rhan annatod o'n proses ar gyfer y gyllideb. Mae'r broses hon yn parhau i fynd rhagddi, ac fe fydd yn cael ei chwblhau fis nesaf.
- Rydym hefyd yn ystyried pa gamau pellach y gallem eu cymryd fel rhan o'n paratodau ar gyfer Cyllideb 2024-25.
- Byddwn yn darparu diweddariad pellach yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn unol â'n harfer sefydlog pan gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25.

Gofynnwn i chi ailystyried eich safbwynt ar argymhellion 11 a 12 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24, a wrthodwyd ar y pryd. Rydym yn pryderu nad yw cyhoeddi crynodeb o dystiolaeth ysgrifenedig yr holl Weinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob Prif Grŵp Gwariant yn ymateb digonol i'n hargymhelliad.

Hoffem weld sut ydych chi'n bwriadu darparu mwy o eglurder a thryloywder yn y ffordd y cyflwynir cyllideb y flwyddyn nesaf. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â beirniadaeth o'r dull presennol o gynnal Asesiadau Effaith Strategol? A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25?

- O ran argymhelliad 12, rydym yn dal i fod am ei wrthod.
- O ran argymhelliad 11, rydym yn barod i dderbyn hyn mewn egwyddor ar y sail ein bod yn parhau i amlinellu'r camau yr ydym yn eu cymryd i ddiwygio gwelliannau i broses y gyllideb a threthi fel rhan o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Eleni, rydym wedi cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn ystyried sut i gynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol; mae hyn wedi cynnwys rhai newidiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gyhoeddwyd fel rhan o Gyllideb Ddrafft

2023-24. Mae rhagor o gamau tymor hwy yn cael eu hystyried drwy barhau i weithio gyda'r Grŵp Cyngori i adolygu ein dull o asesu effeithiau penderfyniadau cyllidebol fel rhan o Gynllun Gwella'r Gyllideb.

- Ar hyn o bryd, yn ystod y cam cynnar hwn o broses Cyllideb 2024-25, a'r ansicrwydd sy'n ein hwynebu, nid ydym mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eglurder a thryloywder mewn perthynas â sut y bydd Cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei chyflwyno.
- Hefyd, mae'n dal i fod yn bwysig cydnabod bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn yn amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi ategu ein penderfyniadau gwario. Dim ond un o gyfres o ddogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'n Cyllideb Ddrafft ydyw, ac mae effaith penderfyniadau gwario yn cael ei hamlinellu fel rhan o'r prif naratif ym mhennod pedwar, a ategir gan yr Asesiad yn Atodiad A. Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, roeddem wedi cyhoeddi crynodeb helaeth o holl dystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar y dyraniadau ym mhob Prif Grŵp Gwariant. Mae'r dystiolaeth honno'n rhoi cyfrif manylach o effaith penderfyniadau ynghylch y Gyllideb Ddrafft ar grwpiau gwahanol.
- Cyhoeddir dadansoddiad dosbarthiadol diwygiedig o wariant cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2024-25.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane,

Gwaith craffu ariannol yn ystod y flwyddyn: 2023-24

Diolch i chi am dderbyn ein cais i ddefnyddio ein sesiwn graffu a drefnwyd ym mis Medi ar gyfer eich cyfraniad i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu na fydd ein sesiwn graffu gyffredinol arfaethedig yn mynd yn ei blaen mwyach. Byddem felly'n croesawu cael ymateb ysgrifenedig i'r canlynol, gan gynnwys diweddariadau i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar [Gyllideb Ddrafft 2023-24](#), ac adroddiadau eraill:

Costau byw

- Parodrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr heriau costau byw a fydd yn codi'r gaeaf hwn ac unrhyw gamau ychwanegol y gallech eu cymryd i helpu'r aelwydydd sydd fwyaf agored i niwed?
- A yw'r Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw wedi gwneud ei argymhellion i Lywodraeth Cymru eto? Os felly, pryd y gallwn ddisgwyl iddynt gael eu rhannu â'r Pwyllgor (gweler hefyd yr [ymateb](#) i'r adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24).
- A fydddech cystal a darparu manylion monitro'r gyllideb ar alw'r Gronfa Cymorth Dewisol (neu'r DAF)? A yw'r dyraniadau a wnaed yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 wedi'u diwygio mewn ymateb i' ganlyniad y gwaith monitro hwnnw?
- A yw gwerthusiad y Gronfa Gyngori Sengl wedi'i gwblhau, ac os felly a ellir ei rannu â'r Pwyllgor?
- Yn unol ag argymhelliad 10 yn ein hadroddiad [Anghynaliadwy: dyled o ganlyniad i gostau byw cynyddol](#), ac argymhelliad 6 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, pryd rydych chi'n disgwyl y byddwch yn cyhoeddi ffigurau terfynol ynghylch y nifer sy'n defnyddio'r Cynllun Talebau Tanwydd yn erbyn y targedau a osodwyd pan lansiwyd y cynllun, mewn perthynas â mesuryddion rhagdalau ac aelwydydd oddi ar y grid?



Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a menywod mudol

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad 3 o'n hadroddiad [Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol: menywod mudol](#) i gefnogi menywod mudol sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus, ac rydym yn croesawu eich datganiad ar 4 Gorffennaf 2023 sy'n cadarnhau cynllun peilot y Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddiodefwr Trais. Derbyniodd Llywodraeth Cymru hefyd argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24, y dylai egluro sut caiff y gronfa argyfwng ei hariannu. Rydym yn deall y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio o'r gyllideb trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) bresennol. A fyddech cystal â chadarnhau faint sydd wedi'i ddyrannu i'r gronfa a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pennu'r ffigur hwnnw. Pa asesiad, os yn berthnasol, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal i asesu effaith dargyfeirio adnoddau o wasanaethau a gweithgarwch VAWDASV presennol. Fel arall, a fyddech cystal â rhoi manylion o ble y gwnaed y toriadau.

Cydraddoldeb a hawliau dynol

- Nodwch effaith y gostyngiad yng nghyllid yr UE ar sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, yn benodol Chwarae Teg a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Pa asesiad a wnaed o'r effaith ar gyflawni cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb. Pa ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu ffrydiau ariannu newydd i lenwi'r bwlch yng nghyllid yr UE?

Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol

- Fel y cyfeiriwyd ato yn ein hadroddiad [Profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol](#), a allwch gadarnhau a oes unrhyw gostau wedi'u datblygu ar gyfer cynllun peilot y Ganolfan Breswyl i Fenywod arfaethedig, gan gynnwys yr effaith ariannol ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
- Allwch chi gadarnhad p'un a oes ffrwd ariannu gynaliadwy ar gyfer canolfannau menywod bellach yn ei lle.
- A yw'r tendr ar gyfer y Fanyleb Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod newydd, a grybwyllwyd mewn ymateb i argymhelliad 5, bellach wedi'i gyhoeddi?

Gwella'r gyllideb

- A fyddech cystal â rhoi diweddariad ar argymhelliad 10 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24? A allwch nodi pa gamau a gymerwyd i ddatblygu eich gwaith ar atal?
- Gofynnwn i chi ailystyried eich safbwynt ar argymhellion 11 a 12 yn adroddiad Cyllideb Ddrafft 2023-24, a wrthodwyd ar y pryd. Rydym yn pryderu nad yw cyhoeddi crynodeb



o dystiolaeth ysgrifenedig yr holl Weinidogion i bwyllgorau craffu'r Senedd ar ddyraniadau o fewn pob Prif Grŵp Gwariant yn ymateb digonol i'n hargymhelliad. Hoffem weld sut ydych chi'n bwriadu darparu mwy o eglurder a thryloywder yn y ffordd y cyflwynir cyllideb y flwyddyn nesaf. Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â beirniadaeth o'r dull presennol o gynnal Aseidiadau Effaith Strategol? A wnewch chi ymrwymo i gyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol gyda Chyllideb Ddrafft 2024-25?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol



Jenny Rathbone
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

3 Awst 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr ar 5 Gorffennaf, ynglŷn â'r Rhaglen Cartrefi Cynnes a thariff cymdeithasol am ynni.

O ran y cynllun newydd sy'n cael ei arwain gan y galw, y cerrig milltir allweddol rydym yn gweithio iddynt yw:

Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro
Dewis y cynigydd a ffefrir
Porth Sicrwydd
Llythyrau Bwriad i Ddyfarnu (cyfnod segur o 2 wythnos)
Dyfarnu Contract
Dechrau Paratoadau

Awst
Canol Hydref
w / c 23 Hydref
Canol Tachwedd
Diwedd Tachwedd
Diwedd Tachwedd

Bydd cymhlethdod y pontio rhwng y contractau hen a newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar a oes cyflenwyr newydd ai peidio. Mae fy swyddogion mewn trafodaethau â'r cyflenwyr Nyth presennol i ddechrau trefniadau ar gyfer dod â Nyth i ben. Bydd yr estyniad i'r contract Nyth presennol hyd at diwedd mis Mawrth 2024 yn sicrhau na fydd bwlch yn y ddarpariaeth rhwng y rhaglenni newydd a'r rhaglenni presennol.

Byddwn yn gweithio gyda'r cynigwyr llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyntaf i ddatblygu'r cynllun ymhellach i gynnwys cynlluniau cymunedol ac ar raddfa fach o fewn ardal, megis trin teras o dai neu floc o fflatiau lle mai dyna'r ymyrraeth fwyaf priodol. Ni fydd hyn yn galw am ymarfer caffael ychwanegol.

Rhoddyd mwy o gyngor i aelwydydd yn ystod gaeaf 2022/23, a oedd yn cynnwys ariannu nifer cynyddol o gynghorwyr ynni sy'n rhoi cymorth drwy ein gwasanaeth rhadffôn Nyth. Mae'r cynnydd hwn yn y capasiti wedi'i gadw eleni i wasanaethu'r galw ychwanegol. Byddwn yn gweithio gyda partneriaid ar ein Grŵp Cyngori ar Dlodi Tanwydd i ledaenu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael.

Rydym hefyd wedi lansio ein gwefan Gweithredu ar Newid Hinsawdd, gan ddangos y camau y gall pobl eu cymryd bob dydd i leihau ein heffaith ar y blaned. Mae hyn yn cynnwys

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ffyrdd o arbed arian ac ynni gartref drwy ymddygiadau a dewisiadau mwy gwyrdd ac effeithlon o ran ynni.

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ddatblygu tariff cymdeithasol a pholisïau eraill i sicrhau amddiffyniad i gwsmeriaid bregus. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'n gyson ac yn uchel am ystod o fesurau i gefnogi'r rhai mewn angen yn well, gan gynnwys tariff ynni cymdeithasol. Rwy'n deall bod yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net wedi gwrando ac yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ar y mater hwn yn ddiweddarach eleni.

Rwy'n copïo'r ymateb hwn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt AS.

Yn gywir



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Minister for Climate Change

Julie James AS

Y Gweinidog Newid Hinsawdd

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Julie

Datganiad Polisi y Rhaglen Cartrefi Clyd a'r Gwersi a Ddysgwyd

Diolch am eich llythyr ynghylch y Rhaglen Cartrefi Clyd a nodwyd gennym ar 26 Mehefin 2023. Er ein bod yn croesawu eich cyhoeddiad ar 20 Mehefin ar y cyfan, mae ein gallu i ddwyn y llywodraeth i gyfrif yn cael ei rwystro gan ddiffyg manylder ac eglurder o ran amserlenni ar gyfer trosglwyddo i'r cynllun olynol. Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn:

- A fydddech cystal â nodi'r amserlen o ddyddiadau ar gyfer y cerrig milltir allweddol yr ydych yn gweithio tuag atynt o ran caffael y cynllun newydd sy'n ymateb i'r galw. Yn benodol, byddem yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch y dyddiadau targed ar gyfer y camau caffael: mynd allan i dendr; gwerthuso tendrau a dewis y cynigydd a ffefrir; dyfarnu contract; a gweithredu.
- O ran cynllun newydd yn seiliedig ar ardal, a fydddech cystal â nodi amserlen o ddyddiadau ar gyfer y cerrig milltir allweddol yr ydych yn gweithio tuag atynt. Yn benodol, byddem yn croesawu eglurder ynghylch y dyddiadau targed ar gyfer cyhoeddi datganiad polisi rhan 2: mynd allan i dendr; gwerthuso tendrau a dewis y cynigydd a ffefrir; dyfarnu contract; a gweithredu.
- Cyngor i aelwydydd y gaeaf hwn: pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo cyngor am ddim ar arbed ynni i aelwydydd dros yr haf ac i mewn i aeaf heriol 2023-24? A fydddech cystal â nodi manylion am unrhyw sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector yr ydych yn partneru â hwy er mwyn sicrhau bod neges gyson yn cyrraedd cymaint o aelwydydd â phosibl.
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i gael OFGEM i gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni a phryd y gallwn ddisgwyl i aelwydydd sy'n agored i niwed elwa?

Rydym yn gwerthfawrogi'n llwyr yr angen i gael y cynllun olynol yn iawn. Fodd bynnag, mae'r diffyg brys wrth drosglwyddo i gynllun olynol wedi bod yn rhwystredig, o'i ystyried yn erbyn cefndir o gostau ynni cynyddol. Gobeithiwn felly y gallwch roi'r eglurder a'r sicrwydd yr ydym yn eu ceisio ynghylch yr amserlenni ar gyfer y camau nesaf.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink on a light-colored background. The signature reads "Jenny Rathbone" in a cursive, flowing script.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru



Ein cyf/Our ref

Jenny Rathbone, AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

10 Awst 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 28 Gorffennaf, ynghylch eich bwriad i lansio ymchwiliad byr ar Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023. Rwy'n ddiolchgar bod y Pwyllgor yn parhau i roi sylw i'r mater pwysig hwn. Roedd yr ymchwiliadau blaenorol yn fuddiol dros ben wrth inni ddrafftio'r strategaeth ar gyfer ymgynghoriad.

Mae'r strategaeth ddrafft wedi'i datblygu ar sail tystiolaeth, yn benodol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac ar ôl holi 3,300 o bobl sydd â phrofiad perthnasol a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys 1,402 o blant a phobl ifanc. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 11 Medi, ac rydym yn rhagweld nifer iach o ymatebion.

Er y byddaf yn croesawu canfyddiadau'r Pwyllgor yn fawr, caiff y strategaeth ei hystyried gan y Cabinet ym mis Tachwedd. Byddai o fudd mawr, felly, pe gallai'r Pwyllgor rannu canfyddiadau eich ymchwiliad erbyn 27 Hydref fan bellaf, er mwyn caniatáu amser i'm swyddogion roi ystyriaeth ddyledus iddynt wrth gwblhau'r strategaeth yn derfynol.

Rwy'n mawr obeithio bod y dyddiad hwn yn realistig i'r Pwyllgor. Rwyf am eich sicrhau chi a'r pwyllgor y bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir ar ôl y dyddiad hwn yn dal i gael ei hystyried yng nghyd-destun ehangach ein gwaith ar dlodi plant. Er enghraifft, rwy'n nodi bod rhai o'r meysydd rydych yn bwriadu ymchwilio iddynt yn ymwneud ag asesu cynnydd o ran mynd i'r afael â thlodi plant ac effeithiolrwydd ymyriadau i fynd i'r afael â thlodi plant o fewn grwpiau penodol. Fel y nodir yn y strategaeth ddrafft, byddwn yn ceisio cyngor annibynnol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar ddangosyddion addas a fframwaith i fonitro ac adrodd ar gynnydd. Bydd eich canfyddiadau chi hefyd yn cyfrannu at y gwaith hwnnw yn ystod yr hydref.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane,

Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023 Llywodraeth Cymru

Yn ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf, cytunodd y Pwyllgor i lansio ymchwiliad byr ar Strategaeth Ddrafft Tlodi Plant Cymru 2023. Nodwn eich bod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y Strategaeth Ddrafft, ac roeddem am fachu ar y cyfle i gasglu tystiolaeth gyda golwg ar ddylanwadu ar y strategaeth derfynol.

Rydym yn bwriadu gwneud y gwaith hwn ar y dyddiadau a ganlyn:

- | | |
|----------|--|
| 25 Medi | Tri phanel i glywed tystiolaeth lafar gan dystion |
| 2 Hydref | Digwyddiad grŵp trafod gyda rhanddeiliaid yng Nghaerdydd |
| 9 Hydref | Ymweliadau ag elusennau gwrth-dlodi plant ym Mae Abertawe. |

Nodwn y bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn dod i ben ym mis Medi. Yn anffodus, oherwydd ymrwymadau blaenorol, ni fydd yn bosibl i ni wneud ein gwaith arfaethedig yn gynharach na'r dyddiadau a nodir uchod. Byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi a fyddai canfyddiadau'r Pwyllgor yn dal i gael eu hystyried pe baem yn eu cyflwyno erbyn diwedd mis Hydref.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer ein gwaith wedi'i nodi yn yr atodiad. O gofio nad yw'r manylion hyn wedi'u cyhoeddi eto, byddwn yn ddiolchgar pe gallech drin y llythyr hwn yn gyfrinachol nes y caiff yr ymchwiliad ei lansio.

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Atodiad

Hoffai'r Pwyllgor ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r strategaeth derfynol, drwy ystyried:

- I ba raddau y bydd y strategaeth ddrafft yn cefnogi Llywodraeth Cymru a'i sefydliadau partner i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl ganddynt tuag at leihau tlodi plant o fewn ffiniau'r setliad datganoli.
- Pa arfer gorau sy'n bodoli yng Nghymru a thu hwnt wrth fynd i'r afael â thlodi plant, a pham mae'r ymyriadau hyn yn gweithio. I ba raddau mae'r dull a amlinellir yn y strategaeth yn cyd-fynd â hyn.
- Pa rwystrau sy'n bodoli i weithredu atebion sy'n mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru yn llwyddiannus, a sut y gellir goresgyn y rhain.
- Pa ddangosyddion y dylid eu defnyddio i fesur cynnydd wrth fynd i'r afael â thlodi plant. Pa dargedau penodol a mesuradwy y dylid eu gosod i asesu hyn.
- Pa mor effeithiol fydd y strategaeth wrth fynd i'r afael â thlodi plant o fewn grwpiau penodol o'r boblogaeth.
- I ba raddau y mae hawliau plant yn cael sylw clir yn y strategaeth a'r asesiad effaith.



Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

E-bost: SeneddDCC@senedd.cymru
SeneddCydradd@senedd.cymru

11 Awst 2023

Annwyl Huw a Jenny,

Diolch am adroddiad eich Pwyllgorau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Dioddefwyr a Charcharorion, a osodwyd ar 19 Mai 2023.

Rwy'n nodi'r pedwar argymhelliad gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r un argymhelliad gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ac rwyf wedi ymateb iddynt isod:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Argymhelliad 1. Rydym o'r farn bod y cymalau o'r Bil a nodir yn y Memorandwm o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, a bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o ganlyniad i hynny.

Ymateb:

Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn gan y Pwyllgor sy'n cadarnhau'r safbwynt ar gymhwysedd a nodir yn y Memorandwm.

Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cymal 28 o'r Bil a pham yn y mae'n ymddangos bod gwahaniaeth barn ynghylch a ddylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn ai peidio.

Ymateb:

Rwyf wedi trafod hyn gyda Llywodraeth y DU, sydd wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'm hasesiad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 28 o'r Bil a bod y nodiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

esboniadol presennol yn anghywir. Maent wedi cytuno i adolygu'r geiriad yn y nodiadau esboniadol a gyhoeddir gyda fersiwn derfynol y Bil er mwyn adlewyrchu hyn yn gywir.

Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog gadarnhau neu gywiro ein dealltwriaeth o'r sefyllfa, sef yw nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 3 o'r Bil ynghylch y system barôl, y Bwrdd Parôl ac atal carcharorion sy'n bwrw dedfryd oes rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil nes i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU.

Ymateb:

Nid oeddwn yn ymwybodol o'r darpariaethau a gynhwysir yn Rhan 3 o'r Bil er i'm swyddogion ofyn am gael golwg gynnar ar y Bil cyflawn ar sawl achlysur, gan gynnwys y diwrnod cyn i'r Bil gael ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin.

Argymhelliad 4. Os nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r darpariaethau yn y Bil ynghylch y system barôl, y Bwrdd Parôl ac atal carcharorion sy'n bwrw dedfryd oes rhag priodi neu ymgymryd â phartneriaeth sifil nes i'r Bil gael ei gyflwyno yn Senedd y DU, dylai'r Gweinidog egluro sut a phryd y gwnaeth Llywodraeth y DU dynnu sylw Llywodraeth Cymru at hyn, a pha esboniad a roddwyd am gynnwys y darpariaethau hyn.

Ymateb :

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymgysylltu â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyda f'arweinwyr cyfreithiol a pholisi sydd â diddordeb yn y Bil, ynghlŷn â'r cymalau y disgwylir eu cyflwyno fel rhan o'r Bil. Fodd bynnag, nid oedd fy swyddogion wedi gweld y Bil terfynol yn ei gyfanrwydd na'i Nodiadau Esboniadol cyn iddo gael ei gyflwyno, nac wedi cael gwybod bod teitl a darpariaethau'r Bil wedi'u newid i 'Bil Dioddefwyr a Charcharorion'.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno nodi nad oedd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin wedi cael gweld y newidiadau i'r Bil. Ar 27 Mehefin 2023, ysgrifennodd cadeirydd y Pwyllgor Cyfiawnder at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gan ddweud *“By introducing two new substantive parts to the Bill that were not included in the original draft bill would appear to be evidence of a fairly dysfunctional policy process. We appreciate that these decisions were taken before you took up your post and welcome the open-minded tone of your speech on Second Reading. We hope that in the future the Government will approach pre-legislative scrutiny with a spirit that reflects the underlying purpose of the exercise, which is to enable Members with a special interest and expertise in justice issues to contribute to examine a Bill before it is formally introduced.”*

Y tro cyntaf i'r newidiadau gael eu codi'n ffurfiol gan Lywodraeth y DU oedd drwy ymgysylltu ar 29 Mawrth 2023, y diwrnod y cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin. Roedd hyn drwy e-bost a oedd yn nodi *“The Bill has been expanded to introduce an Independent Public Advocate (Part 2) to support victims of major incidents and their families. It also introduces parole reforms to put public protection at the heart of decision-making (Part 3), and prohibits prisoners who are serving a whole life order from entering into a marriage or civil partnership (Part 4).”*

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod y Senedd yn atal cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Dioddefwyr a Charcharorion.

Yn ogystal, gwrthwynebodd un Aelod mewn egwyddor i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion datganoledig Cymru gael eu deddfu drwy Fil Llywodraeth y DU

Ymateb:

Rwy'n croesawu gwaith y Pwyllgorau ac yn cadarnhau y bydd trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ar fanylion llawn eu cynigion ynghylch y cymalau perthnasol sydd angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn inni ddarparu argymhellion pellach i'r Senedd ynghylch cydsyniad.

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a long horizontal line above the first name.

Jane Hutt AS/MS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd

Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder

Cymdeithasol

D.lau 17 Awst 2023

Annwyl Jenny,

Testun: Cyflwyniad UKIM i Bwyllgor y CU ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Heddiw fe gyhoeddodd Mekanwaith Annibynnol y DU (UKIM)¹ – grŵp sy'n cynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CCHD), Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC), Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon (ECNI) a Chomisiwn Hawliau Dynol Gogledd Iwerddon (NIHRC) - [adroddiad yn asesu hawliau pobl anabl ar draws y DU](#). Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (y Pwyllgor) ym mis Gorffennaf, fel rhan o'r adolygiad o'i ymchwiliad i'r DU, a gynhelir y mis hwn.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com

Tudalen y pecyn 322



Canfu ymchwiliad y Cenhedloedd Unedig, a gyhoeddwyd yn 2016, droseddau 'difrifol a systemig' o'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD), a gwnaeth 11 o argymhellion ar gyfer gwelliant. Yn benodol, archwiliodd y Pwyllgor effeithiau diwygiadau lles ers 2010 ar hawliau pobl anabl i fyw'n annibynnol; gwaith a chyflogaeth; a safon byw ac amddiffyniad cymdeithasol.

Drwy gadarnhau'r CRPD, mae'r DU wedi'i rhwymo gan gyfraith ryngwladol i barchu, amddiffyn a chyflawni'r hawliau sydd ynddo. Y sefydliadau DU gyfan a'r sefydliadau datganoledig sy'n gyfrifol am weithredu cytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig.

Mae adroddiad UKIM yn asesu cynnydd yn erbyn 11 o argymhellion yr ymchwiliad ac yn dadansoddi camau gweithredu'r llywodraeth a'r cyd-destun yn ymwneud â hawliau anabledd ers 2016. Mae asesiadau UKIM yn dangos, er gwaethaf rhywfaint o gynnydd mewn rhai meysydd, y bu cynnydd cyfyngedig neu ddim cynnydd yn erbyn llawer o argymhellion. Un maes a amlygwyd yw'r diffyg cynnydd i wreiddio asesiadau effaith cronol yn y broses o wneud penderfyniadau cyllidebol.

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com



Mae adroddiad UKIM yn amlygu rhywfaint o gynnydd a wnaed o ran dull Llywodraeth Cymru o gydgyhyrchu â phobl anabl wrth ffurfio'r Tasglu Hawliau Anabledd.

Bydd yr adolygiad sydd i ddod yn gyfle i weithio i wella bywydau pobl anabl ar draws y DU. Byddem yn hapus i drafod y materion hyn, a'n hadroddiad, gyda chi pan fydd yn gyfleus i chi.

Yr eiddoch yn gywir,

Parch. Ruth Coombs

Pennaeth Cymru

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

Ff/T: 029 2044 7710

E: correspondence@equalityhumanrights.com

Tŷ'r Cwmnïau (Llawr 1af),
Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ

Companies House (1st Floor),
Crown Way, Cardiff, CF14 3UZ

equalityhumanrights.com

Ein cyf: MA/EM/2066/23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

18 Awst 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf at Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, ynghylch yr ymchwiliad i gyfiawnder data. Gan fod y pwnc yn ymwneud yn agosach â fy maes portffolio i, fi sy'n ymateb i'ch llythyr.

Diolch am roi o'ch amser i nodi cwmplas eich ymchwiliad ac am wahodd Llywodraeth Cymru i rannu ein sylwadau mewn perthynas â'r themâu yr ydych wedi'u nodi. Gweler isod grynodedb o ba gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

1. Dealltwriaeth y cyhoedd o ddata gofal iechyd

Rydym yn ymwybodol o'r canlynol o ymchwil flaenorol¹ a gynhaliwyd i agweddau'r cyhoedd ynghylch casglu a defnyddio data Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

- Yn gyffredinol, mae lefelau isel o ymwybyddiaeth (gan y cyhoedd a chan ddarparwyr gwasanaethau) o sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei storio a'i rhannu.
- Mae awydd i wybod mwy am yr hyn sy'n digwydd i ddata iechyd a gofal.
- Mae canran sylweddol o bobl yn credu bod cofnodion iechyd yn cael eu rhannu yn ehangach nag y maent mewn gwirionedd.
- Yn gyffredinol, cefnogir rhannu data lle gwelir bod hyn yn cyfrannu at well gofal, triniaethau neu wasanaethau.
- Diogelwch data yw'r pryder mwyaf cyffredin.
- Mae lefel eithaf uchel o ymddiriedaeth mewn perthynas â sut mae gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG).
- Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn hoffi gallu gweld eu cofnodion eu hunain a chael cyfle i gywiro unrhyw gamgymeriadau.

¹[Iechyd Ar-lein: agweddau'r cyhoedd at rannu data yn y GIG \(scot.nhs.uk\)](#)

- Mae pobl eisiau rhywfaint o reolaeth dros bwy sydd â mynediad i'w cofnodion.
- Roedd awydd am fesurau rheoli tynnach ar gyfer gwybodaeth iechyd arbennig o sensitif (iechyd meddwl, iechyd rhywiol ac ati)

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru² fod llawer yn ei gweld yn ddiflas gorfod ailadrodd yr un wybodaeth i lawer o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn sefyllfaoedd pan fo'r claf ar nifer o feddyginiaethau gwahanol ac o bosibl yn ei chael yn anodd cofio.

Mae angen teilwra gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd ar y defnydd o ddata i'r dibenion arfaethedig ar gyfer cyrchu a defnyddio data. Bydd priodoldeb trefniadau, a disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch trefniadau o'r fath yn amrywio yn seiliedig ar y dibenion y defnyddir y data ar eu cyfer – mae gan drefniadau ar gyfer rhannu a defnyddio data i gefnogi gofal uniongyrchol set wahanol o amodau a disgwyliadau o gymharu â defnydd eilaidd o'r data hyn, fel cynllunio ac ymchwil.

Er enghraifft, mae Cymru ar flaen y gad o ran sicrhau bod data cysylltiedig sy'n ddiennw ac ar raddfa fawr ar gael at ddibenion ymchwil mewn ffordd ddiogel drwy fanc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddiennw (SAIL). Mae'r dull hwn yn seiliedig ar fodel 'preifatrwydd drwy gynllunio' sydd wedi'i ddatblygu gan weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithgareddau cynnwys y cyhoedd helaeth, a hynny dros nifer o flynyddoedd. Mae SAIL wedi ymgymryd â'i weithgarwch cynnwys y cyhoedd ei hun, gan gynnwys creu Panel Defnyddwyr SAIL – fforwm chwarterol gyda 15 o gyfranwyr cyhoeddus sy'n helpu i gynghori tîm SAIL ar ei weithrediadau a'r rhai hynny â diddordeb mewn cyrchu data SAIL.

Mae tîm SAIL hefyd yn manteisio ar y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd helaeth a'r adnoddau a ddatblygwyd gan Ymchwil Data Iechyd (HDR) y DU, y mae Llywodraeth Cymru yn aelod craidd o'i bwyllgor cyllido (drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru). Mae hyn yn cynnwys bod yn rhan o'r [Fenter Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Ymchwil Data](#) (PEDRI), drwy ein haelodaeth graidd o HDR y DU ac Ymchwil Data Gweinyddol, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi mewnbwn arbenigol i ddatblygiadau ac yn cynghori ar sut y gellir cyflwyno a mabwysiadu mentrau a gweithgareddau perthnasol yng Nghymru.

Mae cynnwys y cyhoedd ac ymgysylltu â'r cyhoedd mewn perthynas â defnyddio data ar gyfer ymchwil yn ymdrech barhaus. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r byd academaidd a SAIL, wrthi'n ymgymryd â gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd i lywio'r broses o ddarparu [rhaglen waith arfaethedig 2022-2026 ar gyfer Ymchwil Data Gweinyddol \(YDG\) Cymru](#), sy'n cynnwys ymchwil yn defnyddio data iechyd. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd dangos dibynadwyedd cyhoeddus a sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r cyhoedd o ran ymchwil data gweinyddol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys paneli cyhoeddus (gan gynnwys [panel defnyddwyr SAIL](#)), gweithio gyda'r trydydd sector (ee fe wnaethom weithio mewn partneriaeth â'r [Weinyddiaeth Gyfiawnder a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau trydydd sector](#) i ddeall safbwyntiau gwrthrychau data), deialog gyhoeddus (ee rydym yn cyfrannu at [adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ac ADR y DU](#)), a digwyddiadau (ee roedd gennym bresenoldeb yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf 2023).

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud gwell defnydd o'n data iechyd a gofal. Mae'r byd yn troi'n ddigidol, ac mae disgwyliadau pobl o wasanaethau cyhoeddus yn newid. Bydd cynyddu ein defnydd o ddata yn hanfodol er mwyn cynnal trawsnewidiad digidol gwasanaethau yr ydym i gyd am ei weld yng Nghymru:

- symud i ffwrdd o gofnodion papur i rai digidol y gellir eu rhannu'n hawdd gyda'r gweithwyr proffesiynol priodol ym maes iechyd a gofal i ddarparu'r gofal gorau,
- defnyddio technolegau dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol gyda diagnosisu,
- rhoi mynediad i gleifion at eu cofnodion iechyd eu hunain yn ddigidol (bydd y rhai nad ydynt yn gallu gwneud hynny'n ddigidol yn gallu cael gafael ar eu cofnodion papur yn gyflymach hefyd) a
- sicrhau bod ymchwilwyr yn gallu cyrchu'r data sydd eu hangen arnynt i ddatblygu triniaethau achub bywyd.

Rydym yn gwybod mai po fwyaf o wybodaeth sydd gan gleifion, gweithwyr iechyd proffesiynol ac ymchwilwyr, y gorau mae'r penderfyniadau, y diagnosisau a'r canlyniadau iechyd yn debygol o fod.

Felly, rydym yn bwriadu gwella'r ffordd yr rydym yn storio, rhannu a defnyddio data iechyd a gofal. Fodd bynnag, rydym yn benderfynol o sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon ar sut yr ydym yn defnyddio, a sut yr ydym yn bwriadu defnyddio, data iechyd a gofal. Cyn bo hir, byddwn yn cychwyn ar gyfres o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn sicrhau y gall dinasyddion fynegi eu barn ar sut yr ydym yn rhannu data o fewn iechyd a gofal cymdeithasol, ac fel y gallwn nodi pryderon dinasyddion ynghylch y defnydd o'u data iechyd a gofal.

Bydd y deilliannau ymgysylltu â'r cyhoedd hyn yn llywio ein polisi ar rannu data iechyd a gofal yng Nghymru. Byddant hefyd yn ein helpu i ddatblygu ymgyrch wybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol o fewn y gwasanaeth, a'r cyhoedd, i'w hysbysu am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ffordd yr ydym yn rhannu data iechyd a gofal. Mae'r data hyn yn cynnwys y data personol mwyaf sensitif y gellir eu dychmygu, felly mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod pobl yn deall buddion gwell defnydd o'r data hyn a bod ganddynt dawelwch meddwl o ran diogelwch data ac yn hyderus y bydd eu data yn cael eu trin yn foeseogol ac yn briodol.

2. Y rhesymau dros gasglu data

Ar hyn o bryd mae data iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu casglu pryd bynnag y bydd person yn rhyngweithio â'r gwasanaeth. Mae eu data yn cael eu storio mewn llawer o ffolderi papur, cronfeydd data a systemau digidol. Nid yw'r systemau digidol hyn fel arfer yn gysylltiedig â'i gilydd, gan ei gwneud yn anodd sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael ar yr adeg iawn ar gyfer gofal cleifion.

Felly, rydym am wella'r ffordd yr ydym yn rhannu data ar draws a rhwng lleoliadau gofal a systemau clinigol, i gefnogi gofal uniongyrchol. Rydym hefyd am wella'r defnydd o ddata at ddibenion eilaidd, er enghraifft i helpu i gynllunio a rheoli'r gwasanaeth iechyd a gofal, i ddadansoddi iechyd y boblogaeth er mwyn targedu cymorth, i gynnal ymchwil (ee i driniaethau newydd) ac i sicrhau ansawdd y gwasanaeth iechyd a gofal a ddarperir.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad yr [Adnodd Data Cenedlaethol](#), y cyfeiriwyd ato gyntaf yn y cynllun [Cymru Iachach](#). Mae'r Adnodd Data Cenedlaethol yn rhaglen trawsnewid digidol ddeng mlynedd a fydd yn ei gwneud yn haws cysylltu data iechyd a gofal cymdeithasol o wahanol ffynonellau. Mae'r rhaglen wedi ymrwmo i fabwysiadu egwyddorion 'saerniaeth agored', 'platform agored' a 'safonau data cyffredin', gan ei

gwneud yn haws i'n systemau TG a'n gwasanaethau digidol 'siarad' gyda'i gilydd, drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol. Bydd platform yr Adnodd hefyd yn galluogi un cofnod iechyd a gofal digidol (hy y data sylfaenol y gellir eu gweld drwy sawl system wahanol ar draws arbenigeddau a lleoliadau). Bydd hyn yn gwella'r gallu i gyrchu, rhannu, cysylltu a defnyddio data o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Unwaith y bydd yr Adnodd wedi'i ddatblygu'n llawn, bydd mynediad i'w ddata iechyd a gofal yn cael ei reoli'n ofalus i sicrhau bod unrhyw rannu data yn briodol, yn foesegol ac yn gyfreithlon. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddatblygu fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas â'r Adnodd i archwilio'r ffordd orau o roi mynediad i'r data mewn ffordd ddiogel, a hefyd i gytuno ar y mesurau diogelu sy'n ofynnol a'r meini prawf y mae rhaid eu bodloni cyn cael mynediad.

Fel a nodwch yn gywir yn eich llythyr, gall sefydliadau ymchwil fel SAIL a phrifysgolion chwarae rhan allweddol o ran cynyddu'r data cleifion a gesglir a'r defnydd ohonynt, ac maent yn gwneud hynny. Rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant ein partneriaeth YDG Cymru yn y blynyddoedd nesaf, gan gaffael setiau data newydd a chynnal ymchwil bellach gan ddefnyddio data iechyd cysylltiedig heb fod yn adnabyddadwy a setiau data eraill, i lywio penderfyniadau'r llywodraeth. Mae ein rhaglen waith arfaethedig yn cyd-fynd yn ofalus â'r Rhaglen Lywodraethu.

3. Ansawdd a chyflawnrwydd data iechyd

Mae gennym ninnau hefyd bryderon am ansawdd a chyflawnrwydd data iechyd. Fel yr ydych wedi'i amlygu, mae cofnodi gwael a data coll yn golygu na ellir defnyddio data i'w llawn botensial a gall unrhyw ddadansoddiadau neu ddefnydd o'r data hynny arwain at ganlyniadau rhagfarnlyd. I gydnabod hyn, sefydlwyd Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru yn 2022 i fynd i'r afael â rhai o'r materion hirsefydlog o ran tystiolaeth gan gynnwys ansawdd, cyflawnrwydd a manylder. Mae'r Unedau hyn yn archwilio'r ffordd orau o gynnwys cymunedau yn eu gwaith, ac yn cefnogi dadansoddwyr i wneud hynny hefyd, yn enwedig gyda grwpiau llai o faint neu grwpiau nad oes digon o adrodd amdanynt.

Tynnwyd sylw arbennig at y ffaith bod data ethnigrwydd wedi'u cofnodi'n wael yn ystod y pandemig COVID-19. Er bod materion sy'n ymwneud â chofnodi data ethnigrwydd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, mae'r amharodrwydd i ddarparu gwybodaeth ethnigrwydd oherwydd pryderon ynghylch defnydd o'r data hefyd yn cyfrannu at y broblem hon. Mae gan Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd (ERDEU) Llywodraeth Cymru flaenoriaeth wedi'i chynnwys yn [eu rhestr o flaenoriaethau \(a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'u strategaeth\)](#) a fydd yn archwilio hyn. Disgwylir iddynt archwilio'r hyn sy'n gweithio i gynyddu parodrwydd i ddarparu data ethnigrwydd ar draws ystod o leoliadau gan gynnwys maes gofal iechyd.

Credwn y dylai cofnodion iechyd digidol, sy'n defnyddio safonau data cyffredin, sy'n gysylltiedig â'u cofnod demograffig, leihau gwallau posibl wrth gofnodi gwybodaeth ethnigrwydd a gwella cyflawnrwydd a chysondeb cofnodi data. Bydd Ap GIG Cymru (gweler adran 7) hefyd yn rhoi cyfle i gleifion adolygu eu cofnod iechyd eu hunain a chywiro neu gwblhau unrhyw wybodaeth sydd ar goll, a fydd hefyd yn gwella ansawdd y data.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru i sicrhau cysondeb data, gan gynnwys gosod safonau, tymor hwy ar gyfer y cofnod demograffig gyda'r nod o wella ansawdd a chyflawnrwydd yr holl ddata iechyd a gofal yn sylweddol. Mae'r lluo o systemau etifeddiaeth a'u dulliau dargyfeiriol o reoli data wedi golygu bod rhaid inni fabwysiadu dull graddol ac ystyrlon o ddatblygu, a fydd i ddechrau yn diffinio is-set graidd o ddata sy'n canolbwyntio ar gleifion, yn ogystal â'r defnydd ymarferol o safonau

rhyngweithredu mandadol i sicrhau bod y systemau etifeddiaeth presennol yn gallu defnyddio a rhannu'r data craidd hyn mewn ffordd ystyrlon.

Mae ein partneriaeth YDG Cymru yn falch o fod wedi caffael data Cyfrifiad 2021 i SAIL sydd wedi creu mwy o gyfleoedd i gysylltu data heb fod yn adnabyddadwy ag ymchwil sy'n ystyried nodweddion gwarchoddedig fel ethnigrwydd. Pan fydd bylchau data yn bresennol yng Nghyfrifiad 2021, bydd yn bosibl i ymchwilwyr achrededig sydd â phrosiectau cymeradwy fanteisio ar setiau data eraill yn SAIL (ee Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) a chynnwys data iechyd yn eu hymchwil. Mae hyn wedi'i gynnwys ym mhrosiectau arfaethedig YDG Cymru.

Mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil (sy'n rhan o'r Unedau) yn gweithio gydag ystod o feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys iechyd, i helpu i fonitro'r [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cefnogi'r meysydd hynny ar ddsbarthiad ethnigrwydd, casglu data a therminoleg i sicrhau eglurder, cysondeb ac ansawdd. Disgwylir yn y dyfodol y bydd yr Unedau yn gwneud gwaith tebyg ar draws ystod o grwpiau lleiafrifol pan fo angen gwella data. Er enghraifft, mae [Cynllun Gweithredu LHDTG+ Cymru](#) yn tynnu sylw at anghenion data penodol yn y lleoliad gofal iechyd ar gyfer pobl draws, anneauidd a rhyngryw (gweler cam gweithredu 25).

Rydym wedi ymrwymo i wella ansawdd a chyflawnrwydd yr holl ddata iechyd a gofal, yn enwedig ar gyfer grwpiau lleiafrifol, gan fod hynny'n hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethau iechyd a sicrhau darpariaeth gofal iechyd deg.

4. Y sbardunau ar gyfer casglu data

Fel y soniwyd yn adran 2 uchod, unwaith y bydd yr Adnodd Data Cenedlaethol wedi'i ddatblygu'n llawn, bydd mynediad i'w ddata iechyd a gofal yn cael ei reoli'n ofalus i sicrhau bod unrhyw brosesau rhannu data yn ddiogel, yn briodol, yn foesebol ac yn gyfreithlon er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, bydd y data ar gael gyda mesurau diogelu priodol i'r rhai sydd â gofyniad cyfiawn iawn am y data. Rydym yn disgwyl y bydd y mwyafrif o'r ceisiadau am fynediad data yn dod oddi mewn i'r GIG a gofal cymdeithasol, ond gellir rhoi mynediad hefyd i gyrff cyhoeddus eraill ac i ymchwilwyr allanol - ar yr amod bod eu cais yn bodloni'r meini prawf penodedig.

I gyflwyno'r Adnodd Data Cenedlaethol rydym ar hyn o bryd yn gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gytuno ar y broses a'r meini prawf ar gyfer rhoi mynediad i'r data a sut i flaenoriaethu'r ceisiadau hynny. Unwaith y bydd y broses hon wedi'i chytuno, bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Adnodd Data Cenedlaethol i gefnogi tryloywder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae YDG Cymru yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i'w helpu i gynyddu gwerth y data sydd ganddynt drwy rannu a chysylltu data ar gyfer ymchwil. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cynnal dau weithdy gydag awdurdodau lleol i ofyn iddynt sut y gallwn eu cefnogi'n well. Rydym hefyd wedi gofyn iddynt pa gwestiynau ymchwil sydd ganddynt y gallwn helpu i'w hateb gan ddefnyddio ein capasiti dadansoddi a ariennir yn allanol. Mae swyddogion a ariennir fel rhan o YDG Cymru hefyd yn cefnogi cyrff cyhoeddus eraill (ee Iechyd Cyhoeddus Cymru) i drosoli cyllid ychwanegol (ee Cyllid Canlyniadau a Rennir Trysorlys EF) ar gyfer ymchwil yng Nghymru a fydd yn eu helpu i gyrchu a defnyddio data yn effeithiol wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (ee gwasanaethau iechyd meddwl).

5. Cymhlethdod data

Ar hyn o bryd mae data iechyd a Gofal yn cael eu storio mewn ystod eang o systemau a fformatau a all ei gwneud yn anodd rhannu data a sicrhau eu bod ar gael i ddarparu gofal. Bydd yr Adnodd Data Cenedlaethol yn gwella'r gallu i gyrchu, rhannu, cysylltu a defnyddio data o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae ein partneriaeth YDG Cymru wedi cefnogi'r gwaith o greu Catalog Data YDG y DU a lanswyd ym mis Mehefin 2023 i'w gwneud yn haws i gyrff cyhoeddus ac eraill ddarganfod y casgliad cynyddol o setiau data gweinyddol sydd ar gael, gan gynnwys data iechyd a gofal cymdeithasol, ar gyfer ymchwil nwydd cyhoeddus. Mae hyn yn ategu [Porth Ymchwil Data Iechyd y DU](#), sef offeryn ar-lein sy'n darparu amlinelliad manwl, gan gynnwys metaddata perthnasol, ar setiau data yng Nghymru sydd ar gael i ymchwilwyr drwy fanc data SAIL.

6. Diogelwch data

Mae'r data hyn yn cynnwys y data personol mwyaf sensitif y gellir eu dychmygu; felly diogelwch data yw'r brif flaenoriaeth. Fel y soniwyd yn adran 2 uchod, bydd mynediad at ddata iechyd a gofal yn cael ei reoli'n ofalus i sicrhau bod unrhyw rannu data yn ddiogel, yn briodol, yn foesebol ac yn gyfreithlon er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae holl system YDG Cymru sy'n hwyluso'r broses o sicrhau nad yw data ar lefel yr unigolyn yn adnabyddadwy a'r broses o storio'r data hynny ar gyfer ymchwil ddiogel wedi ei hachredu yn unol â Deddf yr Economi Ddigidol. Caiff hyn ei asesu gan Awdurdod Ystadegau y DU. Mae hyn yn golygu bod SAIL a Gofal Iechyd Digidol Cymru wedi cwblhau asesiadau cydymffurfio ar sail tystiolaeth i ddangos mesurau rheoli diogelwch a thechnegol digonol, mesurau rheoli galluogrwydd data, ac mae gan eu staff y sgiliau a'r profiad priodol i gael eu hachredu fel prosesydd data o dan y Ddeddf honno. Caiff hyn yn cael ei asesu'n rheolaidd. Mae cadarnhad o'r achrediad hwn ar gael ar y [gofrestr gyhoeddus](#).

Rydym yn benderfynol o sicrhau bod y cyhoedd yn fodlon ar sut yr ydym yn defnyddio, a sut rydym yn bwriadu defnyddio, data iechyd a gofal. Fel y soniwyd yn adran 1 uchod, byddwn cyn bo hir yn cychwyn ar gyfres o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn sicrhau y gall dinasyddion fynegi eu dymuniadau a'u safbwyntiau ynghylch sut yr ydym yn rheoli ac yn darparu mynediad at eu data o fewn maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel y gallwn ystyried y dymuniadau hynny.

7. Datblygiadau o ran casglu a defnyddio data

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cefnogi datblygiad Ap GIG Cymru a fydd yn rhoi mynediad i gleifion at wybodaeth a gwasanaethau'r GIG, a hefyd at eu cofnodion meddygol eu hunain. Fe wnes i ddatganiad i'r Senedd ar argaeledd yr Ap ar 9 Mai 2023.

Mae'r Ap hwn bellach ar gael i ddinasyddion Cymru ei lawrlwytho, gyda swyddogaeth ychwanegol ar gael mewn ffordd a reolir dros y misoedd nesaf. Mae rhai o swyddogaethau'r Ap, fel mynediad ynddo i wirwyr symptomau 111 a gwasanaethau rhoi organau, eisoes ar gael i bawb; ond bydd rhai eraill, fel trefnu apwyntiadau, presgripsiynau rheolaidd, a gweld cofnodion meddygol, canlyniadau profion, presgripsiynau, ond ar gael unwaith y bydd y meddygfa'r sawl sy'n defnyddio'r Ap wedi galluogi'r swyddogaeth.

Rydym wrth gwrs yn ymwybodol o'r ffaith na fydd gan bob dinesydd ffôn clyfar, felly bydd yr un wybodaeth sydd ar gael drwy'r Ap hefyd ar gael drwy wefan GIG Cymru. Mae'r Ap a'r wefan wedi'u cynllunio i weithio gyda'r feddalwedd hygyrchedd bresennol, yn unol â chenhadaeth Cynhwysiant Digidol ein Strategaeth Digidol a Data ddiwygiedig.

Mae'r rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd yn lechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n datblygu Ap GIG Cymru, yn gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i ddarparu cymorth digidol ychwanegol mewn cymunedau i'r rhai sy'n llai abl i ddefnyddio'r Ap neu'r wefan. I'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, nid yn unig o ran mynediad at ddyfeisiau ond hefyd o ran mynediad i'r rhyngwyd a'u hyder digidol, byddant yn gallu cael mynediad at eu cofnod cleifion drwy ofyn amdano yn eu meddygfa fel a wnânt heddiw. Wrth i ragor o gleifion (sy'n gallu gwneud hynny) ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir yn ddigidol, bydd hyn yn cynyddu capasiti i'r rhai heb fynediad digidol barhau i ddefnyddio dulliau traddodiadol o ryngweithio (ee dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ati).

8. Ymgysylltu â chleifion

Fel y soniwyd yn adran 1 uchod, byddwn yn cychwyn ar gyfres o weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, er mwyn sicrhau y gall dinasyddion fynegi eu dymuniadau a'u safbwyntiau ar sut yr ydym yn rheoli ac yn darparu mynediad at eu data o fewn maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel y gallwn ystyried y dymuniadau hynny.

Un o genadaethau craidd ein [Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan ymchwil ar ddefnyddwyr, cynllunio ar gyfer defnyddwyr ac adborth gan ddefnyddwyr. Rydym hefyd wedi ymrwmo i gefnogi sefydliadau eraill i fabwysiadu'r dull hwn.

Mae'r Strategaeth ddiwygiedig yn nodi'r disgwyliad i bob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol a'n partneriaid cyflenwi sicrhau bod anghenion y defnyddiwr bob amser wrth wraidd y ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu. Hefyd, bydd ein gwasanaethau digidol yn cydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud â hygyrchedd i leihau anghydraddoldebau o ran mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae ein hymrwymiad i roi defnyddwyr wrth wraidd ein taith trawsnewid digidol wedi'i osod yn glir yn ein Strategaeth Digidol a Data ddiwygiedig. Mae'n datgan fel a ganlyn: "Bydd ein gwasanaethau digidol yn gyson, yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i bawb, a byddant yn cynnig systemau adborth er mwyn i bobl allu rhoi gwybod inni am eu profiadau. Mae hyn yn cynnwys cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, defnyddwyr, a staff. Yr elfen hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau digidol yw rhoi'r defnyddiwr wrth galon a chraidd y modd y cynllunnir y gwasanaeth trwy ddefnyddio Dylunio sy'n Canolbwyntio ar y Defnyddiwr. Bydd ein gwasanaethau digidol yn cael eu seilio ar ddealltwriaeth benodol o'n defnyddwyr, eu hanghenion a'u hamgylchedd. Byddant ein gwasanaethau'n cael eu hysgogi a'u mireinio gan waith gwerthuso ac adborth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, a byddant yn ymdrin â phrofiad cyfan y defnyddiwr. Bydd ein proses yn cynnwys defnyddwyr drwy gydol y camau dylunio a datblygu, a bydd yn broses ailadroddol."

At ddibenion ymchwil, mae ffocws cynyddol ar sut y gellid defnyddio data iechyd a gofal i gefnogi recriwtio mwy effeithiol a chynhwysol ar gyfer treialon ymchwil. Mae'r dulliau hyn yn gofyn am fynediad priodol at ddata adnabyddadwy felly nid ydynt yn wasanaethau y gellir eu darparu'n uniongyrchol gan SAIL (sy'n seiliedig ar ddata dienw). Mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar sut y gellir creu'r mathau hyn o wasanaethau, gyda gwaith cynnwys y cyhoedd wrth wraidd datblygiadau. Mae hyn yn cynnwys cyfranwyr cyhoeddus ar y gweithgor 'Data ar gyfer Ymchwil' sy'n goruchwylio'r gwaith hwn, cynlluniau ar gyfer gweithgarwch cynnwys y cyhoedd pwrpasol wrth weithredu

unrhyw wasanaethau o'r fath, a gwaith parhaus i ddylunio a chyflwyno deialog gyhoeddus ddeallusol ar gyrchu a defnyddio data ar gyfer nodi a mynd at unigolion ynghylch cyfleoedd ymchwil.

9. TG a datblygu'r gweithlu

Mae Bwrdd Tystiolaeth Strategol Llywodraeth Cymru yn ystyried gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer seilwaith data i sicrhau y bydd yn cyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd gennym, gan edrych ar y goblygiadau ariannol cysylltiedig ochr yn ochr â hyn. Mae'r cyfyngiadau presennol ar gyllidebau cyhoeddus yn heriol, ond rydym yn gwerthfawrogi y gall buddsoddiadau mewn TG a seilwaith data arwain at welliannau o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a deilliannau polisi, cyflawni a phrosesau gwneud penderfyniadau deddfwriaethol, ac felly yn darparu gwerth am arian.

Rydym yn cefnogi datblygiad y Gwasanaeth Data Integredig newydd trawslywodraethol a arweinir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond rydym yn awyddus i gadw sofraniaeth data Cymru.

Wrth inni symud i ddibynnu mwyfwy ar wasanaethau digidol, rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i fuddsoddi yn sgiliau TG a digidol sylfaenol ein gweithlu iechyd a gofal. Mae Strategaeth Ddigidol Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol er mwyn cyflawni ei gweledigaeth o wella bywyd pawb drwy gydweithio, arloesi a gwell gwasanaethau cyhoeddus.

Un o genadaethau craidd eraill ein [Strategaeth Digidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yw gwella sgiliau digidol. Mae'r strategaeth yn nodi y byddwn yn gwneud y canlynol:

- Darparu hyfforddiant a chymorth i greu 'gweithlu sy'n barod ar gyfer y byd digidol' ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, gweithlu sydd â'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio gwasanaethau digidol a gwasanaethau data i'w llawn botensial ar bob lefel, o weithlu'r dyfodol hyd at uwch-arweinwyr. Un enghraifft yw datblygiad Fframwaith Gallu Digidol gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, a ddyluniwyd i gefnogi ein staff nad oes ganddynt allu digidol i nodi'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu hyder digidol
- Cefnogi'r cyhoedd a chleifion drwy hyrwyddo llythrennedd digidol a gwneud gwasanaethau digidol yn haws, wedi'i llywio gan gynllunio ar gyfer y defnyddiwr.
- Cryfhau'r proffesiwn iechyd a gofal cymdeithasol digidol yng Nghymru drwy hyfforddiant a recriwtio sy'n targedu anghenion y dyfodol.
- Defnyddio dull Canolfan Ragoriaeth i ddatblygu arbenigedd proffesiynol dwfn mewn meysydd allweddol: proses gynllunio ystwyth sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, Microsoft 365, y Cwmwl, mewnwelediadau data a llywodraethu gwybodaeth.
- Ymrwymo i feithrin sgiliau ar draws meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach gan ddefnyddio meistrfynegai staff i olrhain ac archwilio sgiliau, galluoedd ac arbenigedd.

Rydym yn bwriadu datblygu'r gallu a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y pum mlynedd a mwy nesaf drwy ail-broffilio ein proffesiwn digidol drwy recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol Cymru. Dim ond pan fyddwn yn mabwysiadu dull safonol o ddarparu gwasanaethau digidol y gellir eu defnyddio yn effeithiol. Gall partneriaeth rhwng Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yr Academi Dysgu Dwys, Gofal Cymdeithasol Cymru, YDG Cymru a Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru helpu i ddatblygu sgiliau ledled y wlad drwy wneud diagnosisu a llenwi bylchau mewn sgiliau digidol, dadansoddeg a thechnoleg ar draws sefydliadau. Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn cynllunio ac yn gweithredu rhaglenni datblygu sgiliau digidol ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Yna gall Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac

awdurdodau lleol annog sefydliadau ar draws y system gyfan i fabwysiadu hyfforddiant sgiliau digidol eang. Gellir addasu'r rhain, yn seiliedig ar anghenion gweithwyr, a gellir eu darparu gan eu sefydliadau penodol.

Diolch am rannu themâu eich pryderon ynghylch cyfiawnder data o fewn y gwasanaeth iechyd a gofal. Rwy'n gobeithio y bydd crynodeb o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn yn eich sicrhau ein bod yn rhannu llawer o'r pryderon a godwyd ac eisoes yn gweithio i ymdrin â hwy.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

20 Gorffennaf 2023

Annwyl Jane,

Ymchwiliad i gyfiawnder data

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ymchwiliad undydd i gyfiawnder data. Gyda'r bwriad o gynnal ymchwiliad byr, wedi'i dargedu, rydym wedi canolbwyntio ar y defnydd o ddata personol yn GIG Cymru, pa mor ddiogel yw'r data hyn, a sut y cânt eu defnyddio a'u rhannu pan gaiff rhagnodi electronig (e-ragnodi) ei gyflwyno. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys y cylch gorchwyl ar gael ar ein [gwefan](#).

Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg wrth i ni gasglu tystiolaeth ac rydym yn eu tynnu at eich sylw i'w hystyried wrth i Lywodraeth Cymru symud ymlaen yn y maes hwn. Mae crynodeb manylach o'r dystiolaeth a gasglwyd ynghlwm fel atodiad.

Dealltwriaeth y cyhoedd o ddata gofal iechyd

Mae GIG Cymru yn cynhyrchu symiau sylweddol o ddata cleifion, yn dibynnu ar y rhain, yn eu cadw ac yn adrodd arnynt. Fodd bynnag, clywsom fod angen i negeseuon cyhoeddus am ddata gael eu cydbwysu'n well rhwng diogelwch data, risg a phryderon a'r potensial ar gyfer defnyddio data ym maes ymchwil a gwella gofal i gleifion.

A fyddechystal ag amlinellu effeithiolrwydd rhaglenni ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd i wella a rhannu dealltwriaeth o'r pryderon a'r manteision posibl ynghylch casglu a defnyddio data iechyd.

Y rhesymau dros gasglu data

Er bod lefel dda o ymddiriedaeth yn y GIG a sefydliadau ymchwil, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cleifion yn fwy petrusgar ynglŷn â rhannu data â sefydliadau yn y sector preifat.

Gall y GIG, sefydliadau ymchwil fel SAIL a phrifysgolion chwarae rhan allweddol o ran gwneud y gorau o gasglu a defnyddio data cleifion, ac maent yn gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r pandemig diweddar wedi dangos gwerth posibl gwaith gweithredol gyda'r sector masnachol, gyda mesurau



diogelu priodol. Gall y partneriaethau hynny chwarae rhan arwyddocaol o ran gwella gofal i gleifion cyn belled â bod mesurau diogelu ar waith yn erbyn cynaeafu data at ddibenion masnachol.

Ansawdd a chyflawnrwydd data iechyd

Clywsom bryderon penodol am y tangofnodi posibl o ddata sy'n ymwneud â grwpiau lleiafrifoedd ethnig, y rheini sydd dan anfantais gymdeithasol neu economaidd, a menywod. Gall tan-gynrychiolaeth o'r fath olygu nad yw eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau. At hynny, codwyd cwestiynau ynghylch anghydbwysedd mewn gwaith ymchwil oherwydd ansawdd y data sydd ar gael.

Er bod safonau codio ethnigrwydd yn bodoli ar gyfer ymchwilwyr, cânt eu defnyddio'n anghyson ar draws y DU. Mae data anghyflawn, cofnodi gwael a data coll yn golygu nad oes modd defnyddio data i'w lawn botensial.

Efallai eich bod yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd yn ddiweddar gan Gynghrair Ymchwil Data Iechyd y DU, sydd wedi galw am weithredu i wella'r gwaith o godio data ethnigrwydd ac wedi nodi nifer o argymhellion drafft i ddatblygu hyn, gan gynnwys:

- yr angen i gofnodi data ethnigrwydd yn gyson ar draws pedair gwlad y DU; ac
- yr angen i gyflwyno canllawiau a/neu hyfforddiant safonol ar gyfer casglwyr data yn lleoliadau'r GIG a gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, mae Uned Gwahaniaethau ar sail Hil Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi safonau diwygiedig ar gyfer data ethnigrwydd yn ddiweddar sy'n rhoi arweiniad ar arfer gorau wrth gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata ethnigrwydd.

Mae'r angen i sicrhau bod pob grŵp yn cael ei gynrychioli'n effeithiol wrth gasglu a defnyddio data yn un o egwyddorion allweddol cyfiawnder data. Mae'r gallu i gasglu a defnyddio setiau data mawr yn hanfodol, ond dylid ei gydbwysio hefyd â'r angen i weithio gyda grwpiau llai neu grwpiau nad ydynt yn cael eu hadrodd yn **Byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ar sicrhau gwaith mwy cyson a chyflawn o gasglu a defnyddio data ethnigrwydd.**

Yr hyn sy'n sbarduno prosesau casglu data

Un o'r prif bethau a allai sbarduno mathau penodol o gasglu data, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig ag ymchwil, yw argaeledd adnoddau neu gyllid sy'n gysylltiedig â phrosiectau neu raglenni penodol. Mae'n amlwg bod gan hyn y potensial i wyro blaenoriaethau ac ar ben hynny, i dynnu'r ffocws oddi ar grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y data sydd ar gael, fel y trafodwyd uchod.

Mae angen sicrhau bod casglu a defnyddio data yn gwasanaethu blaenoriaethau penodol. Dylai gwella gofal i gleifion a gwella rhannu gwybodaeth ar draws lleoliadau gofal a ffiniau sefydliadol fod yn sbardun allweddol ar gyfer datblygiadau ym meysydd ymchwil a data, fel e-ragnodi. **A fyddech cystal â nodi barn Llywodraeth Cymru ar gynyddu gwaith gyda chyrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gallu cyrchu a defnyddio'r ystod lawn o ddata yn effeithiol wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.**

Cymhlethdod data

Mae data i'w cael yn aml mewn amrywiaeth eang o systemau a fformatau ac, oherwydd hynny, gall fod yn anoddach eu hintegreiddio a'u defnyddio.

Dywedodd Mr Rhidian Hurle o Lechyd a Gofal Digidol Cymru: "the delivery of a health and care record should be available wherever the patient presents", ond mae rhannu data rhwng un corff a'r llall yn parhau i fod yn her sylweddol i GIG Cymru.¹ Mae e-ragnodi a'r cofnod meddyginiaeth a rennir yn gyfle i rannu data yn well ar draws lleoliadau gofal, ond mae angen gwneud cynnydd sylweddol o hyd.

Diogelwch data

Mae diogelwch data a llywodraethu gwybodaeth effeithiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol mewn amgylchedd gofal cynyddol ddigidol. Mae angen i fesurau diogelu ddatblygu ochr yn ochr â systemau, a rhaid i ddymuniadau a safbwyntiau cleifion ynghylch rheoli eu data iechyd, a mynediad atynt, gael eu hadlewyrchu a'u parchu.

Datblygiadau o ran casglu a defnyddio data

Mae'n amlwg bod potensial i ddatblygiadau ym maes technoleg ddigidol a data, fel Ap GIG Cymru, ei gwneud yn haws i gleifion weld data am wasanaethau a'u cofnodion iechyd eu hunain. Clywsom fod y pandemig diweddar wedi ysgogi newid a datblygiad offer a dulliau gweithredu newydd. Ac eto mae'n bwysig parhau i fod yn ymwybodol o allgáu digidol, nid yn unig o ran mynediad at ddyfeisiau ond hefyd mynediad at wi-fi a'r ystod ddilynol o wasanaethau a rhaglenni digidol y mae hyn yn eu cynnig. **A fyddechystal â nodi cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi mynediad digidol uniongyrchol i gleifion i'w cofnodion.**

Ymgysylltu â chleifion

Cafwyd cydnabyddiaeth eang yn ein tystiolaeth fod ymgysylltu â chleifion a llais y claf yn dal i chwarae rhan gyfyngedig o ran datblygu a rheoli data a systemau data. Prin yw'r dystiolaeth a glywsom am ymdrechion penodol i ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, ac roeddem yn pryderu nad oedd yn ymddangos bod gan Lechyd a Gofal Digidol Cymru ddull clir nac eang o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei raglenni. **A fyddechystal â nodi barn Llywodraeth Cymru ar sut mae modd rhoi ymgysylltu â chleifion yn fwy pendant wrth wraidd y gwaith o ddatblygu data a systemau data.**

TG a datblygu'r gweithlu

Er na chawsant eu trafod yn fanwl yn ein hymchwiliad, rydym yn ymwybodol o bryderon a godwyd ynghylch buddsoddi mewn TG sylfaenol a datblygu'r gweithlu o ran sgiliau data a llythrennedd, yn fwyaf diweddar gan y Pwyllgor Lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn eu gwaith craffu ar Lechyd a Gofal Digidol Cymru.² Rydym yn nodi'r farn a nodir yn eu hadroddiad bod cael y sgiliau a'r capasiti cywir yn y gweithlu yn allweddol i

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, [27 Mawrth 2023](#), Cofnod y Trafodion, paragraff 191

² Y Pwyllgor Lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, [Craffu ar Lechyd a Gofal Digidol Cymru](#), Gorffennaf 2023



gyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y mater hwn yn ystod ei thrafodaethau cyllidebol sydd ar y gweill.

Y camau nesaf

Byddem yn croesawu eich sylwadau mewn perthynas â'r themâu a nodir uchod a'n canfyddiadau interim ar gyfiawnder data yn ehangach. Yn benodol, byddem yn croesawu crynodeb o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

Rydym yn bwriadu dychwelyd at yr ymchwiliad hwn yn nhymor yr hydref, pan fyddwn yn clywed gan banel yn cynrychioli llais y claf, er mwyn caniatáu inni drafod y mater hwn ymhellach.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Jenny Rathbone". The signature is written in a cursive style with a large initial 'J'.

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Atodiad 1: Crynodeb o themâu allweddol a materion sy'n codi o dystiolaeth cyfiawnder data a gafodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Gorffennaf 2023

Tudalen y pecyn 338

1. Pennu'r cyd-destun: deall cyfiawnder data

Mae angen dealltwriaeth a diffiniad clir a chydgyssylltiedig o gyfiawnder data. Roedd adroddiad cwmpasu gan gynghorwyr arbenigol y Pwyllgor yn rhoi cefndir gan gynnwys sawl diffiniad a thema allweddol:

Mae **Cyfiawnder Data Iechyd wedi cael ei ddiffinio** fel a ganlyn: "an orientation to the study and use of health-related data in ways that aim to redress the exclusions of structurally marginalized communities from systems of healthcare and public health, the oppressions faced by communities when participating in such systems, and the institutions responsible for governing participation.[...]"

Mae'r modd y mae ein gweithgareddau yn cael eu trosglwyddo yn ddata ym maes gofal iechyd yn effeithio ar y drefn o ran cyflawni gwaith ymchwil a darparu gofal. Gallai newid y ffordd mae cleifion yn cael gafael ar



wasanaethau, pa driniaeth sydd ar gael a phwy sy'n gymwys i'w chael. Gan fod algorithmau yn cael eu defnyddio i gyfrifo a rhagweld sut y defnyddir y gwasanaethau hyn, mae'n bosibl y gallai unrhyw wall neu ogwydd yn y systemau achosi niwed corfforol a meddyliol difrifol. Mae gwaith ymchwil wedi dangos, er y gall systemau o'r fath effeithio arnom i gyd, nid ydynt yn effeithio arnom yn gyfartal. **Wrth galon y dull cyfiawnder data iechyd, mae ffocws ar anhydraddoldeb a'r effaith ar gymunedau sydd ar y cyrion.**

... mae dadleuon cyfiawnder data wedi tynnu sylw at y graddau y gallai cyflwyno **arloesedd sy'n seiliedig ar ddata**, yn enwedig yn y gwasanaethau cyhoeddus, **newid blaenoriaethau o ran polisi cyhoeddus** yn seiliedig ar ddehongliadau cyfrifiadurol o faterion cymdeithasol sydd â chanlyniadau o ran cyfiawnder cymdeithasol. [...]

Tynnodd yr adroddiad cwmpasu sylw hefyd at y potensial i dechnoleg waethygu anhydraddoldebau data, gan nodi mai **man cychwyn unrhyw algorithm yw dewis y broblem y mae wedi'i chynllunio i'w datrys**, a gall:

y penderfyniad i fynd i'r afael â mater gofal iechyd gan ddefnyddio technoleg sydd wedi'i llywio gan ddata ddod yn fater o gyfiawnder cymdeithasol pan fydd yn canolbwyntio ar anghenion grŵp breintiedig, gyda'r risg y gallai hynny waethygu anghyfiawnderau economaidd-gymdeithasol, hiliol neu ryweddol. [...] Gall y penderfyniad i fynd ar drywydd y defnydd o dechnolegau sy'n cael eu llywio gan ddata mewn gofal iechyd arwain at gyfeirio adnoddau at grwpiau penodol o gleifion pan fydd ffocws ar agwedd benodol ar y dechnoleg.

2. Dealltwriaeth y cyhoedd o ddata gofal iechyd

Mae GIG Cymru yn cynhyrchu, yn dibynnu ar, yn cadw ac yn adrodd ar symiau sylweddol o ddata cleifion. Drwy **Borth Clinigol Cymru**, gall clinigwyr gael gafael ar gofnodion digidol miliynnau o gleifion, a gellir eu rhannu â miloedd o ddefnyddwyr y GIG. Nid yw llawer o'r data yn 'weladwy'. Clywodd y Pwyllgor y gellir hefyd gael negeseuon cymysg am ddata: dylid cydbwysu ffocws cryf ar ddiogelwch data, colli data, risg a phryderon ynghylch pwy sy'n defnyddio'r data â negeseuon mwy cadarnhaol efallai ynghylch sut y gellir defnyddio data ar gyfer ymchwil a gwella gofal cleifion. Cyfeiriodd papur yr ymgynghorwyr arbenigol at Bwyllgor Caldicott gan nodi:

Mae sicrhau preifatrwydd hefyd yn dibynnu ar gyfyngu mynediad at ddata i leihau'r risg o dor diogelwch. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd rhannu data er budd diogelwch cleifion a gofal clinigol yn egwyddor sydd wedi hen ennill ei phlwyf ym maes gofal iechyd.

Clywodd y Pwyllgor bryderon ynghylch faint yw ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r angen i feithrin gwell gwybodaeth gyhoeddus am ddata gofal iechyd a'i ddefnydd. Dywedodd Chris Carrigan o useMYdata:

Mae diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol ymhlith pobl ynghylch sut mae eu data gofal iechyd yn cael ei ddefnyddio—mae'n anodd i glaf ddeall beth sydd yn eu data gofal iechyd oherwydd ni allant, ar y cyfan, weld popeth—a diffyg dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am y gwir fanteision posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio data gofal iechyd i'r GIG, ar gyfer gwaith cynllunio ac ymchwil. Yr hyn y mae'r cyhoedd yn tueddu i'w glywed i raddau helaeth yw negeseuon negyddol am golli data, hacio data a risg, ac felly mae hynny'n ennyn canfyddiad y cyhoedd bod data yn rhywbeth na ellir ymddiried ynddo, pan ydym, mewn gwirionedd, yn awyddus i symud yr agenda at rywbeth sy'n dweud, 'Gellir ymddiried mewn data. O'u defnyddio'n gywir, gallwn wir eu defnyddio i achub bywydau.' (para.8)

Amlinellodd hefyd gyfranogiad UseMY data mewn gweithdai gyda chleifion, y cyhoedd a staff clinigol i archwilio cwestiynau ynghylch defnyddio data.

Nododd yr Athro Ann John o Brifysgol Abertawe rôl allweddol ymwybyddiaeth y cyhoedd o werth data gofal iechyd:

[...]gwelwyd yn glir iawn yn ystod COVID mai ar sail ymddiriedaeth y mae pobl yn gwneud y penderfyniadau hyn. Yn aml iawn, y bobl fwyaf agored i niwed, ymylol, sy'n cael eu gwasanaethu leiaf—yr union bobl rydym am wneud hyn ar eu cyfer a gyda hwy—yw'r rhai fydd yn dewis optio allan, sy'n golygu na fydd ganddynt lais. (para.19)

Yn yr un modd, nododd bapur cwmpasu'r ymgynghorydd arbenigol yr angen i fod yn glir ynghylch y defnydd o ddata:

Fel gwasanaeth iechyd a gaiff ei ariannu gan drethdalwyr, mae'r cyhoedd yn teimlo'n gryf y dylai penderfyniadau am ddefnyddio data'r GIG ystyried y manteision hirdymor posibl i genedlaethau'r dyfodol yn hytrach nag elw ariannol yn y tymor byr.

3. Y rhesymau dros gasglu data

Ynghyd â gwella dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd, mae meithrin a sicrhau ymddiriedaeth yn allweddol wrth ddatblygu a defnyddio data. Er bod lefel dda o ymddiriedaeth yn y GIG a sefydliadau ymchwil, mae'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor a sefydliadau ymchwil yn awgrymu bod cleifion yn fwy petrusgar ynglŷn â rhannu data â sefydliadau yn y sector preifat.

Mae gwaith a wnaed gan Understanding Patient Data yn ategu hyn, fel y gwnaeth Chris Carrigan (useMYdata) mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor:

[...]y pellaf y mae rhywun yn mynd oddi wrth y clinigydd sy'n eu trin, y lleiaf yw'r ymddiriedaeth sydd ganddynt yn pwy sy'n defnyddio ei ddata. Felly, ymddiriedaeth uchel mewn meddygon teulu ac yna ysbytai, ac yna'r byd academaidd, prifysgolion, ac yna allan i gwmnïau masnachol. (para.28)

Yn yr un modd, nododd yr Athro Ann John:

Mae pobl yn ymddiried yn y GIG, maen nhw'n ymddiried yn y bobl sy'n ymwneud â'u gofal uniongyrchol, maen nhw'n ymddiried mewn academyddion. Gall fod ychydig mwy o ddrwgdybiaeth gyda diwydiant. Ond mae'n credu ei fod yn gysylltiedig â chyfranogiad gweithredol, tryloywder ac ymgysylltiad ar bob lefel, a chyfathrebu â phobl (para.63)

Pwysleisiodd MrRhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Dewis y claf yw datgelu ei hanes clinigol, ei hanes meddygol, ei hanes personol, a'r dewis hwnnw'n llwyr. Mae'r berthynas rhwng gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac unigolyn yn seiliedig ar ymddiriedaeth. (para.219)

Cyffyrddwyd â'r ymdeimlad hwn o berchnogaeth a dealltwriaeth cleifion o'r rhesymau dros gasglu data hefyd mewn tystiolaeth gan yr Athro Ronan Lyons o Fanc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Soniodd yr Athro Lyons am fanteision diriaethol casglu data sy'n ymwneud â brechlyn COVID-19 ac mewn treialon clinigol llai:

[...] mai'r gallu i ddod â data at ei gilydd o lawer o wahanol ffynonellau, oedd yn eu galluogi i ddeall pwy oedd yn cael eu heintio a pham y gallent fod yn cael eu heintio. Roedd yn caniatáu iddynt edrych ar gyd-destun heintiau, boed hynny yn y gymuned yn gyffredinol, mewn lleoliadau gofal iechyd, mewn cartrefi gofal, ac mewn poblogaethau ysgolion hefyd. Ac yna, roedd hefyd yn caniatáu iddynt edrych ar effeithiolrwydd ymyriadau. Y mwyaf amlwg o'r rheini fyddai wrth gyflwyno'r brechlyn: pa mor dda oedd y brechlynnau yn gweithio wrth amddiffyn pobl... (para.250)

Ac yn aml, cynhelir treialon clinigol mewn grwpiau o bobl sydd ag un cyflwr, neu hyd yn oed fersiwn ysgafn ohono, oherwydd mae'n haws dangos a yw'r driniaeth yn gweithio ai peidio. Ond yna, defnyddir y cyffuriau a'r brechlynnau hynny yn y boblogaeth gyfan, ac mae angen i chi hefyd edrych ar yr hyn a elwir yn ddata tystiolaeth y byd go iawn, o ran pa mor dda y maent yn gweithio, ai peidio. (para.250)

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd BMA Cymru Wales

[...] bydd rhannu data ar lefel cleifion yn hanfodol er mwyn sicrhau proses gynllunio a arweinir gan ddata ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol. Mae croeso i ddatblygiadau fel yr Adnodd Data Cenedlaethol a banc data SAIL weithredu fel storfa i alluogi gwaith cynllunio ac ymchwil effeithlon a chywir. Dim ond pan fydd data cyfrinachol

cleifion yn cael eu rhannu a'u cysylltu â setiau data eraill mewn Gofal Sylfaenol, Gofal Eilaidd, a Gofal Cymdeithasol y gall hyn weithredu.

Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethu a diogelwch data gael eu saernio'n rhan o'r broses o'r cychwyn cyntaf a dadl onest gyda'r cyhoedd yn cael ei chynnal fel eu bod yn ymwybodol y bydd eu cofnodion meddygol yn cael eu defnyddio at y diben hwn gyda mesurau diogelu a chyfrinachedd unigolion yn cael eu cynnal.

4. Ansawdd a chyflawnrwydd data iechyd

Clywodd y Pwyllgor bryderon am hyn, gan gynnwys y posibilrwydd nad yw data'n cael eu cofnodi'n ddigonol ar gyfer pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol a grwpiau cymdeithasol difreintiedig, yn ogystal â phobl sydd â chyswllt cyfyngedig â gwasanaethau iechyd. Gallai hyn olygu na fyddai eu hanghenion yn cael eu hadlewyrchu wrth gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, roedd rhai'n amau a oedd yr holl ddata a oedd ar gael o ansawdd digonol i'w defnyddio'n effeithiol, a bod llawer iawn o ymchwil yn seiliedig ar naill ai seiliau poblogaeth mawr iawn neu fach iawn.

Nododd y cynghorwyr arbenigol:

Mae gwahardd menywod o rai meysydd ymchwil feddygol a gwahaniaethau yng ngofal iechyd cleifion benywaidd wedi'i gofnodi'n dda ac yn ymddangos yn y data. [...] Os yw'r math hwn o waharddiad yn cael ei gario drosodd i ddylunio algorithm, fel y dengys yr enghraifft hon, gall achosi niwed difrifol i fenywod.

Nodwyd hefyd:

Mae'r diffyg hanesyddol o gofnodi ethnigrwydd ar dystysgrifau marwolaeth wedi methu â rhoi darlun clir i'r awdurdodau o'r effaith anghyson a gafodd COVID ar boblogaethau ethnig leiafrifol a'r rhai a oedd yn gweithio mewn swyddi wyneb yn wyneb yng nghyfnod cynnar y pandemig. Oherwydd hyn, bu oedi cyn cyflwyno mesurau diogelu a allai fod wedi achub bywydau.

Nododd yr Athro Ann John yr angen i feithrin ymddiriedaeth ynghylch casglu data ar lefel poblogaeth, ond hefyd gwaith penodol iawn gyda phoblogaethau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol (para.19):

Yr hyn rydyn ni wedi'i ddarganfod gyda phoblogaethau penodol, ac rydyn ni wedi gweld llawer ohono yn ystod COVID, yw bod gwaith cofnodi gwael o ran data ethnigrwydd yn broblem wirioneddol. (para.22)

Nododd yr Athro Ronan Lyons o SAIL:

Mae casglu gwybodaeth am ethnigrwydd wedi bod yn orfodol ers sawl blwyddyn yn y GIG ar draws y DU, ond nid yw'n wych o hyd, felly mae'n rhywbeth sydd angen ei wella [...], ac nid yw'n hyderus y byddai mesur y GIG o ran ethnigrwydd yn dda iawn. (para.307)

Nododd yr Athro John ei bod yn bwysig iawn deall yr adnoddau sydd eu hangen i gyrraedd grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol, ond hefyd canfod y ffyrdd o sicrhau bod ganddynt lais yn y data a'r angen am gyllid cyson i wneud y gwaith hwnnw a chadw pobl wedi ymgysylltu (para.81).

Nododd Dr Robert French o useMYdata ei bod yn debygol nad yw wahaniaeth i ymchwilyr sy'n cynnal ac yn defnyddio setiau data mawr wrth chwilio am effeithiau cyfartalog, os yw rhai pobl ar goll o'r data. Mae hyn, fodd bynnag yn pwysleisio pwysigrwydd edrych yn fwy gweithredol am y grwpiau llai hynny (para.108). Ategodd y cynghorwyr arbenigol hyn:

